

Gofalu am ein dyfodol

Ymchwiliad i effaith Deddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014 mewn perthynas â
gofalwyr

Tachwedd 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **Seneddlechyd@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@Seneddlechyd](https://twitter.com/Seneddlechyd)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gofalu am ein dyfodol

Ymchwiliad i effaith Deddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014 mewn perthynas â
gofalwyr

Tachwedd 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddIechyd

Cadeirydd y Pwyllgor:



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Jayne Bryant AC
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd



Angela Burns AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir
Benfro



Helen Mary Jones AC
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Lynne Neagle AC
Llafur Cymru
Torfaen



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberafan

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



Neil Hamilton AC
UKIP
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Julie Morgan AC
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Rhagair y Cadeirydd..... | 7 |
| Argymhellion..... | 8 |
| 1. Cefndir a diben ein hymchwiliad..... | 13 |
| Y cefndir..... | 13 |
| Ein hymchwiliad..... | 13 |
| 2. Effeithiolrwydd y Ddeddf..... | 15 |
| Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog..... | 17 |
| Ein barn ni..... | 18 |
| 3. Asesiadau o angen..... | 21 |
| Nifer yr asesiadau..... | 22 |
| Rhesymau dros beidio â chael asesiad..... | 23 |
| Ddim yn cael ei nodi fel gofalwr..... | 23 |
| Ymwybyddiaeth o anghenion personol..... | 24 |
| Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith gofalwyr..... | 24 |
| Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith gweithwyr proffesiynol..... | 25 |
| Rhyngweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol..... | 26 |
| Amrywiadau o ran dulliau gweithredu..... | 26 |
| Ansawdd y cyswllt cychwynnol..... | 28 |
| Hyfforddiant staff..... | 30 |
| Pecyn Cymorth Gofal Cymdeithasol Cymru..... | 30 |
| Gwrthod cynigion asesiad..... | 31 |
| Stigma..... | 32 |
| Amseroedd aros..... | 33 |
| Yr iaith a ddefnyddir gydag asesiadau..... | 34 |
| Cynllunio ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r broses asesu..... | 34 |
| Gwaith dilynol, adolygiadau ac ailasesiadau..... | 35 |
| Rôl y GIG..... | 36 |
| Rôl y trydydd sector..... | 37 |

| | |
|---|----|
| Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog | 39 |
| Ein barn ni | 41 |
| Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf | 41 |
| Anghysondeb wrth ddarparu asesiadau o anghenion | 42 |
| Amseroedd aros | 43 |
| Gwrthod cynigion o asesiad o anghenion | 43 |
| Gwaith cynllunio wrth gefn/at argyfwng | 44 |

4. Cefnogaeth i ofalwyr 45

| | |
|--|----|
| Gwaith cynllunio gofal a chymorth | 45 |
| Ardaloedd gwledig | 46 |
| Bod yn gymwys i gael cefnogaeth | 47 |
| Gofal seibiant | 49 |
| Argaeledd a phriodoldeb gofal seibiant | 49 |
| Ansawdd y ddarpariaeth | 52 |
| Taliadau Uniongyrchol | 52 |
| Dulliau arloesol | 54 |
| Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog | 54 |
| Ein barn ni | 55 |
| Taliadau Uniongyrchol | 57 |

5. Gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc 58

| | |
|---|----|
| Nodi fel gofalwyr | 59 |
| Asesu anghenion gofalwyr ifanc | 60 |
| Nifer yr asesiadau | 60 |
| Proses asesu'r gwasanaethau cymdeithasol - anghysondebau/amrywiad yn y dull | 60 |
| Lefelau gofal priodol | 61 |
| Effaith gofalu ar blant a phobl ifanc | 62 |
| Iechyd meddwl a llesiant | 63 |
| Cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol | 65 |
| Trafnidiaeth | 65 |

| | |
|---|----|
| Gofalwyr ifanc a'r ysgol | 66 |
| Cefnogaeth mewn ysgolion..... | 66 |
| Ymwybyddiaeth cyfoedion o ofalwyr ifanc | 67 |
| Canllawiau i ysgolion | 68 |
| Cardiau adnabod gofalwyr ifanc | 69 |
| Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog | 70 |
| Ein barn ni | 72 |
| Lefelau gofal priodol..... | 73 |
| Ysgolion..... | 73 |
| Cardiau adnabod gofalwyr ifanc | 74 |

6. Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy..... 75

| | |
|--|----|
| Argaeledd gwybodaeth | 75 |
| Hygyrchedd gwybodaeth | 77 |
| Pwynt mynediad sengl | 77 |
| Lledaenu gwybodaeth..... | 79 |
| Perfformiad gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy..... | 80 |
| Y Gymraeg..... | 80 |
| Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog | 81 |
| Ein barn ni | 81 |

7. Cyllid ac adnoddau..... 84

| | |
|--|----|
| Adnoddau i weithredu'r Ddeddf | 84 |
| Cyllid ar gyfer y trydydd sector | 86 |
| Cynnwys y trydydd sector mewn gwaith cynllunio gwasanaeth a phenderfyniadau cyllido..... | 87 |
| Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog | 88 |
| Adnoddau i weithredu'r Ddeddf..... | 88 |
| Cyllid ar gyfer y trydydd sector..... | 89 |
| Ein barn ni | 90 |
| Trefniadau cyllido ar gyfer y trydydd sector..... | 91 |

Casglu data 93

| | |
|--|-----|
| Data annigonol | 93 |
| Estyn | 95 |
| System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) | 95 |
| Data tymor hwy | 96 |
| Cydgysylltu ar draws gwasanaethau a sectorau | 96 |
| Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog | 97 |
| WCCIS | 97 |
| Data tymor hwy | 98 |
| Ein barn ni | 98 |
| WCCIS | 99 |
| Data tymor hwy | 100 |

Rhagair y Cadeirydd

Gofalwyr di-dâl yw conglfaen gofal cymunedol. Maent yn gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif helaeth o ofal yng Nghymru, o dan drefniadau anffurfiol, yr amcangyfrifir gan y Sector ei fod yn cyfateb i £8.1 biliwn y flwyddyn.

Hebddynt, byddai'r system gofal cymdeithasol yn chwalu. Ac eto mae llawer yn teimlo'n anobeithiol, eu bod yn cael eu tanbrisio a'u bod yn cael eu trin heb lawer o barch.

Yn ogystal â gofynion beunyddiol gofalu, mae bod yn ofalwr di-dâl yn cyflwyno cymaint o broblemau cysylltiedig i'r gofalwr ei hun - blinder, problemau iechyd corfforol a meddyliol, pryder, arwahanrwydd oddi wrth ffrindiau a theulu, a theimlad o golli hunaniaeth. Gall diffyg cefnogaeth briodol hefyd arwain at broblemau ariannol, gyda llawer o ofalwyr yn torri eu horiau gwaith neu'n rhoi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl er mwyn gallu rheoli eu cyfrifoldebau gofalu, gan roi eu dyfodol ariannol eu hunain yn y fantol.

Wrth edrych ymlaen, bydd rôl y gofalwr yn dod yn bwysicach fyth o ystyried gofynion poblogaeth sy'n heneiddio ag anghenion iechyd cynyddol gymhleth.

Felly, mae'n hanfodol bod gofalwyr di-dâl o bob oedran yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n briodol i barhau i ofalu. Fel rhan o hyn, rhaid cydnabod cyfraniad sylweddol y trydydd sector wrth gefnogi gofalwyr, o ran trefniadau cyllido mwy cynaliadwy, ac o ran eu cyfranogiad ystyrllon wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch y cyllid hwnnw.

Mae hyn yn rhywbeth sy'n gofyn am ffocws ac arweinyddiaeth genedlaethol gref. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd rhai o'r camau sydd eu hangen i weithredu'r ddeddfwriaeth. Rhaid iddi nawr ddilyn hyn gyda chamau gweithredu prydlon a phendant sy'n sicrhau bod yr hawliau a'r gefnogaeth a addawyd gan y Ddeddf yn cael eu cyflawni.



Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, ddangos arweinyddiaeth genedlaethol gryfach wrth ddarparu hawliau a gwasanaethau i ofalwyr o dan y Ddeddf. Fel man cychwyn, rhaid iddi baratoi, o fewn chwe mis, gynllun gweithredu clir ar gyfer mynd i'r afael â'r methiannau gweithredu a amlygwyd yn y dystiolaeth a gawsom. Wrth wneud hyn, rhaid iddi ymgynghori â rhanddeiliaid a gofalwyr allweddol. Rhaid iddi hefyd nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni'r camau a nodwyd yn ei chynllun. Tudalen 19

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynllunio nawr ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn nifer y gofalwyr di-dâl. Rhaid iddi gymryd golwg hirdymor ar beth fydd anghenion gofalwyr yn y dyfodol a sut, ynghyd ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector, y bydd yn diwallu'r anghenion hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac adrodd yn ôl inni ar y cynnydd mewn chwe mis. Tudalen 19

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Grŵp Cynghori Gweinidogol yn cael cefnogaeth ac adnoddau i fod yn fforwm effeithiol. Rhaid iddo fod â statws digonol o fewn Llywodraeth Cymru i godi proffil gofalwyr ac anghenion gofalu ar draws meysydd polisi'r llywodraeth, gan gynnwys llywodraeth leol, iechyd, tai a thrafnidiaeth. O'r herwydd, dylai aelod o Lywodraeth Cymru ei gadeirio. Dylai fod yn dryloyw, a dylai gyhoeddi agendâu a chofnodion ei gyfarfodydd. Rhaid i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn chwe mis ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn..... Tudalen 19

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, weithredu ei hymrwymiad i ymgymryd ag ymgyrch gyhoeddusrwydd fawr i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a hawliau gofalwyr oddi tani. Dylai hyn godi proffil gofalu, gwella'r broses o nodi gofalwyr, hyrwyddo manteision asesiadau o anghenion o dan y Ddeddf, ac annog pobl i gymryd rhan. Dylai hefyd gyfeirio pobl at wybodaeth, cyngor a chynorthwy priodol ynghylch gofalu. Rhaid i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn chwe mis. Tudalen 42

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hynny ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sydd fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad â gofalwyr, gan gynnwys meddygon teulu, yn gallu nodi gofalwyr a'u cyfeirio at wasanaethau priodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant penodol yn cael ei ddarparu ar gyfer hyn..... Tudalen 42

Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ffurfiol o asesu anghenion ar gyfer gofalwyr yn cael ei hegluro a'i safoni ar draws awdurdodau lleol. Rhaid iddi allu dangos sut y mae wedi cyflawni hyn a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn chwe mis..... Tudalen 42

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hynny ym maes gofal cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddarparu asesiadau anghenion yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwell profiad defnyddiwr i ofalwyr. Dylai'r hyfforddiant gynnwys pwyslais ar iaith briodol i'w defnyddio mewn perthynas ag asesiadau, dileu'r rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol a sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth y mae ganddynt yr hawl iddi o dan y Ddeddf. Rhaid i Lywodraeth Cymru werthuso effaith yr hyfforddiant hwn. Tudalen 43

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynnu gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses asesu anghenion. Mater i Lywodraeth Cymru yw dull y gwerthusiad hwn, ond dylid ei gynnal yn flynyddol a dylid cyhoeddi'r canlyniadau..... Tudalen 43

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r amser hwyaf y mae'n credu y dylai gofalwr ei aros i dderbyn asesiad o anghenion..... Tudalen 43

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd yn ôl ar restrau aros am asesiadau o anghenion. Gall y Grŵp Cyngori Gweinidogol ddarparu fforwm priodol ar gyfer adolygu'r adroddiadau hyn.43

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyfraddau gwrthod asesiadau o anghenion yn cael eu hadolygu. Gall y Grŵp Cyngori Gweinidogol ddarparu fforwm priodol ar gyfer y gwaith hwn. Tudalen 44

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith cynllunio at argyfwng yn rhan hanfodol o'r holl asesiadau o anghenion i sicrhau bod trefniadau penodol ar waith ar gyfer cyfnod pan nad yw'r gofalwr yn gallu parhau i ddarparu gofal..... Tudalen 44

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau darpariaeth deg o wasanaethau i ofalwyr ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau seibiant. Fel man cychwyn, rhaid iddi sicrhau bod ystod sylfaenol o wasanaethau cymorth i ofalwyr, yn seiliedig ar feini prawf cymhwysedd, yn cael eu darparu gan bob awdurdod lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno mecanwaith i fonitro darpariaeth y gefnogaeth hon. Dylai adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn chwe mis. Tudalen 56

Argymhelliad 14. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am wariant awdurdodau lleol ar wasanaethau seibiant. Dylai hyn gwmpasu pob blwyddyn ariannol ers i fuddsoddiad y llywodraeth o £3 miliwn o gyllid cylchol ddechrau yn 2017-18..... Tudalen 57

Argymhelliad 15. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod effaith ei buddsoddiad cylchol o £3 miliwn ar gyfer gwasanaethau seibiant yn cael ei gwerthuso. Rhaid i'r gwaith hwn nodi ansawdd a maint y gwasanaethau a ddarperir, ynghyd â chasglu gwybodaeth am fylchau yn y ddarpariaeth..... Tudalen 57

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod safon ofynnol o gyngor a chefnogaeth yn cael ei darparu ledled Cymru i'r gofalwyr hynny sy'n dymuno defnyddio Taliadau Uniongyrchol. Dylai hyn fod yn rhan o ystod sylfaenol o wasanaethau cymorth sy'n cael eu cynnig i ofalwyr..... Tudalen 57

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob gofalwr ifanc a phob gofalwr sy'n oedolyn ifanc yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Wrth wneud hynny, rhaid iddi fynd i'r afael â'r pryderon penodol a fynegwyd gan ofalwyr ifanc mewn tystiolaeth i'r pwyllgor hwn. Rhaid iddi sicrhau bod y gefnogaeth a'r gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn briodol i'w hoedran ac yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion penodol. Rhaid bod cysylltiad cryf hefyd rhwng ysgolion a gwasanaethau gofalwyr. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac adrodd yn ôl inni ar y cynnydd o fewn chwe mis. Tudalen 72

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch yr hyn a ystyrir yn lefel "briodol" o ofal i ofalwr ifanc er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru o leiaf yn gyfartal â'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban..... Tudalen 73

Argymhelliad 19. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiweddarau a chryfhau'r canllawiau presennol i ysgolion ynghylch nodi a chefnogi gofalwyr ifanc, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth ym mhob ysgol o'r galwadau ar ofalwyr ifanc. Dylai annog a chreu cyfleoedd i rannu arferion gorau o wasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion..... Tudalen 74

Argymhelliad 20. Credwn y dylai'r cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc fod yn gynllun cenedlaethol, wedi'i ddarparu gan bob awdurdod lleol gyda chefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru ac yn hygyrch i bob gofalwr ifanc a gofalwr sy'n oedolyn ifanc. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau

bod hyn yn cael ei gyflawni fel mater o flaenoriaeth. Dylai adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn chwe mis..... Tudalen 74

Argymhelliad 21. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr yn cael eu safoni ar draws bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol. Rhaid i hyn gynnwys darpariaeth ddwyieithog o'r gwasanaethau hyn. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynnull cynrychiolwyr o lywodraeth leol, byrddau iechyd a'r trydydd sector gyda'r nod o ddatblygu dull a fydd yn sicrhau'r gwelliannau hyn i'r defnyddiwr gwasanaeth. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl inni ar y cynnydd o fewn chwe mis..... Tudalen 82

Argymhelliad 22. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo argaeledd gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr yn well, gan gynnwys manylion clir am sut i gael gafael arnynt. Dylid gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch gyhoeddusrwydd y cyfeirir ati yn Argymhelliad 4..... Tudalen 82

Argymhelliad 23. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan staff sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, fel rhan o bwynt cyngor a gwybodaeth canolog pob awdurdod lleol, wybodaeth gyfoes am hawliau a gwasanaethau i ofalwyr o dan y Ddeddf, ac y darperir hyfforddiant gloywi lle bo angen. Nodwn y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cymhwysedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithwyr gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ein diweddarau ar y cynnydd gyda'r prosiect hwn. Tudalen 83

Argymhelliad 24. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwerthusiad annibynnol y Ddeddf yn ystyried a yw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr wedi bod yn ddigonol i gyflawni bwriadau polisi'r Ddeddf. Rhaid iddi hefyd ystyried y cyllid a fydd yn angenrheidiol yn y tymor hwy i ddarparu'r hawliau a'r gwasanaethau a addawyd gan y Ddeddf..... Tudalen 91

Argymhelliad 25. Mae'r sector statudol yn ddibynnol iawn ar y trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr. Mae angen adlewyrchu'r ddibyniaeth honno wrth ddarparu cyllid digonol ar gyfer y trydydd sector, a chynnwys y sector mewn modd ystyrlon wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch y cyllid hwnnw. Credwn y dylai'r Grŵp Cyngori Gweinidogol ystyried y mater hwn. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith hwn o fewn chwe mis..... Tudalen 91

Argymhelliad 26. Mae angen trefniant cyllido hirdymor, cynaliadwy a symlach ar gyfer sefydliad-au'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr o dan y Ddeddf. Credwn y dylid darparu cyllid bob tair blynedd o leiaf. Rhaid i Lywodraeth Cymru symud tuag at hyn fel mater o flaenoriaeth.....Tudalen 91

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr a hygyrch o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i ddarparu cymorth i ofalwyr gan y tryd-ydd sector. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol.....Tudalen 92

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sicrhau bod un llif cyllid ar gael ar gyfer gwas-anaethau gofalwyr. Dylai hyn ddisodli'r system gyfredol o grantiau unigol. Dylai fod mecanwaith monitro ac adrodd ochr yn ochr ag ef i sicrhau ei fod yn sicrhau gwerth am arian.....Tudalen 92

Argymhelliad 29. Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain yn gryfach ar ddull cenedlaethol o gasglu data ar ofalwyr, er mwyn sicrhau bod data priodol ac ystyrlon yn cael eu casglu ar draws pob sector mewn ffordd gydgyssylltiedig a chyson. Credwn y dylai hyn fod yn swyddogaeth y Grŵp Cyngori Gweinidogol, a ddylai ddatblygu canllawiau cenedlaethol i bennu pa ddata y mae angen eu casglu, sut y dylid eu casglu a sut y byddant yn cael eu defnyddio ar ôl eu casglu. Dylai'r data gael eu cyhoeddi, a dylid eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio gwasanaeth a chyllid yn y dyfodol. Credwn fod y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn rhan bwysig o'r gwaith hwn, a gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd.....Tudalen 99

Argymhelliad 30. Rydym yn cefnogi argymhelliad Estyn yn ei adroddiad ym mis Mai 2019 y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu data dibynadwy, a gesglir yn genedlaethol er mwyn helpu i nodi gofalwyr ifanc.....Tudalen 99

Argymhelliad 31. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru o fewn chwe mis.
.....Tudalen 100

1. Cefndir a diben ein hymchwiliad

Y cefndir

- 1.** Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) i rym ym mis Ebrill 2016. Ymhlith pethau eraill, roedd yn cryfhau cefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol i ofalwyr, gan roi hawliau iddynt gael asesiad o anghenion ac i gefnogi unrhyw “anghenion cymwys”. Roedd hefyd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu “gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy” i ofalwyr ni waeth a yw asesiad o’r fath yn cael ei gynnal ai peidio. Nod y Ddeddf yw gwella’r gwaith cynllunio gwasanaeth drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu anghenion gofal a chefnogaeth eu poblogaethau, gan gynnwys gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.
- 2.** Yn y Ddeddf, ystyr gofalwr yw “person sy’n darparu, neu’n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl”. Mae’r diffiniad hwn yn ehangach na’r diffiniad mewn deddfwriaeth gynharach, a oedd wedi’i gyfyngu i ofalwyr a oedd yn darparu “swm sylweddol o ofal yn rheolaidd”.
- 3.** Er bod y Ddeddf yn bwriadu darparu hawliau cryfach a gwell gwasanaethau i ofalwyr, erbyn 2018, roedd tystiolaeth wedi dod i’r amlwg i awgrymu nad oedd yn cael yr effaith a ddymunir. Roedd adroddiadau gan Gofalwyr Cymru (2018)¹ ac Arolygiaeth Gofal Cymru (2017)² yn mynegi pryderon nad oedd awdurdodau lleol yn blaenoriaethu anghenion gofalwyr. Amlygodd Sarah Rochira, y cyn-Gomisiynydd Pobl Hŷn, hefyd y nifer isel o ofalwyr yr oedd awdurdodau lleol yn asesu eu hanghenion, a niferoedd is fyth sy’n derbyn gwasanaethau cymorth.³
- 4.** At hynny, ni chafodd darpariaethau sylweddol ym Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol lunio strategaethau gofalwyr, gyda byrddau iechyd lleol i arwain ar y rhain, eu hefelychu yn y Ddeddf (roedd y Ddeddf hefyd yn diddymu’r Mesur).

Ein hymchwiliad

- 5.** O fewn y cyd-destun hwn, ac fel rhan o’n hymrwymiad⁴ i wneud gwaith dilynol ar ddeddfwriaeth o fewn ein cylch gwaith, roedd y Pwyllgor wedi cytuno i

¹ Gofalwyr Cymru - [Papurau briffio Track the Act](#)

² Arolygiaeth Gofal Cymru - [Cefnogi gofalwyr - adroddiad trosolwg ymgysylltu â gofalwyr](#)

³ Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2018

⁴ [Amcanion strategol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gyfer y Pumed Cynulliad](#)

gynnal ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr o bob oed yng Nghymru, ac i ystyried polisi ehangach Llywodraeth Cymru ar ofalwyr. Roedd yr ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol hwn yn canolbwyntio'n benodol ar:

- asesu angen;
- darparu cefnogaeth, gan gynnwys gofal seibiant;
- darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy; a
- gwybodaeth a gesglir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol am ofalwyr a'u hanghenion.

6. Rhwng 13 Gorffennaf ac 20 Medi 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Cafwyd **31 o ymatebion ysgrifenedig**, a'r rheini'n cynrychioli barn ystod o sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, grwpiau proffesiynol ac unigolion.

7. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom gynnal 14 o **sesiynau grŵp ffocws** anffurfiol mewn nifer o leoliadau ledled Cymru, lle clywsom farn 136 o ofalwyr a staff cymorth ag ystod eang o brofiadau, gan gynnwys gofalu am bobl â dementia, salwch meddwl, canser a strôc, am eu hymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'r gwasanaethau a'r gefnogaeth bresennol sydd ar gael iddynt. Helpodd y canfyddiadau hyn i lywio trafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r grwpiau hyn mewn **digwyddiad bwrdd crwn** ffurfiol gydag Aelodau'r Pwyllgor yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2018.

8. At hynny, clywsom **dystiolaeth lafar** gan nifer o dystion. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn gyda gofalwyr ifanc, fel rhan o weithdy a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2019 i nodi Diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. Clywsom hefyd gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

9. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at ein gwaith. Rydym yn gwerthfawrogi'n arbennig gyfranogiad yr holl ofalwyr a roddodd o'u hamser i ddod i rannu eu profiadau gyda ni.

2. Effeithiolrwydd y Ddeddf

Themâu allweddol yn y bennod hon

Yn fras, roedd y dystiolaeth a gawsom yn cefnogi'r ddeddfwriaeth, ond mynegwyd siom yn y ffordd y gweithredwyd y Ddeddf a'r ffordd y mae wedi derbyn adnoddau. Clywsom fod y system yn cael ei thanariannu'n ddifrifol.

Clywsom gan weithwyr cymorth a gofalwyr ledled Cymru a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo bod y Ddeddf wedi gwanhau'r hyn yr oedd y Mesur Gofalwyr wedi'i roi ar waith, a bod optimistiaeth gychwynnol ynghylch y gwahaniaeth y byddai'r Ddeddf yn ei chael wedi pylu.

Clywsom y bu rhai gwelliannau ers cyflwyno'r Ddeddf ond bod hyn yn anghyson.

Canfu adroddiad y profiad defnyddiwr gwasanaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru – “Mesur y Mynydd” - fod 75 y cant o'r gofalwyr a rannodd eu straeon wedi nodi eu bod yn negyddol neu'n negyddol iawn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o weithrediad y Ddeddf. Prifysgol De Cymru sy'n cynnal hyn. Cyhoeddir yr adroddiad a'r argymhellion terfynol yn 2021.

10. Yn fras, roedd y dystiolaeth a gawsom fel rhan o'n hymchwiliad yn cefnogi'r ddeddfwriaeth ei hun. Yn ôl Cadeirydd Ein Llais: Grŵp Gogledd Cymru:

“Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (SSWBA) yn cydnabod y pwysau mae gofalu'n ei roi ar unigolion a theuluoedd a gobeithio ei fod wedi dechrau newid cymdeithasol i gydnabod cyfraniad economaidd hollbwysig gofalwyr teuluol a rhoi pwysau ar Awdurdodau Lleol i ystyried a diwallu eu hanghenion, nid fel ôl-ystyriaeth ond fel hawl.”⁵

11. Fodd bynnag, mynegodd llawer o ymatebwyr siom yn y ffordd y gweithredwyd y Ddeddf a'r ffordd y mae wedi derbyn adnoddau. Awgrymodd Age Cymru fod y system fel y mae wedi'i thanariannu'n ddifrifol, tra dywedodd Hafal wrthym fod adnoddau, yn enwedig ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion, wedi bod dan bwysau dwys ers cyflwyno'r Ddeddf.⁶

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C10

12. Mewn gohebiaeth, dywedodd Damien McCann, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

“...the Social Services and Well-Being Act (Wales) 2014 was developed essentially because we could not afford to continue to deliver services as we had been. Therefore, any new Act which was to be ‘cost neutral’ would be based on maintaining or reducing costs and not increasing costs, this was to be done by focussing on prevention and early intervention.”

“It was also a change of culture for those staff delivering services from an approach based on ‘what’s your problem’ and ‘heres the solution or service’ we can provide. To a conversation now based on ‘what matters to you?’ and a more strengths based, collaborative, co-productive and individualised approach.”

“More importantly and sadly this cultural change was poorly promoted to the public and their expectations of what Social Services could deliver under this Act was not diminished and in fact was being promoted as delivering more.”⁷

13. Clywsom gan weithwyr cymorth a gofalwyr ledled Cymru a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo bod y Ddeddf wedi gwanhau’r hyn yr oedd y Mesur Gofalwyr wedi’i roi ar waith⁸, a bod optimistiaeth gychwynnol ynghylch y gwahaniaeth y byddai’r Ddeddf yn ei chael wedi pylu.⁹

14. Dywedodd Hafal wrthym nad yw’r mwyafrif o ofalwyr wedi sylwi ar unrhyw welliant ers cyflwyno’r Ddeddf. Awgrymodd fod hyn oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys llai o adnoddau sydd wedi effeithio ar allu gwasanaethau i gynnal asesiadau o ansawdd da ac i gyflawni ar yr anghenion a nodwyd mewn asesiadau.

15. Nododd Hafal ymhellach nad yw gwasanaethau wedi adeiladu ar y Ddeddf i greu diwylliant newydd o barch a chydweithrediad â gofalwyr.¹⁰ Fodd bynnag, nid oedd yn credu bod hyn yn adlewyrchiad o’r Ddeddf, yn hytrach:

“it is (...) a reminder that legislation has a limited role and provides little unless it is combined with both resources and also a matching policy and delivery response by service providers.”¹¹

⁷ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol - 18 Ionawr 2019

⁸ Crynodeb o’r grwpiau ffocws

⁹ Digwyddiad bwrdd crwn - crynodeb o’r trafodaethau

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, C10

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C10

16. Rhannwyd y farn hon gan gyfranogwyr yn ein Grwpiau Ffocws, a nododd nad oeddent wedi gweld unrhyw effaith o ganlyniad i'r Ddeddf:

“Mae'r Ddeddf yn addo llawer i ofalwyr, ond nid yw'r adnoddau yno i'w darparu nhw.” *Cyfranogwr o grŵp staff rheng flaen Ymddiriedolaeth y Gofalwyr*

“Nid yw'r Ddeddf yn gweithio. Rydym ar ymyl y dibyn. Nid ydym yn ymdopi.” *Cyfranogwr o Grŵp Gofalwyr Hafal Gorllewin Cymru*¹²

17. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn wrthym, er ei bod yn gadarnhaol bod y Ddeddf wedi rhoi gofalwyr ar sail gyfartal â'u hanwyliaid, nad oedd yn glir eto a oedd y Ddeddf yn cyflawni ei bwriad eang ac a oedd yr effaith ar ofalwyr wedi bod yn gadarnhaol. Roedd yn annog:

“Ddwy flynedd ar ôl gweithredu'r Ddeddf, mae angen troi'r sylw oddi wrth ei chynnwys a thuag at ei heffaith.”¹³

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

18. Clywsom gan y Dirprwy Weinidog fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu'r un hawl i ofalwyr gael gafael ar gefnogaeth gymwys â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal ymarfer pwysig i wella ansawdd y data ar effaith y Ddeddf, er mwyn sbarduno gwelliant parhaus wrth gyflawni'r hawliau a nodir yn y Ddeddf.

19. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru, yn y cyfamser, yn cymryd camau ymarferol drwy flaenoriaethau cenedlaethol, cefnogaeth uniongyrchol i ofalwyr a sefydlu Grŵp Cyngori Gweinidogol i wella dealltwriaeth o anghenion gofalwyr yn barhaus.

20. Bydd y Grŵp Cyngori Gweinidogol yn darparu fforwm cenedlaethol i lywio'r broses o ddarparu gwelliannau i ofalwyr ac yn darparu ymateb traws-sector i'r heriau y mae pob gofalwr yn eu hwynebu. At hynny, sefydlir Grŵp Ymgysylltiad ac Atebolwydd i gefnogi'r Grŵp Cyngori Gweinidogol. Bydd y grŵp hwn yn darparu llais ar gyfer ystod fwy amrywiol o ofalwyr a chynrychiolwyr gofalwyr nag sy'n bosibl ar y Grŵp Cyngori Gweinidogol, a bydd yn helpu'r grŵp i ganolbwyntio ar y materion sy'n bwysig ym mywydau gofalwyr o ddydd i ddydd.

21. O ran gwerthuso'r Ddeddf, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthusiad i “archwilio'r broses o weithredu'r

¹² Crynodeb o'r grwpiau ffocws

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

Ddeddf a'r effaith ar y bobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth a'r gofalwyr sy'n derbyn cefnogaeth. Bydd yn darparu gwybodaeth gadarn am sut y caiff y Ddeddf ei gweithredu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol”.

22. Prifysgol De Cymru sy'n cynnal y gwerthusiad. Dechreuodd ym mis Tachwedd 2018 a bydd yn rhedeg am o leiaf tair blynedd. Cyhoeddir yr adroddiad a'r argymhellion terfynol yn 2021.¹⁴

23. Ar wahân, cyhoeddwyd adroddiad terfynol “*Mesur y Mynydd*”, gwerthusiad cymunedol o effeithiolrwydd y Ddeddf, yn 2019. Roedd yr adroddiad, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i hymrwymiad gwerthuso cyffredinol, yn cynnwys 17 o argymhellion ar gyfer gwella profiadau gofalwyr.

Ein barn ni

24. Dros y 25 mlynedd diwethaf, ers cyflwyno Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995, bu gwelliannau cynyddol yn hawliau cyfreithiol gofalwyr. Fodd bynnag, ni wnaeth profiadau gofalwyr yn ystod yr amser hwn wella ynghyd â'r hawliau hyn.

25. Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynrychioli'r cam nesaf. Ei bwriad oedd darparu hawliau cryfach a gwell gwasanaethau i ofalwyr. O dan y Ddeddf honno, mae gan ofalwyr yr un hawliau i asesiad a chefnogaeth â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, ac mae awdurdodau lleol o dan ddyletswydd statudol i asesu anghenion gofalwyr a darparu cefnogaeth ar gyfer unrhyw anghenion cymwys.

26. Yn anffodus, unwaith eto, nid yw'r gwelliant pellach hwn mewn hawliau wedi arwain at brofiad gwell i ofalwyr. Mae hyn yn siomedig iawn.

27. I gynifer y clywsom ganddynt, mae'r Ddeddf wedi methu â chael unrhyw effaith ystyrlon ar eu bywydau. Mae problemau gydag asesiadau, gwasanaethau amhriodol a gwybodaeth a chyingor anghyson wedi arwain at ofalwyr yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn angof, yn cael eu tanbriso ac yn anobeithiol.

28. Efallai ei fod yn fwy pryderus yr ymddengys fod pethau wedi gwaethygu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd bod cyfyngiadau ariannol i awdurdodau lleol (a'r gwasanaeth iechyd) yn golygu nad oedd gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu.

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 29.** Pum mlynedd ers pasio deddfwriaeth a ddylai fod wedi bod yn drawsnewidiol i fywydau gofalwyr, mae'r canlyniadau, ar y gorau, wedi methu â chreu argraff.
- 30.** Ar hyn o bryd, mae tua 96 y cant o ofal blynyddol yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl. Mae amcangyfrifon yn nodi, erbyn 2037, y bydd mwy na hanner miliwn o bobl yn darparu rhyw fath o ofal anffurfiol.
- 31.** O ystyried diffyg effaith y ddeddfwriaeth hyd yma a maint yr her yn y dyfodol, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth genedlaethol gryfach wrth gefnogi gofalwyr. Mae angen iddi roi cyfeiriad cryfach i awdurdodau lleol a byrddau partneriaeth rhanbarthol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ofalwyr, ac mae angen iddi chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o oruchwylio hyn.
- 32.** Mae sefydlu Grŵp Cyngori Gweinidogol yn gam cadarnhaol gan y llywodraeth i ddarparu fforwm ar gyfer y gwaith hwn, ond ymddengys nad oedd ganddo fomentwm hyd yma.
- 33.** Mae'r Ddeddf yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, sy'n addo llawer i ofalwyr. Nid yw wedi gwneud iawn am yr addewidion hynny hyd yma, ac erbyn hyn mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd mwy o berchnogaeth dros ei chyflawni.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, ddangos arweinyddiaeth genedlaethol gryfach wrth ddarparu hawliau a gwasanaethau i ofalwyr o dan y Ddeddf. Fel man cychwyn, rhaid iddi baratoi, o fewn chwe mis, gynllun gweithredu clir ar gyfer mynd i'r afael â'r methiannau gweithredu a amlygwyd yn y dystiolaeth a gawsom. Wrth wneud hyn, rhaid iddi ymgynghori â rhanddeiliaid a gofalwyr allweddol. Rhaid iddi hefyd nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni'r camau a nodwyd yn ei chynllun.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynllunio nawr ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn nifer y gofalwyr di-dâl. Rhaid iddi gymryd golwg hirdymor ar beth fydd anghenion gofalwyr yn y dyfodol a sut, ynghyd ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector, y bydd yn diwallu'r anghenion hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac adrodd yn ôl inni ar y cynnydd mewn chwe mis.

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Grŵp Cyngori Gweinidogol yn cael cefnogaeth ac adnoddau i fod yn fforwm effeithiol. Rhaid iddo fod â statws digonol o fewn Llywodraeth Cymru i godi proffil gofalwyr ac anghenion gofalu ar draws meysydd polisi'r llywodraeth, gan gynnwys

llywodraeth leol, iechyd, tai a thrafnidiaeth. O'r herwydd, dylai aelod o Lywodraeth Cymru ei gadeirio. Dylai fod yn dryloyw, a dylai gyhoeddi agendâu a chofnodion ei gyfarfodydd. Rhaid i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn chwe mis ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

34. Rydym yn croesawu'r gwerthusiad annibynnol o weithrediad y Ddeddf a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debyg y bydd yr adroddiad a'r argymhellion, a gyhoeddir yn 2021, yn fater o ddiddordeb mawr i'n pwyllgor olynol yn y Cynulliad nesaf. Fodd bynnag, ni ddylai'r gwaith hwn fod yn rheswm i ohirio'r camau yr ydym yn eu hargymell yn yr adroddiad hwn.

35. Yn anochel, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywsom, y maen tramgwydd mwyaf i gyflawni'r Ddeddf yn llwyddiannus yw cyllid. Mae'n amlwg bod heriau gwirioneddol yn wynebu Llywodraeth Cymru, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector wrth gefnogi anghenion cynyddol a chynyddol gymhleth poblogaeth sy'n heneiddio. Mae llawer o waith eisoes yn cael ei wneud gan yr holl asiantaethau uchod, o ran blaenoriaethu a gwneud y mwyaf o'r adnoddau presennol, a chynllunio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

36. Fodd bynnag, rydym wedi nodi nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau ystyrlon ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Penodau sy'n dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith gofalwyr a gweithwyr proffesiynol; cyfeirio gofalwyr yn well at wasanaethau sy'n bodoli eisoes; gwell hyfforddiant i'r staff hynny sydd fwyaf tebygol o ymdrin â gofalwyr; a lefelau safonol o wybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar draws awdurdodau lleol.

37. Yn hyn oll, mae'n hanfodol cofio bod cyfrifoldebau beunyddiol gofalu am eu hanwyliaid yn parhau i gynifer o unigolion. Rhaid cydnabod a gwerthfawrogi eu gwaith, a'u gallu i barhau i ofalu, a chael bywyd ochr yn ochr â gofalu, gyda chefnogaeth lawn.

3. Aseidiadau o angen

Themâu allweddol yn y bennod hon

Gall fod yn anodd nodi gofalwyr, yn enwedig gan nad yw pob gofalwr yn adnabod ei hun felly. Mae gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi gofalwyr am asesiad, ond mae angen gwell cefnogaeth a hyfforddiant arnynt i wneud hyn.

Nid yw'r rhan fwyaf o ofalwyr yn ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 na'u hawliau oddi tani, yn enwedig o ran yr hawl i asesiad o anghenion gofalwr. Mae diffyg ymwybyddiaeth hefyd o'r Ddeddf a hawliau gofalwyr ymhlith gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys staff gwasanaethau cymdeithasol.

Mae llawer o ofalwyr yn ei chael hi'n anodd cael asesiad gofalwr; ni chynigir aseidiadau fel mater o drefn. Pan gaiff ei gynnig, mae nifer uchel yn gwrthod aseidiadau.

Dywed gofalwyr nad yw bob amser yn glir pryd mae asesiad yn cael ei gynnal. Mae angen egluro a safoni y broses asesu, ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc.

Mae dealltwriaeth ac agweddau staff gwasanaethau cymdeithasol wedi cael dylanwad sylweddol ar broses a mynediad at asesiad - gall rhai fod yn digalonni neu ddim yn ymwybodol o hawliau gofalwyr i asesiad.

Mae gofalwyr yn aml yn amharod i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd stigma canfyddedig, neu'r iaith a ddefnyddir mewn aseidiadau a all greu'r argraff bod y gallu i ofalu yn cael ei farnu. Efallai y bydd ceisio cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei ystyried yn gyfaddefiad o fethiant.

Mae materion pwysig i ofalwyr ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd i'r unigolyn sy'n derbyn gofal pan na allant ofalu amdanynt mwyach. Mae angen ystyried hyn.

38. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cryfhau cymorth gwasanaethau cymdeithasol i ofalwyr, gan gynnwys darparu hawliau i asesiad a chefnogaeth ar gyfer anghenion cymwys. Ehangodd y Ddeddf y diffiniad o ofalwr mewn deddfwriaeth gynharach i “[b]erson sy'n darparu, neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl” fel nad yw wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n darparu “swm sylweddol o ofal yn rheolaidd” mwyach.

39. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. At hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol asesu anghenion gofal a chefnogaeth eu poblogaethau, gan gynnwys gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt. Dylai'r asesiad hwn ystyried y canlyniadau y mae'r gofalwr am eu sicrhau.

Nifer yr asesiadau

40. Clywsom fod nifer y gofalwyr sy'n derbyn asesiad ffurfiol o anghenion yn isel. Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru¹⁵ am y cyfnod o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018, cynhaliwyd 6,178 o asesiadau ar gyfer cefnogaeth i ofalwyr. O'r rhain, dim ond 2,027 o ofalwyr a gafodd gynllun cymorth.

41. Fel rhan o arolwg a gynhaliwyd gan Gofalwyr Cymru yn 2017-18, dywedodd 54 y cant o ofalwyr nad oeddent wedi gofyn am asesiad, wedi cael cynnig asesiad nac wedi cael adolygiad o'u hasesiad cyfredol. O'r rhai a oedd wedi gofyn am asesiad neu wedi cael cynnig asesiad, nid oedd 37 y cant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth neu gefnogaeth o ganlyniad i'r asesiad hwnnw. Disgrifiodd Gofalwyr Cymru hyn fel "hynod siomedig" o ystyried bod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr wedi bod yn gofalu am dros flwyddyn gyda chyfrifoldebau gofalu sylweddol.¹⁶

42. Ategwyd hyn gan dystiolaeth o'n sesiynau grwpiau ffocws, a gynhaliwyd ledled Cymru, lle nododd tua hanner y cyfranogwyr eu bod wedi cael asesiad gofalwr.

43. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y bydd gan ofalwyr wahanol anghenion yn dibynnu ar eu sefyllfa ofalu, ac nid yw pob gofalwr eisiau nac angen cefnogaeth drwy'r amser. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym eu bod yn clywed gan lawer o ofalwyr sy'n dweud:

"We don't need an assessment, we just need a little bit of help."¹⁷

44. Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion, derbynnir yn gyffredinol fod trosiant o oddeutu 30 y cant o ofalwyr sy'n dechrau gofalu ac yn rhoi'r gorau i ofalu yn ystod y flwyddyn. Ni fydd canran o'r rhain eisiau ymgysylltu â gwasanaethau oherwydd eu bod yn ymdopi â'r rôl ofalu neu wedi ceisio ac wedi defnyddio cymorth y tu allan i wasanaethau statudol.¹⁸

¹⁵ Ystadegau arbrofol: [Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yng Nghymru, 2017-18](#)

¹⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig, C27](#)

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 217

¹⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig, C25](#)

Rhesymau dros beidio â chael asesiad

45. Yn ogystal â gofalwyr sydd wedi dewis peidio â chael asesiad, mae nifer o resymau eraill pam nad yw gofalwr efallai wedi cael asesiad o angen.

Ddim yn cael ei nodi fel gofalwr

46. Cyn y gellir asesu anghenion gofalwr, yn gyntaf rhaid nodi'r unigolyn hwnnw fel "gofalwr". Gall hyn fod yn heriol, yn enwedig gan nad yw pob gofalwr yn nodi ei hun yn ofalwr ac felly nid yw'n cydnabod bod ganddo hawliau. Fel y dywedodd cadeirydd Ein Llais: Grŵp Gogledd Cymru wrthym:

"Bydd y rhan fwyaf o bobl rywbyrd yn eu bywydau yn dod yn ofalwr i aelod o'r teulu, nid yw'n rhywbeth y byddwn ni'n cynllunio ar ei gyfer neu'n rôl rydyn ni ei heisiau'n weithredol, ond rydyn ni'n dod yn ofalwr oherwydd ein bod yn caru'r person ac eisiau eu helpu cymaint ag y gallwn."¹⁹

47. Yn ei adroddiad yn 2016²⁰, Canfu Carers UK fod 55 y cant o ofalwyr yng Nghymru wedi cymryd dros flwyddyn i gydnabod eu rôl ofalu, a chymerodd 24 y cant dros bum mlynedd i nodi eu bod yn "ofalwr".

48. Mae tystiolaeth gan CLILC/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn awgrymu bod hyn yn aml oherwydd bod gofalwyr yn gweld y gefnogaeth y maent yn ei darparu fel rhan naturiol o'u perthynas gyda'r unigolyn sy'n derbyn gofal.²¹

49. Soniodd llawer o'r gofalwyr a gymerodd ran yn ein sesiynau grŵp ffocws ledled Cymru am "[d]disgyn i'r rôl" a heb sylweddoli eu bod yn ofalwr ar unwaith. Roedd llawer yn teimlo bod hyn wedi'i gwneud hi'n anodd cydnabod bod angen cefnogaeth arnynt hyd nes eu bod mewn sefyllfa anobeithiol.²²

"No one ever expects to become a carer and we are often thrust into this with no preparation, no role description, no agreement, no pay, no breaks and a loss of control over your future."²³

50. Fodd bynnag, yn ôl Gofalwyr Cymru, drwy beidio â nodi eu hunain, mae gofalwyr yn colli allan ar gymorth ariannol neu ymarferol (neu'r ddau):

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

²⁰ Adroddiad 2016 Carers UK: "Missing out: the identification challenge (Saesneg yn unig)"

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C28

²² Crynodeb o'r grwpiau ffocws

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C03

“These carers would probably say “I’m just being a husband, a wife, a mum, a dad, a son, a daughter, a friend or a neighbour” and it is imperative that there should be a national awareness raising campaign by Welsh Government to reach out to these ‘hidden’ carers to ensure that they know that there is information and support available to them.”²⁴

Ymwybyddiaeth o anghenion personol

51. Nid yw’r gofalwyr eu hunain bob amser yn ymwybodol o’r hyn sydd ei angen arnynt. Nododd tystiolaeth gan Hafal:

“A major problem is that carers often don’t know what to ask for i.e. unless you know that a service or resource exists, professionals don’t provide signposting.”²⁵

52. Cefnogwyd hyn gan Jayne Goodrick, gofalwr person sy’n byw gyda dementia, a ddywedodd wrthym:

“If we don’t know what our needs are, how do we know that we need? So, it’s just a waste of time, unless we know. [...] Ceri and I have been carers for years now, we actually know a little bit more—the new carers don’t.”²⁶

53. Dywedodd cynrychiolydd gofalwyr gyda Hafal wrthym, mewn llawer o achosion, yn enwedig i ofalwyr sy’n gofalu am bobl ag afiechyd meddwl, y byddai’n ddefnyddiol cael rhywun i roi cyngor ar yr hyn sydd ei angen fel rhan o’r broses asesu ac amlinellu pa gefnogaeth sydd ar gael, gan fod cymaint o ofalwyr yn y sefyllfa hon yn blaenoriaethu anghenion yr unigolyn sy’n derbyn gofal ac yn ei chael hi’n anodd nodi eu hanghenion eu hunain.²⁷

54. Awgrymodd Kay John-Williams, Defnyddiwr Gwasanaeth a Swyddog Cyfranogiad Gofalwyr, Hafal, y dylid darparu hyfforddiant i ofalwyr cyn, neu ochr yn ochr â derbyn asesiad o anghenion fel bod dealltwriaeth lawn o’r broses.²⁸

Ymwybyddiaeth o’r Ddeddf ymhlith gofalwyr

55. Clywsom nad oes llawer o ymwybyddiaeth o’r Ddeddf, a’r hawliau oddi tani, ymhlith gofalwyr. Yn benodol, nid yw llawer o ofalwyr yn gwybod bod y diffiniad o

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C10

²⁶ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 172

²⁷ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 548

²⁸ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 484

“ofalwr” wedi'i ehangu o dan y ddeddfwriaeth hon, felly nid ydynt yn ymwybodol y gallent fod wedi dod yn gymwys i gael asesiad.

56. Dywedodd Mencap Cymru wrthym:

“If we look at the carers assessment, the majority of those who we spoke to had no awareness that it was something that they were entitled to. They didn't know what it was.”²⁹

57. Ategwyd hyn gan y cyfranogwyr yn ein sesiynau Grwpiau Ffocws, a dywedodd y mwyafrif ohonynt nad oeddent yn ymwybodol o'r Ddeddf. Lle'r oedd ymwybyddiaeth, roedd hyn yn tueddu i ddod naill ai gan eiriolwr neu drwy eu hymchwil eu hunain.

“Does neb wedi dweud wrthyf i am fy hawliau o dan y Ddeddf.”
Cyfranogwr o Grŵp Gofalwyr Iechyd Meddwl Caerffili

“Yn sgil anobaith llwyr, es i ar-lein a dod o hyd i Ofalwyr Cymru. Dim ond ar ôl hynny y des i wybod am fy hawliau.” *Cyfranogwr o Bwyllgor Gofalwyr Cymru*³⁰

58. Fodd bynnag, ar ôl clywed am y Ddeddf gan ffrindiau a theulu neu ofalwyr eraill, ni fyddai llawer o unigolion wedyn yn gwybod sut i gael mynediad at asesiad gofalwr na ble i fynd i gael y wybodaeth honno.³¹

Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith gweithwyr proffesiynol

59. Yn ogystal ag ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r Ddeddf ymhlith gofalwyr, clywsom am ddiffyg ymwybyddiaeth tebyg ymhlith gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, mater allweddol a nodwyd gan ofalwyr a gwasanaethau gofalwyr yw'r diffyg gwybodaeth parhaus ymhlith ystod o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, am hawliau gofalwyr. Mae'n nodi:

“Beyond a lack of ability to appropriately signpost for support, there is ongoing concern that too many professionals fail to identify carers or to have appropriate information-sharing mechanisms to ensure holistic packages of support are delivered for carers.”³²

²⁹ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 560

³⁰ [Crynodeb o'r grwpiau ffocws](#)

³¹ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 560

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

60. Gall hyn arwain at broblemau fel peidio â nodi gofalwyr yn iawn, ddim yn eu cyfeirio at y gwasanaethau ategol priodol, a pheidio â'u gwneud yn ymwybodol o'u hawliau o dan y Ddeddf.

61. Dywedodd Ceri Higgins, rhywun sy'n gofalu am berson â dementia:

“I printed off a lot of paperwork representing the Act and actually gave it to the social worker, and he said, ‘Oh, I’ve never heard of that before.’”³³

Rhyngweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol

62. O dan adran 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion gofalwyr lle mae'n ymddangos iddynt y gallai fod gan ofalwr anghenion am gefnogaeth.

63. Yn 2017-18, cynhaliwyd 6,178 o asesiadau o'r angen am gymorth i ofalwyr yng Nghymru, a arweiniodd at ddarparu 2,027 o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr.³⁴

Amrywiadau o ran dulliau gweithredu

64. Clywsom dystiolaeth fod y ffordd y mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag asesiadau anghenion gofalwyr yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Disgrifiodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yr amrywiadau hyn mewn arferion fel loteri cod post o sut a phryd y derbynnir asesiad o anghenion, os o gwbl, a'r gwasanaethau a ddarperir wedi hynny.³⁵ Roedd tystiolaeth gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn awgrymu bod amrywiad hyd yn oed mewn arferion o fewn awdurdodau lleol a rhwng gweithwyr cymdeithasol ar yr un tîm.

65. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym fod rhai awdurdodau lleol yn cynnig sgwrs cyn-asesu “beth sy'n bwysig”,³⁶ mae eraill yn anfon ffurflen cyn-asesu yn y post, mae rhai awdurdodau lleol yn trefnu'r gwasanaeth yn allanol drwy sefydliadau'r trydydd sector, tra bod gan eraill swyddogion ymroddedig.³⁷

66. Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod gofalwyr yn glir eu bod am adrodd eu straeon a chynnal sgysiau ystyrlon “beth sy'n bwysig” gyda gweithwyr

³³ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 209

³⁴ Ystadegau Llywodraeth Cymru *Qedolion sy'n derbyn gofal a chefnogaeth 2017-18*, 30 Hydref 2018.

³⁵ *Tystiolaeth ysgrifenedig, C11*

³⁶ Sgwrs â ffocws gydag unigolyn i nodi ei sefyllfa bresennol a pha gefnogaeth a allai helpu i'w gwella a hyrwyddo eu lles a'u gwytnwch.

³⁷ *Tystiolaeth ysgrifenedig, C27*

cymdeithasol, yr ymatebir iddynt wedyn. Fodd bynnag, roedd hyn yn anghyson ledled Cymru.³⁸

67. Tynnodd y Comisiynydd Pobl Hŷn sylw hefyd at bwysigrwydd y dull “beth sy’n bwysig”, gan ddweud y dylai ffocws y drafodaeth fod ar yr hyn sy’n bwysig” i’r unigolyn hwnnw a dysgu am yr unigolyn hwnnw, ei gryfderau a’i anghenion cymorth, gyda’r rhagdybiaeth ei fod y person gorau i farnu beth sydd orau iddo mewn perthynas â’i lesiant.³⁹

68. Cytunodd y Gymdeithas Alzheimer’s fod profiadau’n amrywio ymhlith ei defnyddwyr gwasanaeth, gan ddweud bod rhai gofalwyr yn ystyried bod asesiadau’n anghyson ac yn symbolaidd.⁴⁰ Dywedodd fod tystiolaeth yn awgrymu bod asesiadau’n cael eu cynnal dros y ffôn yn hytrach nag wyneb yn wyneb, gan olygu nad oedd yr asesydd yn cael y darlun llawn o sefyllfa’r gofalwr a oedd yn cael ei asesu.⁴¹

69. Fe’n hysbyswyd gan Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod ganddynt enghreifftiau o awdurdodau lleol yn anfon llythyr a ffurflen at ofalwr er mwyn iddo ei chwblhau fel cynnig o asesiad. Cododd hyn bryderon y gellir ystyried bod y gofalwyr hynny na lenwodd y ffurflen wedi gwrthod asesiad.⁴²

70. Clywsom adroddiadau hefyd fod y broses asesu ei hun yn aneglur, ac nad oedd llawer o ofalwyr yn sylweddoli eu bod yn cael eu hasesu. Ar y pwynt hwn, awgrymodd Gofalwyr Cymru y gallai fod diffyg dealltwriaeth pan fyddai sgysiau’n digwydd rhwng gofalwyr a’r rhai sy’n darparu cefnogaeth ynghylch statws y sgwrs honno.⁴³

71. Roedd hyn yn cyfateb â phrofiadau cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws, a nododd rhai ohonynt nad oeddent yn ymwybodol eu bod yn cael eu hasesu ac nad oedd ganddynt unrhyw ddealltwriaeth o’r hyn a fyddai’n digwydd nesaf, tra bod eraill wedi nodi eu bod yn cael eu hasesu o flaen yr unigolyn yr oeddent yn gofalu amdano ac fel y cyfryw, yn teimlo na allent fod mor onest ag y byddent wedi dymuno.

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

⁴² Gwybodaeth ychwanegol, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru – 23 Tachwedd 2018

⁴³ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 181

“Os nad yw pobl yn gwybod eu bod yn cael asesiad, nid ydyn nhw’n gwybod beth i ofyn amdano, na beth mae ganddyn nhw hawl i’w gael.”
*Cyfranogwr o Grŵp Gofalwyr y Gymdeithas Strôc*⁴⁴

72. Dywedodd llawer fod ansawdd yr asesiad a geir yn dibynnu ar y gweithiwr cymdeithasol unigol a’i ddealltwriaeth o’r Ddeddf a hawliau gofalwyr.⁴⁵

Ansawdd y cyswllt cychwynnol

73. Mae dealltwriaeth ac agweddau rhai staff gwasanaethau cymdeithasol yn cael dylanwad sylweddol ar fynediad at asesiadau a’r broses ar gyfer hyn, a gall rhai fod yn anobeithiol neu ddim yn anymwybodol o hawliau gofalwr i asesiad.

74. Roedd barn ymhlith cyfranogwyr yn ein grŵp ffocws, a oedd yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, yn cael eu gyrru gan brosesau a thargedau ac nad oeddent yn rhoi’r defnyddiwr wrth wraidd y broses. Cafwyd awgrym hefyd mai dim ond pan oedd dyletswydd ar wasanaethau i ymateb yr oeddent yn gwneud hynny.⁴⁶

75. Nododd Age Cymru fod y cyswllt cychwynnol rhwng gofalwr a’r gwasanaethau cymdeithasol yn hynod bwysig. Nododd, mewn rhai ardaloedd, fod pobl sy’n cysylltu ag awdurdodau lleol dros y ffôn neu’n bersonol yn cael eu cyfeirio at asiantaethau’r trydydd sector heb ystyried eu hamgylchiadau’n briodol. At hynny, cafodd rhai wybod bod awdurdodau lleol yn dyrannu nifer sefydlog o alwadau-yn-ôl i breswylwyr ar ddechrau pob diwrnod, gan gyfeirio galwyr aflwyddiannus at asiantaethau eraill.⁴⁷

76. Nododd gofalwyr yn ein digwyddiad bwrdd crwn brofiadau anobeithiol wrth ofyn am asesiad, gan ddweud bod rhai staff gwasanaethau cymdeithasol wedi cwestiynu pam roedd angen yr asesiad, neu y dylent fod wedi gwneud mwy nag un ymgais i gael asesiad.⁴⁸

77. Yn ein grwpiau ffocws, clywsom gan rieni gofalwyr a oedd yn teimlo na allent fod yn onest ynglŷn â sut yr oeddent yn ymdopi â’u cyfrifoldebau rhag ofn yr ôl-ffeithiau. Yn yr un modd, dywedodd gofalwyr ifanc eu bod yn cysylltu gwasanaethau cymdeithasol â phrofiadau negyddol a’u bod yn ofni dweud eu bod yn cael trafferth ymdopi.⁴⁹

⁴⁴ Crynodeb o’r grwpiau ffocws

⁴⁵ Crynodeb o’r grwpiau ffocws

⁴⁶ Crynodeb o’r grwpiau ffocws

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, C19

⁴⁸ Digwyddiad bwrdd crwn - crynodeb o’r trafodaethau

⁴⁹ Crynodeb o’r grwpiau ffocws

78. Awgrymwyd bod staff gwaith cymdeithasol, mewn rhai achosion, yn ceisio rheoli disgwyliadau o amgylch asesiadau gan fod gwasanaethau'n gyfyngedig oherwydd adnoddau. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym:

“The critical issue is funding, because the reality is that a lot of social workers, or people undertaking the carers needs assessments, will be concerned about raising expectations about what support is available, because in many cases that support isn't available.”⁵⁰

79. Dywedodd rhai cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws eu bod wedi cael gwybod cost yr asesiadau mewn ymgais i'w darbwyllio i beidio â gofyn am asesiad yn ffurfiol. Yn yr un modd, awgrymodd Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod rhai awdurdodau lleol yn annog gofalwyr i beidio â chymryd y cynnig o asesiad, gan nodi:

“we have examples of some local authorities discouraging carers from taking up the offer of an assessment on the grounds that the menu of services they can offer does not meet that individual carer's needs. Clearly, this is contrary to obligations set out under the Social Services and Wellbeing (Wales) Act.”⁵¹

80. Clywsom hefyd fod “corddi gweithwyr cymdeithasol” yn bryder.⁵² Dywedodd YMCA wrthym y gall trosiant gweithwyr cymdeithasol fod yn eithaf uchel, felly gellir nodi mater o fewn teulu ac yna ddeufis yn ddiweddarach mae rhywun arall yn dod i mewn, dri mis arall, mae rhywun arall yn dod i mewn.⁵³

81. Dywedodd Ceri Higgins, gofalwr i berson sy'n byw gyda dementia, wrthym ei bod ar ei phumed gweithiwr cymdeithasol i'w rhieni.⁵⁴

82. Tynnodd Age Cymru sylw at bryderon penodol i ofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia, oherwydd gall trosiant uchel o fewn y gweithlu effeithio ar barhad cefnogaeth, a gall wynebaw anghyfarwydd arwain at ddryswch, ofn ac ymddygiad anoddach.⁵⁵

83. Tynnodd Cyngor Sir Fynwy sylw at bryderon ynghylch adnoddau gwasanaethau cymdeithasol hefyd:

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 176

⁵¹ Llythyr gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru ynghylch asesiadau anghenion gofalwyr - 27 Chwefror 2019

⁵² Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 623

⁵³ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 109

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 182

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C19

“...the people on the ground are shrinking. And when you do a carer’s needs assessment, [] we spend a lot of time talking to somebody because a carer’s needs assessment is not just a tick-box exercise. So, to do a carer’s needs assessment, you need to do it properly, and manpower is time.”⁵⁶

Hyfforddiant staff

84. Clywsom fod angen gwell hyfforddiant i staff am y Ddeddf. Awgrymodd Gofalwyr Cymru nad oedd llawer o ofalwyr sy’n cyrchu gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf mewn awdurdodau lleol yn cael eu nodi, gan nad oedd staff wedi’u hyfforddi’n ddigonol i nodi gofalwyr a rhoi’r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.⁵⁷

85. Credai Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ei bod yn bwysig deall pa weithwyr proffesiynol oedd fwyaf tebygol o gwrdd â theuluoedd a gofalwyr a rhoi’r gefnogaeth a’r hyfforddiant priodol iddynt er mwyn sicrhau y gallent ddarparu cynnig gweithredol o gefnogaeth a’u cyfeirio’n effeithiol.⁵⁸

86. Cydnabuwyd hyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru, a nododd:

“Rydym yn gwybod bod gennym lawer mwy i’w wneud ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi anghenion y gweithlu mewn perthynas â’r Ddeddf a gofalwyr. Bydd y gwaith yn cyfrannu’n uniongyrchol at wella profiadau pobl sy’n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn ogystal â’u gofalwyr.”⁵⁹

87. Aeth ymlaen i ddweud y bydd yn cyhoeddi modiwl e-ddysgu am ddim maes o law i godi ymwybyddiaeth o amgylchiadau gofalwyr, y mae’n gobeithio y byddai’n helpu i nodi gofalwyr pan maent yn cysylltu â gwasanaethau.

Pecyn Cymorth Gofal Cymdeithasol Cymru

88. Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru wrthym ei fod yn bwriadu cyhoeddi pecyn cymorth newydd ar gyfer gweithio gyda gofalwyr gyda’r nod o wella cysondeb y broses asesu. Byddai’r pecyn cymorth yn cynnwys canllawiau ar gyfer gweithio gyda gofalwyr i’w helpu i baratoi ar gyfer eu hasesiad a chael y gorau ohono, sgiliau wrth gynnal yr asesiad gyda phwyslais penodol ar sgiliau cyfathrebu a gwrando a chynllunio cymorth mewn modd effeithiol.

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 372

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C09

89. Cyhoeddwyd y pecyn cymorth⁶⁰ ym mis Mai 2019, er nad yw'n hysbys eto beth yw'r nifer sy'n manteisio arno.

90. Tynnodd nifer o dystion sylw at yr angen am ddull safonol o asesu. Dywedodd Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg wrthym:

“Both the Vale of Glamorgan Council and Cardiff Council have taken steps to raise awareness of the right to a carers’ assessment and this is to be welcomed. However, it is clear that there is much more to do in terms of raising awareness of carers rights and this could be further improved via a more focussed and co-ordinated approach to information and advice.”⁶¹

91. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru mai profiad cyffredinol eu staff oedd bod sefydliadau'r trydydd sector, byrddau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol yn siarad gwahanol ieithoedd. Aeth ymlaen i ddweud:

“this includes different policies and different structures [] there is a need for some form of standardisation.”⁶²

92. Awgrymodd CLILC y gallai cyflwyno'r pecyn cymorth ddarparu'r dull safonol yr oedd pobl yn galw amdano.⁶³

93. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y gallai ei gyflwyno a'i weithredu fod yn hanfodol i wella ymwybyddiaeth a nodi gofalwyr ymhlith staff gofal cymdeithasol a chynyddu'r mynediad sydd gan ofalwyr hŷn at asesiadau.⁶⁴

Gwrthod cynigion asesiad

94. Yn ychwanegol at y gyfran fach o ofalwyr sydd wedi cael asesiad ffurfiol o anghenion o dan y Ddeddf, ymddengys bod nifer gymharol uchel yn gwrthod yr asesiad. Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru⁶⁵, gwrthododd 6,891 o ofalwyr asesiad yn 2017-18.

95. Clywsom fod llawer o resymau pam y gall gofalwyr wrthod asesiad, a nodir yn yr adrannau a ganlyn. Gall y rhain gynnwys ofn ymwneud â gwasanaethau

⁶⁰ Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi asesiadau gofalwyr

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C14

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

⁶³ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 380

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

⁶⁵ Ystadegau arbrofol: [Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yng Nghymru, 2017-18](#)

cymdeithasol, amseriad y cynnig, neu'r ffordd y mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno a'r iaith a ddefnyddir.

Stigma

96. Clywsom, i rai gofalwyr, fod amharodrwydd cyffredinol i ymgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn golygu eu bod yn gwrthod cynigion o asesiadau anghenion. Teimlai rhai gofalwyr fod stigma yn gysylltiedig â cheisio cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, ac y gallai gwneud hynny gael ei ystyried yn gyfaddefiad o fethiant i ymdopi.

97. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru wrthym fod llawer o ofalwyr yn ofni y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn symud yr unigolyn sy'n derbyn gofal os na all y gofalwr ymdopi. Yn aml, mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn estyniad o ffigwr awdurdod ac mae gofalwyr yn ofni cwestiynu neu frwydro am rywbeth sydd ei angen arnynt.⁶⁶

98. Aeth ymlaen i dynnu sylw at resymau eraill pam y gallai gofalwr wrthod asesiad, gan gynnwys: ofn asesiad ariannol a cholli cymorth; colli rheolaeth ar fywyd personol a chartref; diffyg cefnogaeth eiriolaeth i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal, a theimlo dyletswydd i ddarparu.⁶⁷

99. Dywedodd Age Cymru wrthym fod hyn yn arbennig o wir am ofalwyr hŷn (80 oed neu'n hŷn) sy'n gofalu am briod neu bartner, a gofalwyr pobl â dementia, lle mae dymuniad i gadw pethau'n breifat.⁶⁸

100. Dywedodd cyfranogwr yn ein sesiwn grwpiau ffocws o grŵp staff rheng flaen yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr fod y trydydd sector yn bwysig iawn wrth gefnogi gofalwyr a'u helpu i ddeall bod y stigma mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol wedi dyddio.⁶⁹

101. Fodd bynnag, clywsom gan ofalwr unigolyn sy'n byw gyda dementia y gall fod yn fuddiol iawn pan ddarperir cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd wrthym ei bod wedi bod yn ofni ymgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i ddechrau ond:

“the social worker was one of the best people that came into our lives to unlock doors for me.”⁷⁰

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C19

⁶⁹ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 173

Amseroedd aros

102. Mae gofalwyr sy'n cael cynnig asesiad o dan y Ddeddf yn aml yn wynebu arosiadau hir. Dywedodd y Gymdeithas Alzheimer's wrthym fod tystiolaeth storïol gan staff rheng flaen wedi datgelu bod gan y mwyafrif o awdurdodau lleol restrau aros hir, ac yn aml mae'n achos o gymryd tocyn ac aros i'ch rhif gael ei alw.⁷¹

103. Dywedodd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws y cawsant wybod bod yr amseroedd aros am asesiadau yn eu hardaloedd rhwng tri a chwe mis.

104. Nododd Age Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn fod gofalwyr hŷn wedi mynegi pryderon ynghylch amseroedd aros am asesiadau; gan awgrymu nad oedd gofalwyr hŷn yn cael yr un ystyriaethau â gofalwyr eraill, ac yn aros yn hwy am fynediad at asesiad.⁷² Mae hyn yn arbennig o bryderus o ystyried pwysigrwydd mynediad cynnar at wasanaethau priodol i atal gofalwyr rhag cyrraedd pwynt argyfwng. Ar hyn, dywedodd Age Cymru wrthym:

“A health crisis for a carer can rapidly develop into a crisis for both the carer and the individual cared for.”⁷³

105. Clywsom hefyd am bwysigrwydd asesiadau amserol i'r rheini sy'n byw gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Dywedodd Together for Short Lives wrthym:

“Our voluntary sector members (...) feel that they are reaching children and their families too late in the course of their illness, because assessments that would allow for these lifeline services to be accessed sooner are being carried out too late.”⁷⁴

106. Cyfeiriodd tystiolaeth gan y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor at waith ymchwil diweddar gan Carers UK fod 39 y cant o bobl sy'n gofalu am rywun ar ddiwedd oes yn aros chwe mis neu fwy am eu hasesiad. Nododd fod mynediad amserol at asesiad yn hanfodol i ofalwyr y rhai sydd â chyflwr sy'n datblygu'n gyflym fel Clefyd Niwronau Motor, a galwodd am i ofalwyr pobl sydd â salwch cynyddol a therfynol fel hyn gael eu hasesiadau'n gyflym.⁷⁵

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, C19 a C24

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C19

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C29

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

Yr iaith a ddefnyddir gydag asesiadau

107. Clywsom dystiolaeth y gall iaith asesiadau anghenion fod yn negyddol ac yn annymunol. Awgrymodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod rhai gofalwyr yn credu bod yr asesiad yn asesiad o ba mor dda y mae'r gofalwr yn perfformio, yn hytrach na bod yn asesiad o'r hyn sydd ei angen arno. Dywedodd fod hyn yn amlygu pwysigrwydd defnyddio iaith y gall pobl ei deall.⁷⁶

108. Dywedodd Jayne Goodrick, gofalwr unigolyn sy'n byw gyda dementia, fod y term "asesiad o anghenion gofalwyr" yn swnio'n feirniadol.⁷⁷ Ychwanegodd:

"It's just sometimes the language that is used. You know, 'We'd like to come along and see if there's anything we can to help you' is a much better way of saying, 'We're doing an assessment of needs.' Sometimes, it's as simple as changing the language."⁷⁸

109. Amlygodd tystiolaeth gan Hafal yr angen i leihau faint o jargon a siarad corfforaethol sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol fel bod gwybodaeth/cyngor a roddir i ofalwyr yn gryno ac yn ymarferol.⁷⁹

110. Fodd bynnag, dywedodd CLILC wrthym fod llawer o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r iaith a ddefnyddir o amgylch asesiadau anghenion gofalwyr:

"...if you can emphasise the word 'needs', it concentrates people's thoughts that this is around the carer—about what their needs are."⁸⁰

Cynllunio ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r broses asesu

111. Mynegodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru bryderon fod asesiad y gofalwyr ond yn canolbwyntio ar sefyllfa'r gofalwr ar y pryd ac nid unrhyw anghenion posibl yn y dyfodol.⁸¹

112. Mae hwn yn fater hynod bwysig i ofalwyr hŷn a rhieni-ofalwyr sy'n poeni am yr hyn a fydd yn digwydd i'r unigolyn sy'n derbyn gofal pan na allant (y gofalwr) ofalu amdanynt mwyach.

113. Nododd Mencap Cymru fod angen pwyslais ar lesiant gofalwyr yn y broses asesu gan fod ansawdd bywyd y rhai sy'n derbyn gofal yn dilyn marwolaeth

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 334

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 172

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 181

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C10

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 341

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

gofalwr (yn enwedig pan fydd rhiant yn gofalu am blentyn ag anabledau dysgu) yn achos pryder i lawer.⁸²

“A few years ago, I had cancer. I have a son with quite complex learning difficulties—he was born with part of his brain not formed and he’s on the autistic spectrum. (...) I couldn’t bear to think of William on this earth without me, because I have to do everything for him really in essence (...) and I thought, ‘Well, the only way out is to make sure that he’s gone, that I kill him, and that I then die myself,’ because, at the beginning, I thought it was terminal, that the disease was going to kill me. When I found out it was curable, then I thought, ‘What do I do if it’s not?’” *Jane Young, rhiant-ofalwr ac Aelod o Mencap Cymru*⁸³

“We’ve got a 90-year-old that comes in...Ninety-three—she’s got a 60-odd-year-old son with Down’s syndrome. On a daily basis, she says, ‘I’m only here until he goes. As soon as he goes, I can go’. (...) You don’t know where they’ll live, who’ll support them, who’ll look after them.” *Dot Gallagher, Cadeirydd Mencap Cymru a rhiant-ofalwr*⁸⁴

Gwaith dilynol, adolygiadau ac ailasesiadau

114. Clywsom bwysigrwydd adolygu asesiadau. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru wrthym, yn dilyn yr asesiad cychwynnol, fod gofalwyr yn rhy aml yn cael eu gadael i ofalu amdanynt eu hunain neu ei bod yn ofynnol iddynt alw eto am asesiad arall, a allai olygu aros am gyfnodau hir.⁸⁵

115. Galwodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru am i ailasesiadau gael eu rhoi ar sylfaen statudol:

“... once an assessment has been made, social services go back, even if it’s to pick up the phone in six months and say, ‘How are you? How are things? Do you need us to come out again?’”⁸⁶

116. Roedd hwn yn fater a fynegwyd yn y drafodaeth bwrdd crwn, lle roedd gofalwyr yn teimlo ei bod yn bwysig mynd ar drywydd asesiadau yn rheolaidd. Awgrymodd nifer o ofalwyr fod adolygiad blynyddol ar gyfer gofalwyr yn

⁸² Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 596

⁸³ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 577

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 583

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 178

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 184

angenrheidiol i ystyried amgylchiadau sy'n newid. Cynigiwyd y gellid gwneud hyn drwy feddyg teulu a dylai gynnwys anghenion corfforol ac emosiynol.⁸⁷

Rôl y GIG

117. Ers cyflwyno'r Ddeddf a'i ffocws penodol ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol, roedd barn ymhlith gofalwyr fod y gwasanaeth iechyd wedi "tynnu eu troed oddi ar y pedal".⁸⁸ Ar y pwynt hwn, dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym:

"I think there's been a step back from the health sector since the social services and well-being Act came into being. It seems to me that because it says 'social services' in the title of the legislation, there is an expectation that that's a social services responsibility."⁸⁹

118. Cytunodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, gan ddweud

"there's no strategic direction now –that's the difference. There's no requirement for health to do anything other than work in collaboration under Part 9 of the Act. So, that's all gone with the end of the carers Measure."⁹⁰

119. Dadleuodd Gofalwyr Cymru, o gofio bod pwynt cyswllt cyntaf gydag unrhyw asiantaeth statudol pedwar o bob pump o ofalwyr yn gyffredinol mewn lleoliad gofal sylfaenol, ei bod yn hanfodol bwysig bod gan iechyd gyfrifoldeb ynghyd ag awdurdodau lleol i nodi a chyfeirio gofalwyr cudd.⁹¹

120. Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru y dylai gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gweithio ochr yn ochr â gofalwyr fod yn gwbl ymwybodol o hawliau gofalwyr o dan y Ddeddf, a chael eu cefnogi i gyfeirio gofalwyr i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.⁹² Gwnaeth Gofal Cymdeithasol Cymru bwynt tebyg, gan ddweud:

"Mae'n hanfodol bod cydweithwyr mewn gwasanaethau iechyd, yn enwedig, yn gallu adnabod ac ymateb yn briodol i ofalwyr unigol. Mae gan wasanaethau iechyd gyfrifoldebau clir o dan y Ddeddf. Dylai fod yn

⁸⁷ [Digwyddiad bwrdd crwn - crynodeb o'r trafodaethau](#)

⁸⁸ [Crynodeb o'r grwpiau ffocws](#)

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 162

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 163

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, C11

ofynnol i bartneriaid iechyd gyfrannu at gynllun asesu a chymorth yr awdurdod lleol, lle bo'n briodol.”⁹³

121. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn wrthym fod yn rhaid i wasanaethau iechyd barhau i ganolbwyntio ar nodi a darparu ar gyfer anghenion gofalwyr, wrth i fwy o ofalwyr ymdrin â gwasanaethau iechyd na gofal cymdeithasol fel rhan o'u rôl ofalu:

“Er hynny, gall gwasanaethau iechyd, megis gwasanaethau meddygon teulu, fod yn anhyblyg o ran anghenion penodol gofalwyr. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau iechyd yn ymwybodol o ofalwyr, yn eu hadnabod ac yn ymateb iddynt er mwyn cynorthwyo gofalwyr i barhau i ofalu ac i ofalu am eu lles eu hunain.”⁹⁴

Rôl y trydydd sector

122. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn glir bod llawer o'r gwaith o gefnogi gofalwyr yn digwydd y tu allan i wasanaethau statudol, gan y trydydd sector. Adlewyrchwyd hyn yn ein gwaith grŵp ffocws, lle dywedodd llawer o'r cyfranogwyr na allent fod wedi ymdopi heb y gefnogaeth hon.

“Mae'r trydydd sector yn ein cadw ni'n fyw.” *Cyfranogwr o grŵp Gofalwyr Hafal Gorllewin Cymru*

“Mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod gwaith y trydydd sector. Dyma'r unig ffordd y mae rhai gofalwyr yn gwybod unrhyw beth am wasanaethau cymorth.” *Cyfranogwr o Bwyllgor Gofalwyr Cymru*⁹⁵

123. Clywsom mai rôl allweddol y trydydd sector oedd ei waith ataliol, a allai olygu nad oedd angen asesiad ffurfiol mewn rhai achosion. Clywsom fod y gwaith ataliol hwn yn arbennig o bwysig oherwydd gall amseroedd aros fod yn hir ac efallai y bydd gofalwyr yn cyrraedd pwynt argyfwng erbyn i asesiad gael ei gwblhau.⁹⁶

124. Disgrifiodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sut roedd cynlluniau cymorth ar waith ar gyfer llawer o ofalwyr ledled Cymru, gyda chefnogaeth sefydliadau'r trydydd sector, a oedd yn diwallu'r angen uniongyrchol am lawer o ofalwyr ac a allai fod yn lleihau'r gofyniad am asesiad gofalwr statudol.⁹⁷ Cawsom wybod:

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C09

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

⁹⁵ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 221

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 185

“...if our service is meeting that need, we wouldn’t then need to make a referral for a carers assessment. If we feel that there are needs that we cannot meet, we’ll then refer to the local authority for a wider carers assessment.”⁹⁸

125. Clywsom rywfaint o dystiolaeth nad oes angen i asesiadau o anghenion statudol o reidrwydd gael eu cynnal gan staff awdurdodau lleol. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, yn ymarferol, y gellid darparu mwy i ofalwyr drwy gefnogaeth y trydydd sector.

126. Awgrymodd rhai o’r cyfranogwyr yn ein grŵp ffocws y gallai trydydd parti gynnal asesiadau, gan y gallai hyn atal y gofalwr rhag poeni ei fod yn cael ei farnu yn ôl ei allu i ofalu, yn enwedig yn achos rhieni-ofalwyr, sy’n aml yn amharod i gael asesiad rhag ofn y bydd ôl-ffeithiau.

127. Yng Nghonwy, mae Hafal yn darparu asesiadau gofalwyr iechyd meddwl gydag arian awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Dywedodd Hafal fod gofalwyr yn adrodd profiad da o’r dull hwn, a bod cost y dull hwn yn amlwg yn llai na darparu asesiadau’n fewnol.⁹⁹

128. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan eraill yn y grwpiau ffocws nad oedd asesiadau’r trydydd sector bob amser yn arwain at gynnig y gefnogaeth gywir. Cadarnhaodd staff cymorth yn y sesiynau hyn nad oeddent bob amser yn cael eu hysbysu am hynt yr argymhellion a wnaed fel rhan o’r broses asesu.¹⁰⁰

129. Rhybuddiodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru hefyd y byddai angen ystyried cysondeb asesiadau yn ofalus er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sy’n cael eu cynnig i bobl yr un peth ledled Cymru:

“If these assessments were to be contracted out, we would need to ensure that that [consistency] was offered, so that if people moved to care for relatives living with dementia or the person with dementia themselves moved, there is the same service wherever they go, and that there’s also communication between the bodies as well.”¹⁰¹

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 192

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C10

¹⁰⁰ Crynodeb o’r grwpiau ffocws

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 198

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

130. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod yn credu mai'r ffordd orau i godi ymwybyddiaeth gofalwyr am eu hawliau oedd drwy'r trydydd sector, gan eu bod yn gweithio mor agos gyda gofalwyr:

“... we have funded a number of third sector organisations in order to promote rights. From 2016 to 2020, funding of over £1.7 million has been awarded from our third sector sustainable social services grant scheme to Carers Wales and to the Carers Trust Wales.”¹⁰²

131. Fodd bynnag, cytunodd fod llawer mwy o waith i'w wneud o hyd i wneud pobl yn ymwybodol o'u hawliau.

132. Mewn perthynas â nifer yr asesiadau a gynhaliwyd, cydnabu swyddog y Dirprwy Weinidog fod llai o asesiadau'n cael eu cynnal nag y dylid fod, ond dywedodd ei bod yn anodd nodi beth oedd y nifer go iawn. Aeth ymlaen i ddweud:

“the evaluation that's in train to look at the impact of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the 'Measuring the Mountain' report, which is qualitative, citizens'-jury-style information, will start to shed some more light on that [...] to help us understand the extent of the number of assessments that we need, which would not necessarily be the whole population, but it's probably more than we have currently.”¹⁰³

133. Mewn perthynas â gwrthod asesiadau, cadarnhaodd swyddogion y Dirprwy Weinidog fod y data'n dangos bod mwy o bobl y cynigiwyd asesiad iddynt wedi gwrthod y cynnig nag a fanteisiodd arno. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod yn credu bod llawer o bobl yn gwrthod asesiad oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd ei angen arnynt:

“But that's why I think if we make people more aware of what possible help they can get that they might be more willing to identify—. Because a lot of people don't identify themselves as carers.”¹⁰⁴

134. Roedd hefyd yn meddwl y gallai rhai pobl wrthod oherwydd eu bod yn nerfus ynghylch swyddogion yn meddwl na allant ymdopi.

¹⁰² Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 8

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 53

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 64

“So, I think there’s a multitude of reasons [for refusing an assessment], but the more awareness that we can get of the fact that we do recognise the hugely valuable job that people are doing, the more willing people will be to say that they are carers and will be prepared—or want an assessment.”¹⁰⁵

135. Mewn perthynas ag amrywiad y dull o ymdrin ag asesiadau gan awdurdodau lleol, tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at friff “Track the Act 3” Gofalwyr Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018¹⁰⁶, a amlygodd ddiffyg cysondeb yn null awdurdodau lleol o ran sut a phryd y bydd gofalwyr yn cael eu hasesu, a rhywfaint o ddryswch ymhlith gofalwyr ynghylch asesiadau. Dywedodd fod y pryderon hyn yn debygol o gael eu helpu’n sylweddol gan ganllawiau i ymarferwyr sydd ar ddod gan Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd wedi comisiynu’r Sefydliad Gofal Cyhoeddus i ddatblygu cyfres o adnoddau difyr, dwyieithog i gefnogi arfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill.¹⁰⁷

136. Dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog wrthym:

“The new carers assessment toolkit that Social Care Wales are producing [] will help very much in terms of undertaking those assessments, whatever age the carer. It’s work very much with the individual, the carer and the family—the young carer—to look at the capacity resources and the outcomes that they want to achieve.”¹⁰⁸

137. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod llawer o hyfforddiant wedi’i gynnal pan gyflwynwyd y Ddeddf, ond ers hynny bu lefel uchel o drosiant staff, ac felly roedd yn bwysig diweddarau gweithwyr proffesiynol yn eu hyfforddiant. Aeth ymlaen i ddweud bod nifer o grwpiau cymorth ar gyfer gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio gyda gofalwyr ac roedd ei swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â hwy drwy’r Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr.

138. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog, yn ei barn hi, fod gan yr holl gyrff a nodwyd yn y Ddeddf, p’un a oedd hynny’n wasanaethau cymdeithasol neu’r GIG, gyfrifoldeb dros helpu i nodi a chefnogi gofalwyr. Dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog:

“The health boards, local authorities and the third sector are joint partners in those regional partnership boards, and together they should

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 65

¹⁰⁶ Cyhoeddwyd Orlain y Ddeddf 4 ym mis Hydref 2019.

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 72

be assessing and agreeing the needs of people in their areas, and commissioning plans to meet those needs.”¹⁰⁹

139. Aeth ymlaen i ddweud:

“Carers is one of the four priority areas in the integrated care fund, and the additional £15 million that was put into the integrated care fund for 2019-20 is purposed for adults with care needs, and carers specifically.”¹¹⁰

Ein barn ni

140. Nid yw gofalwyr yn grŵp o’r un math. Mae ganddynt anghenion gwahanol iawn, yn dibynnu ar amrywiaeth fawr o ffactorau, gan gynnwys anghenion penodol yr unigolyn y maent yn gofalu amdano, ei sefyllfa ariannol ei hun, ei oedran, anghenion addysg, statws cyflogaeth, iechyd a chyfrifoldebau gofalu eraill. Yn hynny o beth, rhaid cynllunio eu hasesiad anghenion o’u cwmpas, bod yn gyfannol, yn sensitif ac yn ymatebol i newidiadau yn eu hanghenion, yn ogystal â chynnig cyfleoedd ystyrlon i orffwys a chael seibiant, a bywyd ochr yn ochr â gofalu.

141. Ni fydd angen asesiad ffurfiol o anghenion ar bob gofalwr. I lawer, bydd mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy priodol yn ddigonol iddynt ar yr adeg honno yn eu bywydau. Fodd bynnag, dylid eu gwneud yn ymwybodol bod yr opsiwn o asesiad ffurfiol yn parhau i fod ar gael pe bai ei angen yn nes ymlaen.

Ymwybyddiaeth o’r Ddeddf

142. Mae angen gwneud llawer o waith i fynd i’r afael â’r diffyg ymwybyddiaeth o’r Ddeddf, a hawliau gofalwyr oddi tani, ymhlith y cyhoedd. Dylai’r gwaith hwn fod wedi’i anelu at helpu pobl i nodi eu hunain fel gofalwyr, hyrwyddo buddion asesiadau anghenion, ac annog pobl i fanteisio ar asesiadau lle y bo hynny’n briodol.

143. Yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus, mae angen penodol am fwy o ymwybyddiaeth o’r Ddeddf ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a hyfforddiant gloywi ar gyfer staff perthnasol i sicrhau eu bod yn hyderus wrth nodi gofalwyr a’u cyfeirio at y gwasanaethau priodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, a fydd y pwynt cyswllt cyntaf i lawer o ofalwyr.

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 29

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 31

144. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i'r Pwyllgor Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgymryd ag ymgyrch gyhoedduswydd fawr i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, ac y bydd llinyn penodol o'r gwaith hwn yn targedu gofalwyr di-dâl. Rydym yn siomedig gan y diffyg cynnydd. Gwnaed yr ymrwymiad hwnnw y llynedd a, hyd yma, nid oes ymgyrch o'r fath wedi'i lansio.

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, weithredu ei hymrwymiad i ymgymryd ag ymgyrch gyhoedduswydd fawr i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a hawliau gofalwyr oddi tani. Dylai hyn godi proffil gofalu, gwella'r broses o nodi gofalwyr, hyrwyddo manteision asesiadau o anghenion o dan y Ddeddf, ac annog pobl i gymryd rhan. Dylai hefyd gyfeirio pobl at wybodaeth, cyngor a chynorthwy priodol ynghylch gofalu. Rhaid i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn chwe mis.

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hynny ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sydd fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad â gofalwyr, gan gynnwys meddygon teulu, yn gallu nodi gofalwyr a'u cyfeirio at wasanaethau priodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant penodol yn cael ei ddarparu ar gyfer hyn.

145. Rhaid dweud bod yn rhaid i ddigon o adnoddau i ddarparu'r gwasanaethau hynny ddod gydag unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf. Amlinellir ein barn fanwl ar gyllid ac adnoddau ym Mhennod 7.

Anghysondeb wrth ddarparu asesiadau o anghenion

146. Mae cryn anghysondeb ar draws awdurdodau lleol yn y ffordd y mae asesiadau anghenion yn cael eu darparu, a rhaid mynd i'r afael â hyn. Dylai fod gan ofalwyr hawl i ddisgwyl gwasanaeth cyson o leiaf, ni waeth ble maent yn byw.

147. At hynny, dylent allu bod yn hyderus y bydd eu hasesiad yn brofiad cadarnhaol a all sicrhau gwelliannau gwirioneddol iddynt hwy a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Mae'n annerbyniol y gellir annog gofalwyr i beidio â cheisio asesiad, naill ai drwy'r ffordd y mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno neu deimlad nad yw'n werth chweil, neu eu bod yn aneglur a ydynt wedi cael eu hasesu'n ffurfiol.

148. Felly, rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed gan Gofal Cymdeithasol Cymru i ddarparu pecyn cymorth ar gyfer gweithio gyda gofalwyr gyda'r nod o wella cysondeb y broses asesu.

Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ffurfiol o asesu anghenion ar gyfer gofalwyr yn cael ei hegluro a'i safoni ar draws awdurdodau

lleol. Rhaid iddi allu dangos sut y mae wedi cyflawni hyn a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn chwe mis.

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hynny ym maes gofal cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddarparu asesiadau anghenion yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwell profiad defnyddiwr i ofalwyr. Dylai'r hyfforddiant gynnwys pwyslais ar iaith briodol i'w defnyddio mewn perthynas ag asesiadau, dileu'r rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol a sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth y mae ganddynt yr hawl iddi o dan y Ddeddf. Rhaid i Lywodraeth Cymru werthuso effaith yr hyfforddiant hwn.

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynnu gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses asesu anghenion. Mater i Lywodraeth Cymru yw dull y gwerthusiad hwn, ond dylid ei gynnal yn flynyddol a dylid cyhoeddi'r canlyniadau

Amseroedd aros

149. Rhaid i asesiadau fod yn amserol ac ystyried yr amrywiaeth o amgylchiadau sy'n wynebu gofalwyr a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Rydym wedi clywed tystiolaeth o restr aros hir am asesiadau. Gall yr oedi hyn gael effaith ddinistriol ar y gofalwr a'r unigolyn y mae'n gofalu amdano.

150. Yn fwy penodol, i'r rhai sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda salwch sy'n cyfyngu ar fywyd, yn gynyddol ac yn derfynol, mae mynediad amserol at asesiad o anghenion yn hanfodol. Rydym yn tynnu sylw'r Dirprwy Weinidog at y dystiolaeth gan Together for Short Lives a'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor ar y pwynt hwn, yn enwedig mewn perthynas ag asesiadau cyflym ar gyfer gofalwyr pobl sydd â'r mathau hyn o salwch.

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r amser hwyaf y mae'n credu y dylai gofalwr ei aros i dderbyn asesiad o anghenion.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd yn ôl ar restrau aros am asesiadau o anghenion. Gall y Grŵp Cynghori Gweinidogol ddarparu fforwm priodol ar gyfer adolygu'r adroddiadau hyn.

Gwrthod cynigion o asesiad o anghenion

151. Rydym yn pryderu am y gyfradd gymharol uchel o wrthod cynigion asesiad o anghenion. Mewn llawer o achosion, ymddengys bod gwrthodiadau o ganlyniad

i'r ffordd y mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno - yr iaith a ddefnyddir a'r amseroedd aros am asesiad. Mae'r modd y cynigir asesiad hefyd yn dylanwadu ar y nifer sy'n manteisio arno. I ofalwyr sydd eisoes wedi blino'n lân gan eu cyfrifoldebau, mae cael ffurflen asesu drwy'r post yn annymunol.

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyfraddau gwrthod asesiadau o anghenion yn cael eu hadolygu. Gall y Grŵp Cyngori Gweinidogol ddarparu fforwm priodol ar gyfer y gwaith hwn.

Gwaith cynllunio wrth gefn/at argyfwng

152. Pryder penodol i ofalwyr yw'r hyn a fydd yn digwydd i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano os na allant (y gofalwr) ddarparu gofal mwyach. Mae angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wneud mwy i gefnogi gofalwyr wrth wneud gwaith cynllunio wrth gefn/at argyfwng, ac mae angen i Lywodraeth Cymru fodloni ei hun ar y mater hwn.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith cynllunio at argyfwng yn rhan hanfodol o'r holl asesiadau o anghenion i sicrhau bod trefniadau penodol ar waith ar gyfer cyfnod pan nad yw'r gofalwr yn gallu parhau i ddarparu gofal.

4. Cefnogaeth i ofalwyr

Themâu allweddol yn y bennod hon

Mae'r gefnogaeth a ddarperir i ofalwyr yn ataliol; gall helpu i gynnal gallu gofalwyr i barhau i ofalu. Mae hefyd yn gost-efeithiol - mae salwch ac argyfyngau gofalwyr yn costio mwy yn yr hirdymor.

Rhaid i wasanaethau gofalwyr fod yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Ond mae gofalwyr wedi dweud wrthym fod yn rhaid iddynt "ymladd" am wasanaethau - ni ddylai fod angen gwneud hyn.

Mae gofal seibiant yn wasanaeth hanfodol i ofalwyr ond mewn llawer o achosion mae'n anodd cael gafael arno, gall fod diffyg darpariaeth addas, ac mae diffyg hyblygrwydd.

Gall Taliadau Uniongyrchol am ofal seibiant gynnig mwy o hyblygrwydd a rheolaeth ond nid yw pawb eisiau'r cyfrifoldebau ychwanegol y gallant eu cynnig. Efallai y bydd llai o angen am Daliadau Uniongyrchol pe bai gan wasanaethau confensiynol fwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd.

153. Yng Nghymru amcangyfrifir bod 370,000 o ofalwyr ar hyn o bryd, gyda mwy na 100,000 o bobl yn darparu dros 50 awr o ofal di-dâl yr wythnos. Er bod darparu gofal di-dâl yn arbed economi Cymru oddeutu pedair gwaith y swm a gaiff ei wario ar bob math o ofal cymdeithasol, daw hyn ar gost i'r gofalwyr.

154. Gwnaethom siarad â nifer fawr o ofalwyr a staff cymorth fel rhan o'n gwaith grŵp ffocws. Roedd y mwyafrif yn teimlo'n gryf eu bod yn cefnogi'r system ofal ac yn arbed arian i awdurdodau lleol, ond eto roedd y mwyafrif yn teimlo eu bod yn cael eu tanbriso.

"I strongly believe family carers are undervalued and that without them NHS Wales and Social services would be in an even bigger crisis."¹¹¹

Gwaith cynllunio gofal a chymorth

155. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol asesu anghenion

¹¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, CO1

gofal a chefnogaeth eu poblogaethau, gan gynnwys gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt.

156. Hefyd, rhoddodd y Ddeddf sylfaen statudol i saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddod â byrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid y trydydd sector ynghyd. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i bob rhanbarth ddatblygu a chyhoeddi Asesiadau Rhanbarthol o Anghenion Poblogaeth, sy'n darparu asesiad o anghenion gofal a chymorth eu hardal.

157. Yn eu tystiolaeth i ni, nododd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod yr asesiadau wedi'u cwblhau a chyhoeddwyd cynlluniau Ardal Poblogaeth. Nododd pob rhanbarth y rôl bwysig a hanfodol y mae gofalwyr di-dâl yn ei chyflawni ac roeddent wedi ymrwymo i wella mynediad at seibiannau addas sy'n diwallu anghenion amrywiol, cymhleth yn aml, y bobl y maent yn gofalu amdanynt.

158. Fodd bynnag, nododd hefyd, er bod rhanbarthau'n cydnabod ei bod yn hanfodol bod angen i bob gofalwr gael seibiant o'i rôl ofalu, gyda'r angen am gyfleoedd seibiant addas a hyblyg, roedd rhai rhanbarthau hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau gofalwyr, a ddarparwyd mewn sawl achos drwy gymorth y trydydd sector a oedd yn aml yn dibynnu ar gyllid grant byrdymor.

159. Tynnodd sylw hefyd at yr effaith yr oedd toriadau cyllid wedi'i chael ar awdurdodau lleol a'u capasiti i allu parhau i gynnig gwasanaethau o'r fath.

Ardaloedd gwledig

160. Clywsom fod cefnogaeth i ofalwyr yn fwy anodd ac yn fwy costus mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod llawer o ofalwyr yn byw mewn cymunedau gwledig ac anghysbell lle gall diffyg trafndiaeth a heriau gyda gwasanaethau trafndiaeth, ynghyd â chaledi ariannol ac amseroedd teithio hir, ei gwneud hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau cymorth.¹¹²

161. Ar y pwynt hwn, galwodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru am gydraddoldeb darpariaeth ar draws ardaloedd daearyddol-

“It can be more difficult for carers in remote or rural areas to access support. Parity of provision is key to ensure that all carers are able to access the support they need. Services must adapt their model to meet need and commissioners must factor in additional costs for service

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, C25

delivery in rural areas such as additional travel costs for domiciliary or respite care.”¹¹³

Bod yn gymwys i gael cefnogaeth

162. Dylai asesiad ffurfiol awdurdod lleol nodi a oes gan ofalwr unrhyw angen am gefnogaeth ac, os felly, a oes unrhyw un o’r anghenion hynny yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd a nodir mewn rheoliadau¹¹⁴ a wnaed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan ofalwr ag anghenion sy’n bodloni’r meini prawf cymhwysedd hawl i gefnogaeth gan yr awdurdod lleol.

163. Yn ôl Gofalwyr Cymru, o’r gofalwyr hynny y cynigiwyd asesiad anghenion iddynt neu y gwnaethant ofyn am un yn 2017-18, nid oedd 37 y cant yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau.¹¹⁵

164. Yn ôl y Comisiynydd Pobl Hŷn:

“the eligibility criteria are quite tough in the sense of the level of need that you need to demonstrate before you get any services, that has an impact on the services that somebody gets who needs that care directly. So, it means that, if you’re caring for someone, say, with moderate need, you may not get that additional support for the person you’re caring for.”

165. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ei bod wedi gweld enghreifftiau o bob rhan o Gymru o feini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau yn cael eu gosod ar angen critigol a lefel uchel. Roedd yn dadlau bod hyn yn gosod bar uchel ar gyfer pryd y gall pobl ag anghenion gofal gael mynediad at wasanaethau, sy’n cael sgil-effaith ar y teulu cyfan, gan gynnwys gofalwyr.¹¹⁶ Dywedodd hefyd ei bod wedi nodi enghreifftiau lle mae meini prawf ar gyfer gwasanaethau wedi newid gydag awdurdodau lleol yn lleihau argaeledd gwasanaethau penodol.

166. Soniodd Age Cymru wrthym hefyd am ei bryderon ynghylch awdurdodau lleol yn gwneud asesiadau afresymol ynghylch lefel y gefnogaeth sydd ei hangen a oedd yn gwthio gofalwyr i bwynt argyfwng ac yn costio mwy i’r GIG. Dywedodd:

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹¹⁴ Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

“The aim of the eligibility criteria is to increase access to and use of locally based preventative services, but we fear that it is actually being used as a means to deny much needed formal support.”¹¹⁷

167. Dadleuodd fod tystiolaeth o ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gostwng, gyda'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar bobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth:

“Our sense is that people who would previously have received help are no longer being supported, and that this is increasing demands on informal carers.”¹¹⁸

168. Yn ei adroddiad “Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio”, gwnaeth Pwyllgor Cyllid y Cynulliad sylwadau ar y meini prawf cymhwysedd yn y Ddeddf, gan ddweud bod yn rhaid gweithredu'r meini prawf hyn “mewn modd sy'n sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn cael ei fodloni rhwng diwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a gwneud y defnydd gorau o ddulliau gweithredu eraill”. Credai'r Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod effaith y meini prawf o dan y Ddeddf yn cael ei harchwilio'n drylwyr fel rhan o'r gwaith gwerthuso a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.¹¹⁹

169. Fodd bynnag, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wrthym, o ganlyniad i'r Ddeddf, fod y ffordd y darparwyd cefnogaeth wedi newid ac yn hytrach na defnyddio gwasanaethau cymorth statudol bob amser, y gallai gynnwys defnyddio datrysiadau yn y gymuned sy'n galluogi unigolion a gofalwyr i gyflawni'n well beth sy'n bwysig iddynt hwy.

170. Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y newid hwn tuag at ddulliau mwy arloesol o gefnogi wedi cymylu'r llinell rhwng yr hyn a ystyrir gynt yn “gefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol” a chefnogaeth yn y gymuned ehangach. Felly, er y gallai Gweithiwr Cymdeithasol roi cymorth ar waith i ddiwallu anghenion y gofalwr, i'r gofalwr roedd yn ymddangos nad oedd “gwasanaethau cymdeithasol” wedi cynnig unrhyw gefnogaeth a'u bod yn derbyn cefnogaeth gan elusen neu sefydliad y trydydd sector yn lle hynny, heb fod yn ymwybodol bod y Cyngor wedi ariannu'r sefydliadau hyn yn rhannol.¹²⁰

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig..C19

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig..C19

¹¹⁹ Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio: Hydref 2018

¹²⁰ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol – 18 Ionawr 2019

Gofal seibiant

171. Yn ôl y cyfrifiad diwethaf, mae 103,594 o bobl yng Nghymru yn darparu dros 50 awr o ofal bob wythnos, gyda'r rhai sy'n darparu lefelau uchel o ofal ddwywaith yn fwy tebygol o fynd yn sâl yn barhaol neu'n anabl.¹²¹

172. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod llawer o ofalwyr, heb seibiant rheolaidd a phriodol, yn teimlo na allent ymdopi â'u cyfrifoldebau gofalu a bod eu hiechyd eu hunain yn dioddef o ganlyniad i hyn.^{122 123}

“A short break re energises you and is good for both the carer and the person who is being cared for.”¹²⁴

173. Yn ogystal â darparu gwasanaeth hanfodol i ofalwyr, cawsom wybod bod gofal seibiant hefyd yn darparu cyfleoedd i'r unigolyn sy'n derbyn gofal gael profiadau newydd. Dywedodd Dot Gallagher, rhiant-ofalwr a Chadeirydd Mencap Cymru wrthym:

“For me, respite for my sons is more about them having a better time than a weekend with their mum. I don't want him to go to sit in a house with other people doing nothing for the weekend so that I can lie on the bed...”¹²⁵

174. Galwodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru am hawl i bob gofalwr gael isafswm seibiannau lle telir cost lawn gofal amnewid neu ofal seibiant. Aeth ymlaen i ddweud:

“We would recommend that carers be entitled to a minimum amount of respite for rest and relaxation on top of any replacement care they may need to enable them to do the things that matter to them on a weekly basis.”

Argaeledd a phriodoldeb gofal seibiant

175. Tynnodd nifer o dystion sylw at bryderon ynghylch cyllid ar gyfer gofal seibiant. Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru wrthym:

“... financial pressures on Local Authorities has meant the availability of services which can provide valuable and meaningful respite have

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

¹²² Crynodeb o'r grwpiau ffocws

¹²³ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 288

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C01

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 636

reduced, and carers' access to respite is becoming increasingly difficult."¹²⁶

176. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym hefyd fod gwasanaethau ledled Cymru sy'n darparu seibiannau o ansawdd i ofalwyr wedi'u gwasgu, ac mae gwaith comisiynu wedi canolbwyntio'n gynyddol ar bris yn hytrach nag ansawdd. Mae'n nodi:

"It is clear that further funding is needed for respite and short breaks. This must be ring-fenced to Local Authorities, and part of a long-term funding stream."¹²⁷

177. Awgrymwyd inni y bu toriadau yn y ddarpariaeth o wasanaethau seibiant. Cyfeiriodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru at enghraifft o Sir Ddinbych yn torri ei ddarpariaeth gofal seibiant i hanner, gyda'r Cyngor yn amlinellu bod yr wyth wythnos lawn ond ar gael mewn amgylchiadau eithriadol. Dywedodd fod hyn wedi arwain at sefyllfa lle roedd gwasanaethau dan arweiniad gwirfoddolwyr yn ceisio llenwi'r bylchau yn y gofal, a gofynnwyd i'r gwasanaethau cyfeillio ddarparu gofal seibiant.¹²⁸

178. Fodd bynnag, roedd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn glir, o safbwynt awdurdod lleol, na fu gostyngiad yn y ddarpariaeth seibiant, mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol y maent wedi nodi y bu cynnydd. Mae'n bosibl y gallai canfyddiad o ostyngiad yn y ddarpariaeth o wasanaethau seibiant fod o ganlyniad i'r ffordd newidiol y mae gwasanaethau seibiant yn cael eu darparu.

179. Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod seibiant traddodiadol mewn gofal preswyl neu nyrso yn cael ei ddefnyddio llai oherwydd nad yw'r model gofal hwn yn cael ei ystyried yn bositif mwyach gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal ac mae awdurdodau lleol yn symud tuag at seibiant mwy unigol a hyblyg. Mae'n nodi:

"Although there has been no reduction in services, demand is increasing and people's expectations are difficult to manage at times."¹²⁹

180. Pryder allweddol arall i ofalwyr oedd priodoldeb gwasanaethau seibiant. Dywedodd cyfranogwr yn un o'n grwpiau ffocws wrthym ei bod wedi cael ei

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C11

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

¹²⁹ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol - 18 Ionawr 2019

gorfodi i ganslo ei gwyliau oherwydd nad oedd y gwasanaethau seibiant i'w mam yn briodol.¹³⁰

181. Soniodd ymatebwyr eraill am yr angen i ofal seibiant fod yn “briodol i oedran”. Dywedodd Age Cymru a Chymdeithas Alzheimer’s Cymru wrthym fod angen seibiannau mwy rheolaidd ar ofalwyr hŷn oherwydd eu bod yn blino’n haws neu fod ganddynt broblemau iechyd eu hunain¹³¹ ac nad yw’r hyn a ystyrir yn briodol i bobl hŷn sy’n byw gyda dementia bob amser yn briodol i’r rheini sy’n byw gyda dementia sy’n dechrau’n gynnar.¹³²

182. Dywedodd Age Cymru ei fod yn ymwybodol o enghreifftiau lle darparwyd seibiant ond lle mae’n ofynnol i’r gofalwr fynd gyda’r unigolyn y mae’n gofalu amdano neu ei yrru yn ôl ac ymlaen i’w ofal. Dywedodd nad oedd hyn yn ofal seibiant o safon:

“it’s respite of a form, but it’s not giving you the break or the opportunity to have some space for your own life.”¹³³

183. Clywsom am bwysigrwydd trefniadau hyblyg sy’n diwallu gwahanol anghenion gofalwyr, gan gynnwys darparu cyfleoedd i’r gofalwr a’r unigolyn y mae’n gofalu amdano fynychu gweithgareddau gyda’i gilydd. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru wrthym:

“... often, carers and the people they care for would like to have a holiday or break together, but are unable to do so due to a lack of options or availability of help whilst on the break.”¹³⁴

184. Cydnabuwyd hyn gan Gyngor Abertawe a ddywedodd, ar hyn o bryd, fod mwyafrif ei wasanaethau seibiant wedi’u cyfeirio at yr unigolyn sy’n derbyn gofal, gan roi cyfle i’r gofalwr gael seibiant. Fodd bynnag, roeddent wedi cael adborth bod hyn yn tybio bod angen seibiant ar y gofalwr o’r bobl y maent yn gofalu amdanynt pan oedd gofalwyr mewn gwirionedd a hoffai gael cefnogaeth i fynychu digwyddiadau neu weithgareddau gyda’r unigolyn y maent yn gofalu amdano:

“Thus it has been identified there may be gaps within the service to support the carer directly in alternative ways.”¹³⁵

¹³⁰ [Crynodeb o’r grwpiau ffocws](#)

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C19

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

¹³³ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 312

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C17

Ansawdd y ddarpariaeth

185. Clywsom dystiolaeth o'r angen i wasanaethau seibiant fod o safon briodol i alluogi'r gofalwr a'r rhai sy'n derbyn gofal i deimlo'n hyderus ac yn ddiogel. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru wrthym fod materion wedi'u codi gyda hwy ynghylch:

“the state of respite facilities available to carers and people they care for, with staff giving examples of carers refusing to take up respite due to negative experiences in respite homes.”¹³⁶

186. Dywedodd Age Cymru wrthym hefyd fod llawer o ofalwyr yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau cymorth neu seibiant gan nad oeddent yn ymddiried yn ansawdd y gofal a ddarperir. O'r herwydd, gall pryderon ynghylch safonau gofal arwain at wrthod gofal er anfantais i les y gofalwr ei hun.¹³⁷

187. Clywsom fod rhai pobl yn dewis talu'n breifat am ofal seibiant, naill ai oherwydd eu bod yn hapusach â safon y gwasanaeth a ddarperir neu oherwydd y bernid nad oedd angen gofal seibiant arnynt yn yr asesiad gwasanaethau cymdeithasol.¹³⁸

Taliadau Uniongyrchol

188. Darperir Taliadau Uniongyrchol gan awdurdodau lleol i alluogi unigolion i reoli eu cymorth eu hunain fel dewis arall yn lle gwasanaethau a drefnir neu a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

189. Clywsom dystiolaeth y gall y taliadau hyn gynnig mwy o hyblygrwydd a rheolaeth i rai gofalwyr, yn ogystal â ffordd o ehangu'r dewis o wasanaethau. Amlygodd dystiolaeth gan y Comisiynydd Pobl Hŷn enghreifftiau lle roedd pobl wedi defnyddio Taliadau Uniongyrchol i drefnu cymorth seibiant gyda chanlyniadau cadarnhaol. Roedd y rhain yn cynnwys talu am seibiant dros nos mewn man o ddewis, naill ai ar eu pennau eu hunain neu fel teulu, neu dalu am “gyfaill” am ychydig oriau neu ddyddiau'r wythnos, er mwyn helpu i gefnogi person sy'n byw gyda dementia.¹³⁹

190. Fodd bynnag, efallai na fydd y dull hwn yn addas i bawb, yn enwedig gan nad yw pawb eisiau'r cyfrifoldebau ychwanegol a ddaw gyda Thaliadau

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraffau 289-292

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 311

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

Uniongyrchol.¹⁴⁰ Ar y pwynt hwn, soniodd Hafal am rai o'r heriau wrth ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i ariannu gofal seibiant:

“... you have to have an audit trail for the moneys coming in. You have to keep bang-on records, you may have to interview staff, depending on the situation, and that may mean a CRB check. Also, you've got financial responsibilities in training staff because, if you are paying staff, there's a health and safety aspect of regulatory support. So, it becomes a minefield.”¹⁴¹

191. Cawsom wybod bod gwybodaeth a mynediad at Daliadau Uniongyrchol ar draws awdurdodau lleol yn amrywio, gyda nifer gymharol isel yn manteisio arnynt. Yn ôl y Comisiynydd Pobl Hŷn, roedd hyn oherwydd bod mwyafrif y bobl hŷn sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn anghyfarwydd â'r llwybr hwn i gefnogaeth ac nad oeddent wedi cael gwybod am Daliadau Uniongyrchol gan eu gweithiwr cymdeithasol. Aeth ymlaen i ddweud:

“Dylai Taliadau Uniongyrchol gael eu cynnig yn eang fel ffordd o gael seibiant, y mae pobl yn cael eu hannog i'w harchwilio a'u grymuso i'w defnyddio. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddod i ddeall taliadau uniongyrchol yn well a defnyddio mwy arnynt, sicrhau bod cymorth ar gael i ofalwyr, ac annog pobl i ddefnyddio taliadau uniongyrchol mewn modd hyblyg ac ystyrlon ar gyfer cyfarpar a seibiant.”¹⁴²

192. Yn yr un modd, dywedodd Hafal wrthym:

“More advice and help should be given to enable carers to obtain Direct Payments for their own needs and to support their cared-for to take control of their own care through Direct Payments.”¹⁴³

193. Adroddodd y Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd ei bod yn ymwybodol nad oedd rhai gofalwyr a oedd wedi ceisio defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer seibiant wedi cael profiad cadarnhaol, naill ai oherwydd nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol i'w rheoli, oherwydd nad oedd swm yr arian a ddarparwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol yn talu'r costau, neu oherwydd na allent ddod o hyd i unrhyw un i ddarparu'r gwasanaeth.¹⁴⁴

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 318

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 498

¹⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

¹⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C10

¹⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

Dulliau arloesol

194. Clywsom fod angen dulliau mwy arloesol o seibiant. Cyfeiriodd y Comisiynydd Pobl Hŷn at y cynllun “Respality” yn yr Alban sy’n defnyddio capasiti sbâr y diwydiant lletygarwch ar adegau tawel i roi cyfleoedd seibiant i ofalwyr, fel mynediad at gampfa gwesty.¹⁴⁵

195. Tynnodd sylw hefyd at fenter yng nghlwb rygbi Pontypridd lle maent yn cynnig rygbi cerdded, sydd wedi’i anelu at ddynion hŷn yn benodol, i’w helpu naill ai i gael seibiant o ofalu neu i fynd i’r afael ag unigedd. Dywedodd fod Undeb Rygbi Cymru yn ystyried ffyrdd y gallai hyn gael ei gefnogi a’i gyflwyno ledled Cymru.¹⁴⁶

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

196. Yn ei thystiolaeth, nododd y Dirprwy Weinidog fod £3 miliwn wedi’i dyrannu i awdurdodau lleol ar gyfer darparu gofal seibiant ychwanegol. Wedi’i hariannu gyntaf yn 2017-18, adroddodd fod yr arian cylchol hwn bellach yn cael ei ddarparu drwy Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol, a dangosodd adroddiadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fod y cyllid ychwanegol wedi galluogi darparu ystod o fodolau traddodiadol a newydd ac arloesol ar gyfer darparu seibiant i ofalwyr (gyda’r unigolyn y maent yn gofalu amdano neu hebdo).¹⁴⁷

197. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod angen edrych ar seibiant mewn ffordd llawer mwy hyblyg, sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan symud i ffwrdd o’r syniad bod seibiant yn ymwneud â’r unigolyn sy’n derbyn gofal yn mynd i ffwrdd am gwpl o nosweithiau i roi seibiant i’w ofalwr.¹⁴⁸

198. Dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog, er bod galw o hyd am fathau traddodiadol o ofal seibiant ac aros dros nos:

“it’s very much on looking at new forms and innovative ways, and people helping themselves, perhaps using direct payments as well, in terms of pooling funds and being able to purchase different mechanisms that actually give them a break rather than it being a form of care.”¹⁴⁹

¹⁴⁵ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 296

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 307

¹⁴⁷ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 14 Chwefror 2019, Papur 1

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 91

¹⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 92

199. Dywedodd hefyd fod swyddogion yn ymwybodol o'r cynllun "Respitivity" yn yr Alban ac yn edrych ar ffyrdd o weithio gyda sector lletygarwch Cymru i ddatblygu seibiannau byr mewn ffordd debyg.¹⁵⁰

200. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch p'un a fyddai'r cyllid ychwanegol o £3 miliwn ar gyfer gofal seibiant yn arwain at ddarpariaeth seibiant ychwanegol, gan ei fod yn cael ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth leol ac heb ei glustnodi, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

"it is a duty on all local authorities under the Act to ensure that a carer receives assessment of their needs and that eligible needs are identified and a care and support plan is drawn up. [] we have written a clear letter to local government saying what we do expect of them. [] The expectation is there that they should do it."¹⁵¹

201. Pan holwyd y Dirprwy Weinidog a oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddatblygu dull mwy strategol o gefnogi'r nifer cynyddol o ofalwyr yng Nghymru, dywedodd wrthym:

"I think there's a balance between what you do from the centre and what you allow to happen locally, and I don't think it would be appropriate for the Welsh Government to dictate what the regional partnership boards do."¹⁵²

202. Mewn perthynas â chynnwys gofalwyr ar fyrdau partneriaeth rhanbarthol, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"I know carers have said that they feel a bit out on a limb in those boards; that they don't feel that they're there with equal status with some of the bigger organisations. So, I think that's the area where we've got to ensure that carers and the third sector feel that they are equal partners."¹⁵³

Ein barn ni

203. Mae'r Ddeddf yn uchelgeisiol o ran yr hawliau y mae'n eu haddo i ofalwyr. Gyda hyn, daw disgwyliad rhesymol y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu i'r rhai yr ystyrir eu bod mewn angen. Ac eto, rydym wedi clywed tystiolaeth bryderus iawn am yr anawsterau sy'n wynebu gofalwyr o ran cael gafael ar wasanaethau

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 94

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 100 [SHOULD THIS BE 100 INSTEAD OF 92?]

¹⁵² Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 137

¹⁵³ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 20

(oherwydd problemau gyda meini prawf cymhwysedd, amseroedd aros hir a diffyg adnoddau) ac o ran priodoldeb y gwasanaethau a gynigir.

204. Yn gyffredinol, nodwyd mynediad at wasanaethau seibiant priodol fel un o'r adnoddau pwysicaf i ofalwyr. Yn ogystal â darparu cyfleoedd i orffwys ac ymlacio, dylai seibiant alluogi gofalwyr i ddilyn bywyd ochr yn ochr â gofalu, boed hynny drwy gyflogaeth, addysg neu gymdeithasu.

205. O'r herwydd, rhaid i drefniadau seibiant fod yn rheolaidd, yn briodol (gan gynnwys yn briodol o ran oedran) ac yn hyblyg. Rhaid iddynt fod o safon ddigonol i roi hyder i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal. Rhaid iddynt gydnabod yr amrywiaeth o amgylchiadau lle mae gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal yn byw, gan gynnwys lleoliad gwledig, a bod yn ddigon hyblyg i ddiwallu'r gwahanol anghenion hyn. Dylai hyn gynnwys talu unrhyw gostau ychwanegol.

206. Yn bwysicaf oll, dylai gofalwyr chwarae rhan ystyrllon wrth ddylunio a datblygu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion. Dylent fod yn bartneriaid yn y broses hon a chael eu cefnogi i alluogi hyn i ddigwydd.

207. Wrth gwrs, efallai na fydd cael seibiant o ofalu o reidrwydd yn golygu cael seibiant o'r sawl sy'n derbyn gofal. Felly, mae'n bwysig bod gwasanaethau'n ddigon hyblyg i alluogi a chefnogi cyfleoedd seibiant ar y cyd i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal.

208. Yn anffodus, mae llawer o'r gofalwyr yr ydym wedi clywed ganddynt wedi cael profiadau gwael. Er y bu rhai enghreifftiau o fentrau da mewn gwahanol awdurdodau lleol, mae'r rhain ymhell o fod yn safonol ac mae llawer o ofalwyr yn cael eu gadael heb fawr ddim darpariaeth seibiant, neu gynnig sy'n anaddas iddynt hwy a'r unigolyn y maent yn gofalu amdano. Mae eraill yn talu'n breifat am help ac mae hyn yn rhoi straen ar eu cyllid personol yn ogystal â'u hiechyd a'u lles.

209. Credwn fod angen darpariaeth fwy teg o wasanaethau i ofalwyr ledled Cymru. Er nad oes rhaid i ddarpariaeth y gwasanaethau hyn fod yr un fath ym mhob awdurdod lleol, dylai gofalwyr allu cael gafael ar linell sylfaen o wasanaethau priodol o safon ofynnol.

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau darpariaeth deg o wasanaethau i ofalwyr ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau seibiant. Fel man cychwyn, rhaid iddi sicrhau bod ystod sylfaenol o wasanaethau cymorth i ofalwyr, yn seiliedig ar feini prawf cymhwysedd, yn cael eu darparu gan bob awdurdod lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno mecanwaith i fonitro darpariaeth y gefnogaeth hon. Dylai adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn chwe mis.

210. Un o'r prif rwystrau i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr, gan gynnwys seibiant, yw diffyg adnoddau; nodir ein barn ar hyn ym Mhennod 7. Fodd bynnag, credwn fod angen mynd i'r afael â nifer o faterion eraill.

211. Er 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £3 miliwn o gyllid cylchol ar gyfer seibiant i lywodraeth leol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Rydym yn croesawu hyn, ond yn cydnabod bod y cyllid hwn yn rhan o ddyraniad cyffredinol i awdurdodau lleol ac nad yw wedi'i glustnodi.

212. Mae'n bwysig bod y defnydd o'r cyllid hwn yn dryloyw fel y gellir gwerthuso ei effaith. O'r herwydd, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am wariant ar seibiant gan awdurdodau lleol yn flynyddol. At hynny, credwn y dylai'r gwerthusiad annibynnol o'r Ddeddf ystyried effeithiolrwydd y buddsoddiad hwn, os nad yw eisoes yn gwneud hynny.

Argymhelliad 14. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am wariant awdurdodau lleol ar wasanaethau seibiant. Dylai hyn gwmpasu pob blwyddyn ariannol ers i fuddsoddiad y llywodraeth o £3 miliwn o gyllid cylchol ddechrau yn 2017-18.

Argymhelliad 15. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod effaith ei buddsoddiad cylchol o £3 miliwn ar gyfer gwasanaethau seibiant yn cael ei gwerthuso. Rhaid i'r gwaith hwn nodi ansawdd a maint y gwasanaethau a ddarperir, ynghyd â chasglu gwybodaeth am fylchau yn y ddarpariaeth.

Taliadau Uniongyrchol

213. Mae gan Taliadau Uniongyrchol y potensial i ddarparu dewis go iawn a chefnogaeth wedi'i theilwra i ofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, ond nid ydynt yn hysbys yn gyffredinol ac nid ydynt yn cael cefnogaeth briodol. Credwn fod rhinwedd i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu mwy o gyngor a chefnogaeth i ofalwyr ynghylch Taliadau Uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod na fydd y gwasanaeth hwn o reidrwydd yn addas i bawb, ac ni fydd pob gofalwr yn dymuno ei ddefnyddio. O'r herwydd, dylai fod yn rhan o gyfres o opsiynau sydd ar gael i ofalwyr.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod safon ofynnol o gyngor a chefnogaeth yn cael ei darparu ledled Cymru i'r gofalwyr hynny sy'n dymuno defnyddio Taliadau Uniongyrchol. Dylai hyn fod yn rhan o ystod sylfaenol o wasanaethau cymorth sy'n cael eu cynnig i ofalwyr.

5. Gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc

Themâu allweddol yn y bennod hon

Mae diffyg cydnabyddiaeth gan wasanaethau cyhoeddus o ofalwyr ifanc. Yn benodol, mae angen gwell cyfranogiad ysgol o ran nodi a chefnogi gofalwyr ifanc.

Mae dull anghyson o asesu a chefnogi gofalwyr ifanc ar draws awdurdodau lleol. Mae gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ond mae'n gymysg iawn.

Mae'n bwysig bod dull cyfannol yn cael ei ddefnyddio i asesu a chefnogi gofalwyr ifanc a'u teuluoedd; mae angen tîm o amgylch y teulu.

Mae diffyg gofal seibiant i ofalwyr ifanc ac mae o ansawdd amrywiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ddatblygu'r canllawiau a'r adnoddau ar gyfer cyflwyno cardiau adnabod yn genedlaethol ar gyfer gofalwyr ifanc er mwyn eu galluogi i gael gafael ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gan ysgolion, meddygfeydd, fferyllfeydd a gweithwyr proffesiynol eraill.

Roedd tystiolaeth y dylid adolygu Cod Ymarfer Cymru i sicrhau bod asesiadau gofalwyr ifanc yn ystyried baich gofalu, fel y gwnânt yn Lloegr a'r Alban.

214. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn nodi yr amcangyfrifir bod 21,611 o oedolion ifanc sy'n ofalwyr (16-24 oed) a 7,544 o ofalwyr ifanc (o dan 16 oed) yng Nghymru. Cymru sydd â'r ganran uchaf o ofalwyr ifanc yn y DU.¹⁵⁴

215. Mae tystiolaeth gan gyrff y trydydd sector yn awgrymu bod blaenoriaethu gofalwyr ifanc wedi dirywio yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac yn waeth ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.¹⁵⁵

216. Felly roeddem yn arbennig o awyddus i glywed yn uniongyrchol gan ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc am yr heriau unigryw sy'n eu hwynebu. Ar 31 Ionawr 2019, i nodi Diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc, cynhaliwyd gweithdy gydag 19 o ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. Dilynwyd hyn gan sesiwn dystiolaeth ffurfiol

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 122

gyda chynrychiolwyr Cyngor Ieuenctid Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, sy'n ofalwyr ifanc eu hunain, i glywed am eu profiadau o ddydd i ddydd.

217. Dywedodd y gofalwyr ifanc, yn eu barn hwy, fod pedwar peth clir y mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc yn credu y mae angen eu gwella:

- Ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc yn yr ysgol;
- Cyfleoedd i gymdeithasu â gofalwyr ifanc eraill yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol;
- Cyfleoedd i fod yn egniol ac i fynd ar wyliau gyda'r bobl y maent yn gofalu amdanynt a hebddynt; a
- Chyllid gwarantedig ar gyfer gwasanaethau gofalwyr ifanc fel nad oes raid iddynt boeni am golli'r gefnogaeth y maent yn dibynnu arni.¹⁵⁶

Nodi fel gofalwyr

218. Mae'r materion a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn ynghylch nodi fel gofalwr hefyd yn berthnasol i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Nid yw llawer o bobl ifanc eu hunain yn cydnabod pwysau bod yn ofalwr gan mai dyna'u "norm":

"I couldn't tell you when I started to call myself a young carer, because it was just something that I grew up with and I didn't know anything else."¹⁵⁷

"I just thought I was a daughter. I still don't use the term very much. Only recently I've started using the term – that I'm a young carer."¹⁵⁸

219. Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ei bod wedi bod yn her o fewn awdurdodau lleol i nodi gofalwyr ifanc, oherwydd bod anghenion gofalwyr ifanc yn unigryw ac yn eithaf cymhleth yn aml pan oeddent yn cydblethu ag anghenion y rhai sy'n derbyn gofal ac oedolion eraill sy'n ofalwyr yn y cartref. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd plant a phobl ifanc yn aml yn nodi eu hunain fel gofalwyr, yn enwedig pan oedd oedolyn-ofalwr arall yn y tŷ.¹⁵⁹

¹⁵⁶ Llythyr gan Gyngor Ieuenctid Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru - 26 Chwefror 2019

¹⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 103

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 111

¹⁵⁹ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol - 18 Ionawr 2019

220. At hynny, gall gofalwyr ifanc fod yn amddiffynnol iawn a cheisio diystyru eu rôl er mwyn osgoi ymwneud ag asiantaethau swyddogol. Dywedodd Plant yng Nghymru wrthym:

“I think one of the things is they [young carers] often underestimate or underreport the responsibilities that they have, and the work that they do, for fear that somebody will intervene and take them away.”¹⁶⁰

221. At hynny, mynegodd staff cymorth sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc bryderon bod diffyg cydnabyddiaeth gan ysgolion a meddygon teulu ynghylch faint o ofal sy'n cael ei ddarparu gan ofalwyr ifanc mewn gwirionedd.¹⁶¹

Asesu anghenion gofalwyr ifanc

Nifer yr asesiadau

222. O dan y Ddeddf, mae gan bob gofalwr ni waeth beth fo'i oedran, yr hawl i asesiad lle mae'n ymddangos y gallai fod angen cefnogaeth arno. Fodd bynnag, wrth siarad â nifer o ofalwyr ifanc, mewn grŵp o saith o blant roedd pedwar wedi derbyn asesiad ac nid oedd dau yn gwybod eu bod yn bodoli.¹⁶² Ni allai unrhyw gyfranogwr yn ein grwpiau ffocws nodi asesiad yn cael ei gynnal.¹⁶³

223. Dywedodd YMCA wrthym nad oedd asesiadau gofalwyr ifanc yn cael eu cynnal fel mater o drefn ledled Cymru. Adroddwyd bod YMCA, yn Abertawe yn unig, yn gweithio gyda thua 150 o ofalwyr ifanc, ac nad oedd gan yr un ohonynt asesiad gofalwr ifanc fel gwasanaeth statudol.¹⁶⁴

Proses asesu'r gwasanaethau cymdeithasol - anghysondebau/amrywiad yn y dull

224. Yn ôl elusennau plant, mae gan awdurdodau lleol ledled Cymru wahanol ddulliau ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ifanc. Mae rhai awdurdodau lleol yn cwblhau eu hasesiad eu hunain ac yna'n rhannu'r wybodaeth hon â sefydliadau a all gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae eraill yn comisiynu sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu a gweithredu asesiadau o angen a chreu cynlluniau gweithredu i weithio gyda theuluoedd i leihau effaith gofalu ar ofalwr ifanc. Yn anffodus,

¹⁶⁰ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 49

¹⁶¹ [Crynodeb o'r grwpiau ffocws](#)

¹⁶² Nodyn o sesiwn anffurfiol gyda gofalwyr ifanc

¹⁶³ [Crynodeb o'r grwpiau ffocws](#)

¹⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 9

clywsom hefyd fod rhai nad ydynt yn darparu nac yn cwblhau unrhyw beth o gwbl.¹⁶⁵

225. Dywedodd Plant yng Nghymru wrthym mai dim ond un awdurdod lleol yng Nghymru (Torfaen) a ddarparodd asesiadau gofalwr ifanc yn unol â'r Ddeddf.¹⁶⁶

226. Cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod ganddo dîm Gofalwyr Ifanc ymroddedig sydd bob amser wedi chwarae rhan ragweithiol iawn wrth nodi gofalwyr ifanc a chynnal asesiadau gofalwr ifanc.¹⁶⁷

227. Credai YMCA y dylai awdurdodau lleol fod yn atebol am gwblhau asesiadau neu gomisiynu gwasanaethau sy'n cyflawni'r rôl hon ar eu cyfer. Galwodd am safon genedlaethol ar gyfer asesiad gofalwyr ifanc, a oedd yn gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull cyfannol o asesu a chefnogi gofalwyr ifanc a'u teuluoedd:

“... our assessment asks five questions to identify the level of care that the young carer is providing. And if we aren't the best person to support that young carer, we will refer to either [] social services, or to the voluntary services, or to who that family needs. So, it's not just about the young carer, it's about the family as a whole, so there's a holistic approach.”¹⁶⁸

228. Mynegodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru bryderon hefyd fod gormod o weithwyr proffesiynol yn methu â nodi gofalwyr neu nad oes ganddynt fecanweithiau rhannu gwybodaeth briodol i sicrhau bod pecynnau cyfannol o gefnogaeth yn cael eu darparu ar gyfer gofalwyr, ac roedd hyn yn arbennig o amlwg yn achos gofalwyr ifanc.¹⁶⁹

Lefelau gofal priodol

229. Yng Nghymru, mae'r asesiad i ba raddau y mae'n briodol i ofalwr ifanc ddarparu gofal wedi'i nodi mewn Cod Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf¹⁷⁰.

230. Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, nid yw'r Cod yn glir o ran yr hyn a ystyrir yn briodol na pha gamau y dylid eu cymryd i gael gwared ar y cyfrifoldeb

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 21 Tachwedd 2018, Papur 3

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraffau 10-12

¹⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹⁶⁸ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 47

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹⁷⁰ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: [Rhan 3.Cod Ymarfer](#) (asesu anghenion unigolion)

dros ddarparu gofal amhriodol gan ofalwyr ifanc. Dywedodd fod y ddeddfwriaeth, yn Lloegr a'r Alban, yn glir iawn wrth nodi na ddylai gofalwyr ifanc fod yn darparu lefelau gofal "amhriodol". At hynny, nododd fod canllawiau statudol yr Alban yn darparu mwy o fanylion am sut i nodi a yw lefel y gofal a ddarperir gan y gofalwr ifanc yn amhriodol.¹⁷¹

231. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru y gallai fod budd posibl o ddiwygio'r Cod Ymarfer i ddarparu arweiniad cliriach i awdurdodau lleol yn hyn o beth.¹⁷²

232. Clywsom gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen gwelliannau o ran sut y mae gofalwyr ifanc yn cael eu nodi a'u cefnogi, yn enwedig plant ifanc sy'n wyth oed neu'n iau, y mae angen eu hamddiffyn rhag rolau gofalu amhriodol.¹⁷³

233. Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru wrthym y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus ei pholisi mewn perthynas â gofalwyr ifanc:

"Er, mewn gwirionedd, y gall fod yn angenrheidiol a phriodol i gefnogi gofalwyr ifanc yn eu rôl ofalu, mae'n bwysig deall a gweithredu polisiau sy'n helpu pobl sydd angen gofal a chymorth i gael hynny gan y gwasanaethau sydd ar gael, a dibynnu lawer llai ar blant i ddarparu gofal a chymorth sylweddol i'w teuluoedd. Efallai y bydd hyn yn gofyn am fuddsoddi mwy mewn gofal a chymorth â thâl."¹⁷⁴

Effaith gofalu ar blant a phobl ifanc

234. Mae effaith gofalu ar blant a phobl ifanc yn amlwg yn sylweddol ac mae'r ystod o gefnogaeth y maent yn ei darparu yn arwyddocaol.

235. Yn ystod ein gweithdy gyda gofalwyr ifanc, buont yn trafod eu profiadau o ofalu, h.y. yr hyn y maent yn ei wneud o ddydd i ddydd. Nodwyd y tasgau a ganlyn:

- Tasgau domestig (coginio, glanhau, golchi dillad ac ati);
- Rhoi triniaeth, gan gynnwys pigladau, pypmiau/tailedi/diodydd;
- Cymryd cyfrifoldeb dros blant eraill (brodyr a chwiorydd) a gofalu amdanynt, gan gynnwys par-atoi prydau bwyd, gofal personol, help gyda gwaith cartref, paratoi ar gyfer yr ysgol a mynd â hwy i mewn a mynychu noson rieni yr ysgol;
- Siopa;

¹⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹⁷³ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol - 18 Ionawr 2019

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C09

- Gofal personol i unigolyn sy'n derbyn gofal, gan gynnwys bwydo. Gall yr unigolyn sy'n derbyn gofal fod yn blentyn (brawd neu chwaer) neu'n oedolyn (e.e. rhiant);
- Gofalu am y teulu, ei gefnogi a "bod yno". Gwneud pobl yn hapus pan fyddant yn teimlo'n isel;
- Ymdrin â thrawiadau;
- Gweithredu offer, gan gynnwys cadair olwyn;
- Mynd gyda'r unigolyn dan ofal i'r ysbyty, cyfarfodydd ac apwyntiadau;
- Gwyllo/goruchwyllo/treulio'r nos gyda'r unigolyn sy'n derbyn gofal;
- Help gyda threfnu'r cartref/unigolyn sy'n derbyn gofal, gan gynnwys amserlennu/cadw amser;
- Bod yn gwmni i'r unigolyn sy'n derbyn gofal;
- Casglu a threfnu meddyginiaeth;
- Gofalu am anifeiliaid anwes;
- Aberthu bywyd cymdeithasol/cefnogaeth emosiynol;
- Ymglymiad â chlybiau/sefydliadau gwirfoddol sy'n gysylltiedig â'r unigolyn sy'n derbyn gofal;
- Cariad.

236. Yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod systemau a strwythurau'n cael eu datblygu mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn grymuso gofalwyr i ddarparu gofal da ac i flaenoriaethu eu bywyd ochr yn ochr â gofalu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer gofalwyr ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr ifanc sy'n profi ystod o rwystrau a all gael effaith niweidiol barhaus ar ganlyniadau eu bywyd:

“Despite pockets of good practice, our Young Adult Carers Council report that for many young carers, a lack of support and understanding at school had a detrimental impact not just on their ability to achieve academically, but also on their wider health and wellbeing.”¹⁷⁵

Iechyd meddwl a llesiant

237. Mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn datblygu problemau iechyd, gan gynnwys lefelau uchel o afiechyd meddwl, ar gyfradd llawer uwch na phobl ifanc eraill. Canfu gwaith ymchwil gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod 38 y cant o'r gofalwyr ifanc a arolygwyd wedi nodi bod ganddynt broblem iechyd meddwl:

- Dywedodd 19 y cant o ofalwyr ifanc eu bod “dan straen”;

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

- Dywedodd 22 y cant eu bod yn “poeni am yr unigolyn y mae’n gofalu amdano”; a
- Dywedodd 13 y cant eu bod yn “isel eu hysbryd”.¹⁷⁶

238. Dywedodd Oliver Davies, cynrychiolydd Cyngor Ieuenctid Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, wrthym:

“It has a massive effect on your mental health. It can tend to get you get you quite low, and bring you quite down. There aren’t many people who you can turn to to talk to who have a full understanding of what a young carer’s role is and why this has made you so upset or brought down.”¹⁷⁷

239. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru wrthym:

“Yn gyffredinol mae gofalwyr ifanc yn derbyn cymorth da, fodd bynnag, mae nifer gynyddol gydag anghenion emosiynol cymhleth ac mae diffyg gwasanaethau iechyd meddwl i blant yn golygu fod gweithwyr sy’n cefnogi gofalwyr ifanc yn delio gyda rhai materion heriol a chymhleth. Mae gan rhai awdurdodau lleol gynlluniau diogelwch ar waith ar gyfer gofalwyr ifanc a gallant gysylltu gyda’r rhain am gymorth os oes angen.”¹⁷⁸

240. Gall cael rhywun i siarad â hwy am eu profiadau fod yn arbennig o fuddiol i ofalwyr ifanc. Dywedodd mwyafrif y gofalwyr ifanc wrthym eu bod eisiau gallu siarad â rhywun y gallant uniaethu â hwy, a siaradwyd yn gadarnhaol am grwpiau gofalwyr ifanc fel fforwm defnyddiol i’w galluogi i rannu eu profiadau.¹⁷⁹

241. Yn aml gall cyfrifoldebau gofalwyr ifanc eu hatal rhag cymdeithasu â phlant a phobl ifanc eraill; a gall grwpiau gofalwyr ifanc helpu i lenwi’r bwlch hwn. Disgrifiodd un gofalwr ifanc, Bethan Evans, pa mor bwysig y gall grwpiau gofalwyr ifanc fod:

“Once you walk into that room, you get your childhood back.”¹⁸⁰

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 12

¹⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

¹⁷⁹ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 56

¹⁸⁰ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 64

Cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol

242. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod gofalwyr ifanc yn llai tebygol o ymgymryd â gweithgarwch corfforol rheolaidd na'u cyfoedion. Ymhlith y rhwystrau y nodir sy'n cyfyngu mynediad at hamdden, ac yn benodol gweithgarwch corfforol, mae pwysau amser, mynediad at ofal amgen, a rhwystrau ariannol.¹⁸¹

243. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym:

“Young and young adult carers are a marginalised group with numerous restrictions on their ability to engage in exercise and we believe that more research needs to be undertaken to fully understand these barriers and how best they might be overcome, including the potential use of Young Carers ID Cards to offer free access to local authority run leisure facilities.”¹⁸²

244. Aeth ymlaen i ddweud bod angen mwy fyth ar ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc i allu cael gafael ar weithgarwch rheolaidd na'u cyfoedion i sicrhau eu hiechyd a'u lles corfforol, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn flaenoriaeth i gael gwared ar rwystrau i ofalwyr ifanc yn cael gafael ar gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol rheolaidd.

Trafnidiaeth

245. Mae trafndiaeth, neu drafnidiaeth fforddiadwy, yn broblem i lawer o ofalwyr ifanc. Amlygwyd teithio gostyngedig a theithio i grwpiau cymorth gofalwyr ifanc yn ystod ein gweithdy anffurfiol gyda gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.¹⁸³

246. Adroddodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sut na all y mwyafrif o ofalwyr ifanc yrru, ac mae hyn yn effeithio ar eu gallu i deithio pan fydd yr unigolyn sy'n eu gyrru fel arfer yn sâl neu ddim ar gael. Mae problemau cael gafael ar gludiant addas yn golygu y gall gofalwyr ifanc gael eu hynysu neu eu heithrio o weithgareddau cymdeithasol.¹⁸⁴

¹⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

¹⁸³ Nodyn o sesiwn anffurfiol gyda gofalwyr ifanc

¹⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

Gofaluwyr ifanc a'r ysgol

247. Mae 27 y cant o ofaluwyr ifanc (11-15 oed) yn colli'r ysgol neu'n wynebu anawsterau addysgol ac ar gyfartaledd mae gofaluwyr ifanc yn torri'n fyr neu'n colli 48 diwrnod o ysgol y flwyddyn. Mae gofaluwyr sy'n oedolion ifanc yn fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) rhwng 16 a 19 oed.¹⁸⁵

248. Nododd Ymddiriedolaeth Gofaluwyr Cymru fod ffigurau swyddogol yn dangos bod o leiaf un gofalwr ifanc ym mhob dosbarth ac mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod y ffigur go iawn yn agosach at bedwar ym mhob dosbarth.¹⁸⁶

249. Gall problemau gyda phresenoldeb neu gyrhaeddiad ysgol effeithio ar ddyfodol gofaluwyr ifanc. Gall fod yn anodd i ofaluwyr ifanc feddwl am y dyfodol pan fydd eu ffocws ar bryderon mwy uniongyrchol. Dywedodd un gofalwr ifanc ei fod wedi colli'r ysgol "pan mae Mam yn cael teimladau hunanladdol".¹⁸⁷

250. At hynny, mae gofaluwyr ifanc yn fwy tebygol o gael eu bwlio, gyda chwarter y gofaluwyr ifanc yn nodi eu bod wedi cael eu bwlio yn yr ysgol oherwydd eu rôl ofalu.¹⁸⁸

Cefnogaeth mewn ysgolion

251. Nododd Cyngor Gofaluwyr sy'n Oedolion Ifanc Ymddiriedolaeth Gofaluwyr Cymru, i lawer o ofaluwyr ifanc, fod diffyg cefnogaeth a dealltwriaeth yn yr ysgol yn cael effaith niweidiol nid yn unig ar eu gallu i gyflawni yn academiaidd, ond hefyd ar eu hiechyd a'u lles ehangach.¹⁸⁹

252. Dywedodd Grace Barton, 17, gofalwr ifanc o Ganolbarth Cymru, wrthym fod bod yn ofalwr ifanc yn bendant wedi effeithio ar ei phrofiad addysgol. Awgrymodd fod hyn yn wir am y mwyafrif o ofaluwyr ifanc a'i fod i raddau helaeth oherwydd diffyg cefnogaeth yn yr ysgol.¹⁹⁰

253. Clywsom gan lawer o ofaluwyr ifanc fod cefnogaeth yn yr ysgol yn amrywiol, ac y bydd y gefnogaeth sydd ar gael yn dibynnu ar aelodau staff unigol, ac nad yw'n cael ei darparu gan yr ysgol ar y cyfan.

¹⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig. C23

¹⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig. C23

¹⁸⁷ Nodyn o sesiwn anffurfiol gyda gofaluwyr ifanc

¹⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig. C23

¹⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig. C23

¹⁹⁰ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 8

254. Dywedodd Oliver Davies, 13, gofalwr ifanc o Ben-y-bont ar Ogwr:

“There are definitely a few teachers in my school, personally, that have been an amazing help to me and my family, but there are still other members of staff and teachers in school who don’t have that understanding.”¹⁹¹

255. Dywedodd llawer o ofalwyr ifanc wrthym fod rhai athrawon yn cydymdeimlo ac yn barod i helpu, ond nid yw eraill “ar yr un dudalen” ac nid ydynt yn deall effaith bod yn ofalwr ifanc. Cyfeiriwyd at wrthod estyniadau i derfynau amser ar gyfer gwaith fel enghraifft.¹⁹²

256. Dywedodd Bethan Evans, 17, gofalwr ifanc o Abertawe wrthym:

“...we can deal with homework, and we can deal with the stress of school, it’s having that understanding that we may need a bit more time, and, if we do ask for that time and say we have had a problem at home, it’s the recognition that it’s what is needed...”¹⁹³

Ymwybyddiaeth cyfoedion o ofalwyr ifanc

257. Rydym eisoes wedi clywed nad yw gofalwyr ifanc yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth athrawon a staff yn yr ysgol, ond nododd llawer hefyd ddiffyg dealltwriaeth gan ffrindiau a chyfoedion ynghylch yr hyn y mae’n ei olygu i fod yn ofalwr ifanc.

258. Dywedodd Oliver Davies wrthym:

“A few of my friends know [that I’m a carer], but still lack that understanding. And some recent research went out, and almost a quarter—23 per cent—of young carers came back telling us that they find that their caring role makes it harder for them to make friends.”¹⁹⁴

259. Clywsom fod angen gwell dealltwriaeth o rôl ac anghenion gofalwyr ifanc ar lefel ysgol gyfan.¹⁹⁵

¹⁹¹ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 20

¹⁹² Nodyn o sesiwn anffurfiol gyda gofalwyr ifanc

¹⁹³ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 22

¹⁹⁴ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 16

¹⁹⁵ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 29

Canllawiau i ysgolion

260. Nododd nifer o ofalwyr ifanc y byddai canllawiau i ysgolion ar sut i gefnogi gofalwyr ifanc yn adnodd defnyddiol.¹⁹⁶

261. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi datblygu canllawiau¹⁹⁷ i ysgolion, gyda'r nod o wneud y broses o nodi a chefnogi gofalwyr ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru mor hawdd â phosibl. At hynny, clywsom fod gan rai ysgolion fentrau ar waith i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc ac i ddarparu cefnogaeth lle mae ei hangen. Er enghraifft, mae gan Went raglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion lle mae athro a enwir yn gweithredu fel hyrwyddwr gofalwyr ifanc. Cynllun gwirfoddol yw hwn.

262. Fodd bynnag, clywsom fod y darlun yn gymysg, gyda rhai ysgolion yn darparu'r math hwn o gefnogaeth a gofalwyr ifanc eraill yn nodi nad oedd gan eu hysgol hyrwyddwr gofalwyr neu nad oeddent yn ymwybodol bod ganddynt un.¹⁹⁸

263. Nododd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru nad oedd gan hyd yn oed rhai o'r ysgolion mwyaf "ymwybodol o ofalwyr" yng Nghymru gysylltiadau â gwasanaethau neu fecanweithiau gofalwyr lleol i gyfeirio gofalwyr at wasanaethau ataliol neu i gael asesiad ffurfiol o'u hanghenion cymorth ehangach y tu hwnt i leoliad addysg.¹⁹⁹

264. Tynnodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sylw hefyd at y gwaith sy'n cael ei wneud yng Ngwent drwy'r rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion, ond dywedodd:

"The issue [] I have is that that is a voluntary scheme—it's up to the schools whether they decide to take that on or not. What I'd like to see is all of the schools taking it on and introducing it. [] the difficulty is, that we can't make it compulsory."²⁰⁰

265. Yn lansiad y rhaglen beilot yn 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ddatganiad ar y cyd yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o gefnogi ysgolion i nodi gofalwyr ifanc ac i ddarparu cefnogaeth briodol i ddiwallu eu hanghenion o ran cyrhaeddiad addysgol, iechyd emosiynol a lles y dysgwyr. Cyhoeddwyd hefyd, er mwyn helpu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gryfach, y byddai Estyn yn cynnal adolygiad thematig i'r modd y mae

¹⁹⁶ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraffau 45-47

¹⁹⁷ [Adnoddau Canllawiau Cam-wrth-gam Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion \(Cymru\) \(2017\)](#)

¹⁹⁸ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraffau 31-33

¹⁹⁹ [Tystiolaeth ysgrifenedig C23](#)

²⁰⁰ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 389

gofalwyr ifanc yn cael eu nodi a'u cefnogi yn yr ysgol ac mewn colegau addysg bellach i'w cynnal yn 2018-19.²⁰¹

266. Cyhoeddwyd canfyddiadau adolygiad thematig Estyn ym mis Mai 2019²⁰². Nododd yr adroddiad nad oedd llawer o ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion yn gwybod pa ddysgwyr oedd â rôl ofalu gartref, ac o ganlyniad i hyn, roedd y gefnogaeth a gaiff gofalwyr ifanc yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Amlygodd yr arolygiaeth y gall darparwyr sy'n nodi ac yn cefnogi gofalwyr ifanc helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i lwyddiant academaidd a lles y dysgwyr hyn.

267. Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai ysgolion, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion nodi pa ddysgwyr sydd â rôl ofalu a bod ganddynt aelod ymroddedig o staff i arwain ar hyrwyddo anghenion gofalwyr ifanc.

Cardiau adnabod gofalwyr ifanc

268. Clywsom fod gan gardiau adnabod gofalwyr ifanc y potensial i nodi gofalwyr ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau, megis ysgolion, gofal iechyd a hamdden. Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn gweithredu'r cynlluniau hyn ers nifer o flynyddoedd, ond mae cydnabyddiaeth gyffredinol o'r cerdyn gan weithwyr proffesiynol yn "isel iawn".

269. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym fod diffyg cydnabyddiaeth o'r cardiau yn rhywbeth y mae ei chyngor ieuenctid yn siarad amdano'n helaeth, yn enwedig o ran cydnabod y cerdyn mewn fferyllfa. Aeth ymlaen i ddweud:

"Some can have trouble picking up medications for their parent and the use of an ID card potentially has helped for some. But recognition levels are really low. [...] I think that's something that was described really strongly when we met in October as a whole council.

There was an experience where someone had shown a card and somebody didn't know what it meant and it was embarrassing, so they're not going to use it anymore. So, I think, for us, it is the consistency of the professionals knowing that they need to recognise

²⁰¹ [Datganiad ar y cyd](#), Rhagfyr 2017

²⁰² Adroddiad thematig Estyn, [Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru](#), Mai 2019

the card and adapt what they're doing to meet the needs of that young carer.”²⁰³

270. Clywsom hefyd gan ofalwyr ifanc fod angen mwy o gydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth o'r cynllun:

“I do have one [a young carers ID card] and it has been really helpful. But there are still teachers who are like, ‘Oh, it’s just an excuse; it’s not good enough.’ I think that they need to be more recognised.”²⁰⁴

271. Yn 2018-19, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ddatblygu canllawiau ac adnoddau ar gyfer cyflwyno cardiau adnabod yn genedlaethol ar gyfer gofalwyr ifanc er mwyn eu galluogi i gael gafael ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gan ysgolion, meddygfeydd, fferyllfeydd a gweithwyr proffesiynol eraill. Adroddir y bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2019-20.²⁰⁵

272. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym:

“We would really advocate for a Wales-wide card. We’d also advocate for it not only being used in schools, but also being used to access leisure services at a discounted rate, but also to access health and health requirements, so health services—for example, being able to collect medication from a pharmacy.”²⁰⁶

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

273. O ran y lefelau priodol o ofal y dylai gofalwyr ifanc eu darparu, dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog wrthym fod y codau ymarfer statudol yn glir iawn o ran rôl yr asesiad, yn yr ystyr bod yn rhaid iddo ystyried i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu ac yn barod i ddarparu'r gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal.²⁰⁷

274. Dywedodd y byddai'r pecyn cymorth newydd i asesu gofalwyr sy'n cael ei gynhyrchu gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn helpu o ran cynnal yr asesiadau hynny, beth bynnag yw oedran y gofalwr:

“It’s work very much with the individual, the carer and the family—the young carer—to look at the capacity resources and the outcomes that

²⁰³ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, paragraff 131

²⁰⁴ Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2019, Paragraff 129

²⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

²⁰⁶ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 41

²⁰⁷ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 72

they want to achieve. It's very much outcome-focused on what does the young carer want to achieve.”

275. Dywedodd ei bod yn bwysig ystyried anghenion gofalwyr ifanc yn gyfannol a heb feirniadu.²⁰⁸

276. Mewn perthynas â rôl ysgolion, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym eu bod yn hanfodol wrth helpu gofalwyr ifanc, cydnabod gofalwyr ifanc a gwneud eu llwybr ychydig yn haws. Dywedodd y dylai'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, gyda'i bwyslais ar lesiant, roi cyfle i gael mwy o empathi a dealltwriaeth mewn ysgolion.²⁰⁹

277. Tynnodd sylw at y gwaith sydd wedi'i wneud gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i lunio dau ganllaw i ysgolion, y canllaw a'r pecyn cymorth “Cynorthwyo Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol”, a “Cynorthwyo Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol: Canllawiau Cam-wrth-gam ar gyfer Arweinwyr, Athrawon a Staff sydd ddim yn Dysgu”, a ysgrifennwyd ar y cyd ag athrawon a staff ysgolion, i wneud y broses o nodi gofalwyr mor hawdd â phosibl.²¹⁰

278. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw hefyd at becyn cymorth a ddatblygwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru gyda'r nod o gefnogi myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu ac sydd mewn addysg bellach.

279. Aeth ymlaen i ddweud, er bod yr adnoddau hyn ar gael i ysgolion, cred fod angen hyfforddiant ymwybyddiaeth er mwyn i ysgolion wybod bod angen iddynt eu defnyddio.²¹¹

280. Mewn perthynas â chardiau adnabod, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod y rhaglen weithredu yn cael ei chwblhau ac y byddai'n ysgrifennu at awdurdodau lleol, gan ddarparu manylion am y cynllun a'u rôl yn ei gweithredu. Cadarnhaodd y byddai'n gynllun cenedlaethol, wedi'i ddylunio'n benodol i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc.

281. Dywedodd hefyd y byddai'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall y materion sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc, er mwyn sicrhau bod buddion y cynllun yn cael eu gwireddu'n llawn.²¹²

²⁰⁸ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 72

²⁰⁹ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 39

²¹⁰ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 40

²¹¹ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 41

²¹² Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 47

Ein barn ni

282. Mae plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr yn wynebu heriau sylweddol. Clywsom yn uniongyrchol gan ofalwyr ifanc am y mathau o dasgau y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni o ddydd i ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys casglu, trefnu a rhoi meddyginiaethau i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano; rheoli'r cartref, gan gynnwys siopa a choginio; a chymryd cyfrifoldeb dros eu brodyr a'u chworydd, a allai olygu helpu gyda gwaith cartref a hyd yn oed mynychu nosweithiau rhieni.

283. Yn ychwanegol at feichiau ymarferol gofalu, ni ddylem danamcangyfrif y pwysau emosiynol sylweddol ar ofalwyr ifanc. Dywedodd y gofalwyr ifanc y gwnaethom siarad â hwy eu bod yn teimlo cyfrifoldeb i "fod yno" i'w teuluoedd ac i "wneud pobl yn hapus pan fyddant yn teimlo'n isel".

284. O ganlyniad i'r heriau hyn, mae gofalwyr ifanc yn wynebu rhagolygon gwaeth na'u cyfoedion ar sawl cyfrif, gan gynnwys o ran cyflogaeth a mynediad at addysg uwch. At hynny, mae tua 10 y cant o ofalwyr ifanc ar y gofrestr amddiffyn plant, yn bennaf oherwydd pryderon ynghylch esgeulustod.

285. Felly, mae'n destun pryder mawr clywed tystiolaeth gan gyrff y trydydd sector fod blaenoriaethu gofalwyr ifanc wedi dirywio yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a bod pethau'n waeth ers cyflwyno'r Ddeddf.

286. Fel y nodir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae asesu a chefnogi gofalwyr a'u teuluoedd yn gofyn am ddull cyfannol, ac nid yw gofalwyr ifanc yn wahanol yn hyn o beth. Dylai gwasanaethau i ofalwyr ifanc ganolbwyntio ar yr unigolyn, fod yn briodol i'w hoedran ac yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion penodol.

287. Yn anffodus, mae anghysondebau yn y dull o asesu a chefnogi gofalwyr ifanc ar draws awdurdodau lleol, ac mae'r profiadau o gyngor, gwybodaeth a chynhorthwy a ddarperir i ofalwyr ifanc wedi bod yn gymysg. Mae hyn yn annerbyniol.

288. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy uchelgeisiol ynghylch y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gall pob gofalwr ifanc a phob gofalwr sy'n oedolyn ifanc ddisgwyl eu derbyn, o ran eu rôl ofalu ac yn eu bywyd ochr yn ochr â gofalu. Rhaid i'r gefnogaeth a'r gwasanaethau i'r gofalwyr ifanc hyn fod yn gyson, ar gyfer yr hirdymor ac yn sicrhau cysylltiad cryf rhwng ysgolion a gwasanaethau gofalwyr.

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob gofalwr ifanc a phob gofalwr sy'n oedolyn ifanc yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Wrth wneud hynny, rhaid iddi fynd i'r afael â'r pryderon penodol a fynegwyd gan ofalwyr ifanc mewn tystiolaeth i'r

pwyllgor hwn. Rhaid iddi sicrhau bod y gefnogaeth a'r gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn briodol i'w hoedran ac yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion penodol. Rhaid bod cysylltiad cryf hefyd rhwng ysgolion a gwasanaethau gofalwyr. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac adrodd yn ôl inni ar y cynnydd o fewn chwe mis.

Lefelau gofal priodol

289. Nid yw'n eglur i ba raddau y mae asesiadau anghenion ar gyfer gofalwyr ifanc yn cynnwys ystyried a yw lefel y gofal a ddarperir gan ofalwr ifanc yn "briodol". Ymddengys bod y sefyllfa'n symlach yn Lloegr a'r Alban, lle mae'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol yn darparu enghreifftiau o'r mathau o dasgau y gellir eu hystyried yn amhriodol i ofalwr sy'n blant eu cyflawni, gan gynnwys gofal personol fel ymolchi a mynd i'r toiled, cyflawni tasgau corfforol egniol fel codi, a rhoi meddyginiaeth

290. Dylid cryfhau'r Cod Ymarfer sy'n ymdrin â'r mater hwn yng Nghymru er mwyn sicrhau ei fod yn unol â Lloegr a'r Alban, o leiaf.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch yr hyn a ystyrir yn lefel "briodol" o ofal i ofalwr ifanc er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru o leiaf yn gyfartal â'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban.

Ysgolion

291. Ymddengys bod diffyg cydnabyddiaeth gan wasanaethau cyhoeddus o ofalwyr ifanc yn gyffredinol. Credwn fod buddion sylweddol i bawb sy'n gysylltiedig â gwella dealltwriaeth o wasanaethau ieuchyd, cymdeithasol ac addysg o rôl a chyfrifoldebau gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.

292. Yn benodol, rydym yn teimlo bod angen cyfranogiad gwell a mwy cyson gan ysgolion o ran nodi a chefnogi gofalwyr ifanc. Mae athrawon ymroddedig sy'n gwneud gwaith rhagorol, ond ni all y system ddibynnu ar weithredoedd unigolion.

293. Clywsom am nifer o fentrau da mewn rhai ysgolion, fel hyrwyddwyr gofalwyr a grwpiau cymheiriaid, ac rydym yn croesawu'r rhain. Lle maent yn bodoli, ymddengys eu bod yn darparu strwythurau cymorth mawr eu hangen ar gyfer y bobl ifanc hynny, ond yn anffodus maent ymhell o fod yn safonol. Mae hefyd nifer fach o becynnau cymorth sydd ar gael am ddim i gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc, ond nid yw eu defnydd yn safonol ychwaith.

294. Dylai'r gofynion sylweddol a roddir ar ofalwyr ifanc gael eu cydnabod gan, a thrwy, bob ysgol, ac mae angen canllawiau cryfach a phroses well ar gyfer rhannu arfer gorau i danategu hyn. Mae hefyd angen cysylltiadau cryf ag agwedd "Ysgol Gyfan" Llywodraeth Cymru tuag at gefnogaeth iechyd meddwl a lles mewn ysgolion.

Argymhelliad 19. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiweddarau a chryfhau'r canllawiau presennol i ysgolion ynghylch nodi a chefnogi gofalwyr ifanc, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth ym mhob ysgol o'r galwadau ar ofalwyr ifanc. Dylai annog a chreu cyfleoedd i rannu arferion gorau o wasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion.

Cardiau adnabod gofalwyr ifanc

295. Rydym yn cefnogi'n gryf y cynllun cardiau adnabod ar gyfer gofalwyr ifanc. Credwn ei fod yn adnodd pwysig wrth adnabod gofalwyr ifanc a chydabod eu statws unigryw.

296. Fodd bynnag, dim ond os yw'n gynllun cenedlaethol a ddarperir gan bob awdurdod lleol gyda chefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru ac sy'n hygyrch i bob gofalwr ifanc a gofalwr sy'n oedolyn ifanc ledled Cymru y bydd buddion y cynllun cardiau adnabod yn cael eu gwireddu'n llawn. Hyd yma, rydym yn teimlo na wnaed cynnydd digonol yn y maes hwn.

Argymhelliad 20. Credwn y dylai'r cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc fod yn gynllun cenedlaethol, wedi'i ddarparu gan bob awdurdod lleol gyda chefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru ac yn hygyrch i bob gofalwr ifanc a gofalwr sy'n oedolyn ifanc. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni fel mater o flaenoriaeth. Dylai adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn chwe mis.

297. Y tu hwnt i hyn, ac yn y dyfodol, gallai fod cyfleoedd drwy'r cynllun i gyfoethogi bywydau gofalwyr ifanc mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy gynllun trafndiaeth gyhoeddus a hamdden ar gyfer deiliaid cardiau.

6. Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

Themâu allweddol yn y bennod hon

Cafwyd barn gymysg gan ofalwyr am ansawdd y wybodaeth, cyngor a'r cynhorthwy a ddarperir gan awdurdodau lleol - mae rhai wedi eu cael yn ddefnyddiol, eraill ddim yn ymwybodol ohonynt neu'n eu cael yn anaddas i'w hanghenion, yn enwedig gofalwyr ifanc.

Profiadau gwael rhai yn ceisio gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy gan awdurdodau lleol. Nid yw llawer yn gwybod ble i fynd i gael gafael ar wybodaeth, ac yn aml eu prif ffynonellau yw ffrindiau a theulu, gofalwyr eraill neu'r trydydd sector.

Adroddiadau o wybodaeth anghyson yn cael ei darparu gan awdurdodau lleol. Mae angen safoni gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar draws yr holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

Mae'n bwysig bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth briodol ar yr adeg iawn, cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng.

Dyweddodd CLILC fod gan bob awdurdod lleol erbyn hyn bwynt cyngor a gwybodaeth canolog, a darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae Dewis Cymru yn darparu gwasanaeth gwybodaeth ar-lein am wella llesiant.

298. Mae adran 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y darperir gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy am ofal a chymorth. Rhaid i'r gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am y gofal a'r gefnogaeth sydd ar gael a sut i gael gafael arni. Rhaid darparu'r wybodaeth, y cyngor a'r cynhorthwy "mewn modd sy'n hygyrch i'r person hwnnw".

Argaeledd gwybodaeth

299. Mae darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn hanfodol i wybodaeth am wasanaethau a chefnogaeth ataliol i ofalwyr, a mynediad atynt.

300. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru wrthym fod ystod eang o wybodaeth ar gael ond weithiau mae'n rhaid i ofalwyr fynd i sawl man i gael gafael ar hyn ac nid yw bob amser yn hawdd ei chyrraedd, yn enwedig ar adegau o argyfwng.²¹³

301. Roedd hyn yn cyfateb i adroddiadau a gawsom gan ofalwyr eu bod yn teimlo'n rhwystredig yn eu hymdrechion i gael gafael ar wybodaeth, gan fod angen cryn amser ac egni i wneud hyn.

“Mae angen mwy o wybodaeth arnom ni. Ble ddylen ni fynd i gael gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael?” *Cyfranogwr o Credu Carers Llandinam*

“Yr unig reswm rwy'n gwybod am gymorth yw oherwydd gwybodaeth ar lafar gan ffrindiau.” *Cyfranogwr o grŵp Gofalwyr y Cymdeithas Strôc*²¹⁴

302. Dywedodd gofalwyr a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws wrthym fod anghysondebau yn y wybodaeth a'r gefnogaeth a gynigiwyd iddynt, gyda rhai aelodau o'r grŵp hyd yn oed wedi cael gwahanol lefelau o wybodaeth gan yr un awdurdod. Roedd barn hefyd bod y cymorth a gynigiwyd yn dibynnu'n fawr ar weithwyr cymdeithasol unigol.²¹⁵

303. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wrthym mai'r neges yr oeddent yn ei chlywed gan ofalwyr oedd bod angen iddynt wybod bod cymorth ar gael gan yr awdurdod lleol os oes ei angen:

“Too often we only hear a cry for help when a carer reaches crisis point and feels that they can't go on with their caring role.”²¹⁶

304. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym fod eu harolwg “Track The Act” yn dangos, pan oedd gofalwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth gan eu hawdurdod lleol, eu bod yn ei chael yn ddefnyddiol, ond:

“the issue is that not enough carers are seeing that information. We need to increase the reach of that information out.”²¹⁷

²¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

²¹⁴ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

²¹⁵ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

²¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C13

²¹⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 153

Hygyrchedd gwybodaeth

305. Amlygodd Arolygiaeth Gofal Cymru yr angen i gydnabod nad oedd gan rai gofalwyr fynediad i'r rhyngwrdd ac felly roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu o'r ffocws cynyddol ar wybodaeth ar y we. Dywedodd hefyd fod angen gwelliannau i sicrhau bod gwybodaeth gofalwyr ar gael mewn ystod ehangach o fformatau, gan gynnwys ar gyfer y rhai â nam ar eu golwg, yn enwedig drwy dudalennau gwe awdurdodau lleol.²¹⁸

306. Clywsom hefyd am bwysigrwydd darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth mewn ffordd sy'n briodol i oedran. Dywedodd Age Cymru wrthym:

“Many older people are unwilling or unable to use the Internet, or may not trust the accuracy and reliability of an Internet source. Many older people have trouble speaking and/or hearing on the telephone and this needs to be handled appropriately and respectfully.”²¹⁹

307. Tynnodd YMCA Abertawe sylw at anghenion penodol gofalwyr ifanc. Dywedodd fod byrddau iechyd lleol wedi creu a mabwysiadu Strategaethau Gofalwyr a oedd yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, ac er bod hwn yn ddechrau cadarnhaol, yn rhy aml o lawer nid ystyriwyd barn a phrofiadau pobl ifanc:

“Many of the events that are hosted by local authorities or voluntary services are hosted during the day time on weekdays to cater for adult carers. This is then not accessible for young carers as the aim of the services supporting young carers is to ensure they are attending school.”²²⁰

Pwynt mynediad sengl

308. Yn ôl Conffederasiwn y GIG mae darparu gwybodaeth a chyngor yn farchnad orlawn gyda llawer yn dyblygu ac yn cystadlu ag eraill. Credai fod angen canolbwynt neu gyswllt sengl ar ofalwyr sy'n mynd i'r afael â'u holl anghenion:

“This needs to range from advice on benefits and financial matters, accessing respite services, medical advice and advice on legal matters. Particularly for carers who find themselves having to care for someone

²¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

²¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C19

²²⁰ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 21 Tachwedd 2018, Papur 3

living with dementia where there is no lasting power of attorney, there are often challenges in accessing the right support.”

309. Dywedodd Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg wrthym y byddai gofalwyr yn gwerthfawrogi siop un stop lle gallent gael gwybodaeth am gymorth a gwasanaethau ar eu cyfer o un rhif ffôn ac y byddai hyn yn gwneud llawer i leddfu straen y gofalwr.²²¹

310. Galwodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru hefyd am ganolbwynt clir lle gall gofalwyr a gweithwyr proffesiynol gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfoes. Mae'n nodi:

“Our evidence shows that having an easily identifiable point of contact, whether that be a physical building, a main telephone line, an outreach worker or combination of these things, is key in ensuring carers are able to access the support they need.”²²²

311. Dywedodd CLILC wrthym fod gan bob awdurdod lleol bwynt cyngor a gwybodaeth canolog erbyn hyn. At hynny, dywedodd CLILC wrthym fod Dewis Cymru yn ganolbwynt gwybodaeth allweddol i ofalwyr sy'n chwilio am wybodaeth am eu lles.²²³

312. Fodd bynnag, clywsom rai pryderon mewn perthynas â defnyddio pwyntiau mynediad sengl. Yn gyntaf mewn perthynas â gallu pobl i lywio drwy'r pwyntiau mynediad sengl hynny ac yn ail i ble roedd pobl yn cael eu cyfeirio wedyn. Amlygodd Age Cymru bwysigrwydd hyfforddiant i staff sy'n cyflwyno'r pwyntiau mynediad sengl i gydnabod anghenion gofalwr a gallu eu pwyntio i'r cyfeiriad cywir.²²⁴

313. Clywsom gan Gofal Cymdeithasol Cymru ei fod wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cymhwysedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ystod eang o weithwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy. Nododd fod anghenion a phrofiadau gofalwyr yn cael eu nodi'n benodol yn y fframwaith newydd hwn.²²⁵

314. Clywsom gan Gonffederasiwn y GIG fod byrddau iechyd hefyd yn cefnogi prosiectau a grwpiau penodol ar lefel leol i godi ymwybyddiaeth o anghenion

²²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C14

²²² Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

²²³ Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2018, paragraff 365

²²⁴ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 322

²²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C09

gofalwyr a gwella ansawdd y wybodaeth a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.²²⁶

Lledaenu gwybodaeth

315. Clywsom, er bod llawer o wahanol ffyrdd yr oedd gwybodaeth yn cael ei lledaenu i ofalwyr, nad oedd hyn yn cael ei wneud yn effeithiol. Ar y pwynt hwn, nododd Mencap Cymru nad oedd y gofalwyr yr oeddent wedi siarad â hwy yn ystyried awdurdodau lleol fel ffynhonnell wybodaeth a chyngor ond yn hytrach roeddent yn dibynnu ar elusennau ac ar lafar gwlad fel eu prif ffynhonnell wybodaeth:

“Getting information is a matter of luck, whether you get a decent social worker, or you know a family that have a good social worker, or a family that have experience of something you are looking for information on.”

316. Nododd nifer o ofalwyr y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth a chyngor gan y trydydd sector, gan y teimlwyd ei fod yn fwy hygyrch ac yn llai brawychus, oherwydd gallent ofyn beth yw ystyr rhywbeth a pheidio â chael eu barnu.²²⁷

317. Yn gyffredinol, roedd gofalwyr a gymerodd ran yn ein digwyddiad bwrdd crwn yn teimlo bod diffyg gwybodaeth am wasanaeth gofalwyr yn y lleoedd lle byddai'n fwyaf defnyddiol a hygyrch, fel meddygfeydd, llyfrgelloedd, ysbytai, swyddfa'r post, banciau bwyd, byrddau cymunedol mewn archfarchnadoedd a'r cyfryngau cymdeithasol.

318. Teimlai gofalwyr fod angen dull llai ffurfiol a mwy personol, efallai gyda gweithwyr cymdeithasol ac awdurdodau lleol yn mynd i'r gymuned i ateb cwestiynau a lledaenu gwybodaeth yn rhagweithiol.

319. Clywsom hefyd fod angen safoni gwybodaeth a'i chyddwyso yn adnodd hylaw, er enghraifft cyfeirlyfr o wybodaeth gyda manylion am sut i gael cyngor ac arweiniad pellach.

320. Yn ôl Arolygiaeth Gofal Cymru, roedd cyfarfodydd grwpiau gofalwyr yn cael eu gwerthfawrogi a theimlid eu bod yn ffynhonnell wybodaeth a chefnogaeth dda gan ddarparu cwmni da, lle i gwrdd â phobl a rhannu pryderon a phrofiadau cadarnhaol. Dywedodd fod rhai siroedd yn cael diwrnodau gwybodaeth gofalwyr

²²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C31

²²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, C30

rheolaidd a bod gofalwyr wedi dweud wrthynt am yr ymateb dynol cynnes a gawsant, ynghyd â thafleddi gwybodaeth a manylion cyswllt grwpiau cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.²²⁸

321. Clywsom hefyd enghreifftiau o gyrsiau hyfforddi ar gyfer gofalwyr yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Er enghraifft, yn Nhorfaen cyflwynwyd cwrs sefydlu chwe wythnos i ofalwyr wedi'i anelu'n bennaf at ofalwyr newydd a fyddai'n ymdrin â holl broblemau gofalwyr ac yn darparu gwybodaeth iddynt.²²⁹

Perfformiad gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy

322. Mynegodd nifer o dystion bryderon nad oedd unrhyw ffordd ar hyn o bryd o fesur perfformiad gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy. Nododd tystiolaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru

“Roedd yn amlwg nad oedd gan awdurdodau lleol drefniadau monitro cadarn ar waith i bennu ansawdd y gwasanaethau y maen nhw'n eu comisiynu i ddarparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr.”²³⁰

323. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn a Gofalwyr Cymru wrthym, oherwydd nad yw data gwybodaeth reoli ar nifer y gofalwyr sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn cael eu casglu gan bob un o'r gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, nad oedd mecanwaith ar waith i fesur eu perfformiad.

324. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym:

“From our information request responses from local authorities, it is apparent that there is clearly good practice in many areas but this is not translated across every local authority in Wales.”²³¹

Y Gymraeg

325. Amlygodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru²³² a'r Comisiynydd Pobl Hŷn bwysigrwydd gallu cael gafael ar wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y Comisiynydd wrthym:

²²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

²²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C13

²³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, C08

²³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

²³² Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

“... when you’re in a caring situation, and it can be really difficult and you might be at a point of crisis, it’s so important, then, that you’re able to access services in the Welsh language if that’s what you want to do.”²³³

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

326. Clywsom gan y Dirprwy Weinidog fod gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, a ddarperir gan awdurdodau lleol yn unol â’r Ddeddf, yn darparu ymateb cymesur i ymholiad i rymuso’r unigolyn i gael mynediad at ymyriadau cynnar a gwasanaethau ataliol.²³⁴

“Ar gyfer gofalwyr, gallai hyn gynnwys;

- gwybodaeth am gymorth, heb fod angen asesiad (na fydd ei angen ar lawer o bobl ac y byddai’n anghymesur);
- cyngor ar gymorth, sy’n gynhwysfawr, diduedd a phriodol i’r unigolyn, yn dilyn asesiad sy’n gymesur i’r wybodaeth a ddarperir gan yr unigolyn;
- cymorth sy’n galluogi’r unigolyn i gael mynediad i’r gofal priodol; a
- gwasanaethau cymorth, gan gynnwys ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol.”²³⁵

327. Mewn perthynas â gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod dyletswydd ar gyfrff iechyd ac awdurdodau lleol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod pobl yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith.²³⁶

Ein barn ni

328. Mae gallu cael gafael ar wybodaeth briodol ar yr amser cywir yn hanfodol i ofalwyr er mwyn eu hatal rhag cyrraedd pwynt argyfwng. Gall olygu canlyniadau gwell o lawer iddynt o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol, a’u sefyllfa ariannol. Gall hefyd leihau’r tebygolrwydd o fod angen asesiad ffurfiol.

329. Felly, roedd yn siomedig iawn clywed nad yw gofalwyr yn dal i gael gwybodaeth, cyngor na chynhorthwy fel mater o drefn. Cawsom wybod, yn aml, nad ydynt yn gwybod ble mae eu pwynt cyswllt cyntaf, pwy i gysylltu â hwy, na

²³³ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 328

²³⁴ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 14 Chwefror 2019, Papur 1

²³⁵ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 14 Chwefror 2019, Papur 1

²³⁶ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraffau 15-16

phwy i gredu pan fydd ffynonellau gwybodaeth yn gwrthddweud ei gilydd. Clywsom adroddiadau hefyd fod gwybodaeth anghyson yn cael ei darparu nid yn unig gan wahanol awdurdodau lleol, ond mewn rhai achosion, o fewn yr un awdurdod.

330. Clywsom, er bod ystod eang o wybodaeth ar gael, bod yn rhaid i ofalwyr chwilio amdani eu hunain gan nad yw ar gael yn hawdd. Rhaid iddynt hefyd fynd i sawl ffynhonnell i'w chasglu, ac nid yw bob amser yn hawdd cael gafael arni, yn enwedig ar adegau o argyfwng. I lawer o ofalwyr, eu prif ffynhonnell wybodaeth o hyd yw ffrindiau a theulu, gofalwyr eraill, neu'r trydydd sector.

331. Mae'n bwysig bod pwynt gwybodaeth canolog ar gyfer gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sydd o ansawdd da, yn gynhwysfawr ac yn gwbl hygyrch. Dylai ddiwallu anghenion penodol gwahanol grwpiau o ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc a hŷn, gofalwyr anabl a siaradwyr Cymraeg.

332. Mae'n amlwg bod awdurdodau lleol wedi gwneud ymdrechion i wella'r wybodaeth y maent yn ei darparu i ofalwyr a'r ffordd y maent yn ei darparu, ac rydym wedi clywed am rai mentrau da iawn sy'n gweithredu mewn sawl ardal awdurdod lleol. At hynny, rydym yn deall bod gan bob awdurdod lleol bwynt gwybodaeth canolog erbyn hyn, a bod gwasanaeth gwybodaeth ar-lein i ofalwyr, Dewis Cymru, ar gael. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywsom, mae angen rhoi cyhoeddusrwydd gwell i argaeledd y gwasanaethau hyn.

333. Mae gwaith i'w wneud hefyd ar safoni gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar draws yr holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, ac o'u mewn. Ni ddylai hyn olygu y bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd ddarparu'r un gwasanaethau, ond dylai sicrhau bod safon ofynnol yn cael ei darparu i bob defnyddiwr gwasanaeth wrth roi hyblygrwydd i deilwra gwasanaethau a threialu mentrau newydd.

Argymhelliad 21. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr yn cael eu safoni ar draws bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol. Rhaid i hyn gynnwys darpariaeth ddwyieithog o'r gwasanaethau hyn. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynnull cynrychiolwyr o lywodraeth leol, byrddau iechyd a'r trydydd sector gyda'r nod o ddatblygu dull a fydd yn sicrhau'r gwelliannau hyn i'r defnyddiwr gwasanaeth. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl inni ar y cynnydd o fewn chwe mis.

Argymhelliad 22. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo argaeledd gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr yn well,

gan gynnwys manylion clir am sut i gael gafael arnynt. Dylid gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch gyhoeddusrwydd y cyfeirir ati yn Argymhelliad 4.

Argymhelliad 23. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan staff sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, fel rhan o bwynt cyngor a gwybodaeth canolog pob awdurdod lleol, wybodaeth gyfoes am hawliau a gwasanaethau i ofalwyr o dan y Ddeddf, ac y darperir hyfforddiant gloywi lle bo angen. Nodwn y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cymhwysedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithwyr gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ein diweddarau ar y cynnydd gyda'r prosiect hwn.

7. Cyllid ac adnoddau

Themâu allweddol yn y bennod hon

Clywsom dystiolaeth gref am ddiffyg cyllid ac adnoddau i gefnogi gwasanaethau gofalwyr.

Mae'r trydydd sector yn ddarparwr gwasanaethau pwysig i ofalwyr ond mae ei gyllid yn ansicr ac yn anghynnaladwy.

Mae trefniadau cyllid grant byrdymor yn ei gwneud hi'n anodd i'r sector gynllunio darpariaeth gwasanaeth.

Adnoddau i weithredu'r Ddeddf

334. Roedd un o'r prif negeseuon a ddaeth yn y dystiolaeth a gawsom yn ymwneud â chyllid; bod darparwyr gwasanaeth statudol dan bwysau oherwydd lleihau cyllidebau a bod y trydydd sector yn cael trafferth gyda threfniadau cyllido byrdymor, anghynnaladwy.

335. Dywedodd Hafal wrthym fod adnoddau, yn enwedig ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion, wedi bod dan bwysau dwys ers y Ddeddf i'r pwynt lle nad oes gan yr hawl i asesu lawer o ystyr i rai gofalwyr. Aeth ymlaen i ddweud:

“if there are no carer-specific services available, including respite care, then a major part of the point of the assessment is removed; if in addition there is little or no service being delivered to the person they care for, then much of the rest of the purpose of an assessment (namely to agree cooperation between the carer and services in providing care) is also lost.”²³⁷

336. Cefnogwyd y dystiolaeth hon gan sefydliadau eraill y trydydd sector, yn ogystal â nifer o ofalwyr yn ein grwpiau ffocws, a ddywedodd wrthym eu bod wedi colli ffydd yn y system ac nad oeddent am fynd drwy'r broses os na allai gwasanaethau cymdeithasol gynnig fawr o help neu gefnogaeth o ganlyniad i'r asesiad hwnnw.²³⁸ Yn yr un modd, dywedodd nifer o weithwyr cymorth yn ein

²³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, C10

²³⁸ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

grwpiau ffocws wrthym fod asesiadau'n codi disgwyliadau pan, oherwydd diffyg adnoddau, ychydig iawn o gefnogaeth y gellid ei gynnig wedyn.^{239 240}

Does dim byd yn digwydd ar ôl asesiad nawr – ond sut gallai rhywbeth ddigwydd heb arian? *Cyfranogwr o Bwyllgor Gofalwyr Cymru*²⁴¹

337. Amlinellodd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y problemau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau i ofalwyr ar adegau o galedi:

“(…) over the last 8 years Councils' core grant funding has reduced by 22% after adjusting for inflation. If you take schools funding out, core funding has fallen by 35%.”²⁴²

338. O safbwynt llywodraeth leol, dywedodd CLILC a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ei bod yn amlwg y gall sefyllfa ariannu llywodraeth leol arwain at ganlyniadau difrifol ar gyfer lles. Mae'n cyfyngu ar ofal cymdeithasol sydd, yn ei dro, yn cyfyngu'r sector gwirfoddol a darparwyr gofal. Mae hyn i gyd yn tynnu sylw at yr angen i ddiwygio'r trefniadau cyfredol ar frys a mynd i'r afael â'r dasg gymhleth o ddatblygu fframwaith cyllido cynaliadwy hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol.²⁴³

339. Adlewyrchwyd hyn i raddau ym marn cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo bod staff gwasanaethau cymdeithasol “yn gwybod faint oedd ganddynt i weithio gydag ef a'u bod yn cynnig cymorth yn unol â hynny, yn hytrach nag yn seiliedig ar angen y gofalwr”.²⁴⁴ Fodd bynnag, teimlai'r Gymdeithas Alzheimer's fod staff gwasanaeth statudol a gofalwyr di-dâl yn gwneud y gwaith gorau posibl yn yr hinsawdd sydd ohoni.²⁴⁵

340. Clywsom gan y Dirprwy Weinidog am gymorth ariannol penodol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofalwyr. Trafodir hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod hon. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r £3 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer darparu gofal seibiant ychwanegol, argymhellodd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor y dylai Llywodraeth Cymru geisio gwerthusiad o effaith y cyllid hwn ar ddarpariaeth seibiant yng Nghymru, a nodi'n benodol

²³⁹ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

²⁴⁰ Digwyddiad bwrdd crwn - crynodeb o'r trafodaethau

²⁴¹ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

²⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, C28

²⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C28

²⁴⁴ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

²⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C18

ansawdd a maint y ddarpariaeth seibiant a'r gefnogaeth i ofalwyr pobl sydd â chyflyrau cymhleth fel Clefyd Niwronau Motor.

Cyllid ar gyfer y trydydd sector

341. Mae'r trydydd sector yn ddarparwr gwasanaethau pwysig i ofalwyr ar ran awdurdodau lleol. Mae hefyd yn darparu cefnogaeth i ofalwyr nad ydynt yn derbyn gwasanaethau o ganlyniad i asesiad o anghenion gofalwyr. Clywsom dystiolaeth gref fod cyllid ar gyfer y trydydd sector yn ansicr ac yn anghynnaladwy. Ar y pwynt hwn, dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym mai cynaliadwyedd cyllid ar gyfer y trydydd sector yw'r risg fwyaf i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr.²⁴⁶ Dywedodd fod gwasanaethau gofalwyr y trydydd sector yn ei chael yn anodd yn ariannol yn gyffredinol a bod gwasanaethau gofalwyr wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar adeg pan mae angen heb ei ddiwallu yn cynyddu.²⁴⁷

342. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym, er mwyn gwneud gwasanaethau gofalwyr yn gynaliadwy, bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau sylfaen ariannu gynaliadwy a chymesur ar gyfer gwasanaethau gofalwyr generig. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o ofalwyr yn gallu cael gafael ar gymorth ataliol, yn hytrach na gorfod cael gafael ar eu hawl i gymorth ffurfiol o dan y Ddeddf ar bwynt argyfwng.

343. Gwnaed pwyntiau tebyg gan nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr y trydydd sector ac awdurdodau lleol, gan dynnu sylw at heriau trefniadau cyllido grant byrdymor ar gyfer y trydydd sector, a'r angen am drefniadau tymor hwy i alluogi cynllunio a darparu gwasanaethau'n dda. Ar y pwynt hwn, nododd Gofalwyr Cymru:

“We (...) recommend that Welsh Government change its approach from annual funding allocations to longer term grants to enable longer term planning and sustainability of carers services.”²⁴⁸

344. Mynegodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru farn debyg, gan nodi:

“There is universal agreement that short term funding is not viable for providing consistent and quality services for carers. It makes it difficult

²⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 215

²⁴⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 212

²⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

for all sectors to plan and provide services, and leads to staff turnover and the loss of experienced staff, especially in the third sector.”

“There appears to be universal agreement that a single grant for carers services either through a pooled budget and/or delivered through the Regional Partnership Board would be widely supported.”²⁴⁹

345. Aeth ymlaen i ddweud:

“If Welsh Government persists with giving grants specifically for carers we would require flexible criteria for its use to allow creativity and the ability to pilot new initiatives”²⁵⁰

346. Gwnaed pwyntiau tebyg hefyd gan Gyngor Abertawe, a alwodd ar Lywodraeth Cymru i gydnabod yr heriau sy’n dod gyda chyllid byrdymor ar fyr rybudd ac ystyried model cyllido tair i bum mlynedd, a fyddai’n galluogi cynllunio gwasanaethau’n fwy effeithiol gan arwain at ddarparu gwasanaethau mewn modd cynaliadwy a chyson.²⁵¹

347. Ar wahân, clywsom fod y broses o wneud cais am gyllid o fewn y trydydd sector yn hynod gystadleuol ac y gall fod yn broses hir, gan gymryd misoedd i gael penderfyniad. Mae hwn yn fater ar gyfer cynllunio hirdymor mewn elusennau, gyda llawer ohonynt heb yr amser na’r gallu i ymroi i’r broses o wneud cais.²⁵² Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, galwodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru am restr o ffynonellau cyllid sydd ar gael ar gyfer sefydliadau elusenol.²⁵³

Cynnwys y trydydd sector mewn gwaith cynllunio gwasanaeth a phenderfyniadau cyllido

348. Clywsom bryderon gan dystion nad yw sefydliadau’r trydydd sector yn chwarae rhan ddigonol mewn penderfyniadau cynllunio ac ariannu ar lefel ranbarthol.

349. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym, o ystyried bod mwyafrif y gwasanaethau ataliol yn cael eu darparu gan y trydydd sector ei bod yn siomedig nad oes gan y gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau o’r fath ddigon o fewnbwn gan y trydydd sector. Aeth ymlaen i ddisgrifio:

²⁴⁹ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol – 18 Ionawr 2019

²⁵⁰ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol – 18 Ionawr 2019

²⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C17

²⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

²⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

“growing concerns relating to the lack of meaningful representation of the third sector and carers at regional partnership board level. Lack of support, limited financial autonomy and opportunity to strategically plan are all factors that contribute to a power imbalance that ultimately impacts on the quality and appropriateness of services commissioned.”²⁵⁴

350. Cefnogodd Gofalwyr Cymru y farn hon, gan nodi bod cynrychiolwyr gofalwyr ar y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn dweud bod eu gallu i ddylanwadu yn gyfyngedig.²⁵⁵

351. Credai Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru y dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol gyhoeddi mandad clir o ran sut y mae'n rhaid i'r trydydd sector fod yn rhan o'r broses gynllunio.²⁵⁶

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

Adnoddau i weithredu'r Ddeddf

352. Yn ei thystiolaeth i ni, amlinellodd y Dirprwy Weinidog y gefnogaeth ariannol i ofalwyr y cytunwyd arni cyn sefydlu'r Grŵp Cyngori Gweinidogol. Roedd hyn yn cynnwys £3 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer darparu gofal seibiant ychwanegol (cyllid cylchol a ddarperir drwy Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth leol); a £50 miliwn mewn refeniw i fyrddau partneriaeth rhanbarthol (yn 2018-19) i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau arloesol mewn amrywiol feysydd blaenoriaeth ar integreiddio, gan gynnwys yn benodol ar gyfer gofalwyr.²⁵⁷

353. Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofalwyr y byddai cyllid ychwanegol i gefnogi gofalwyr yn cael ei gynnwys fel rhan o fuddsoddiad mwy o £15 miliwn ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer pobl hŷn a gofalwyr yn y Gronfa Gofal Integredig.

354. Ar adeg cymryd dystiolaeth, roedd Grŵp Cyngori Gweinidogol Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod ar ddau achlysur. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod ei ffocws bryd hynny ar seibiant, a bod is-grŵp wedi'i sefydlu i herio a datblygu syniadau yn adeiladol i'w datblygu.²⁵⁸

355. Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog a oedd yn hyderus y byddai cyllid a drosglwyddir i'r grant cynnal refeniw yn arwain at wasanaethau ychwanegol i

²⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

²⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 247

²⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C23

²⁵⁷ Papur dystiolaeth Llywodraeth Cymru

²⁵⁸ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 140

ofalwyr. Dywedodd wrthym fod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hasesu a bod cynllun gofal yn cael ei lunio yn seiliedig ar eu cymhwysedd. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol yn nodi'r hyn yr oedd yn ei ddisgwyl ganddynt.

Cyllid ar gyfer y trydydd sector

356. Gwnaethom drafod gyda'r Dirprwy Weinidog yr heriau sy'n wynebu'r trydydd sector o ran cynaliadwyedd cyllid, ac yn benodol rhinweddau cronfa gofalwyr sengl. Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y gellid cyflawni un gronfa nawr, gan ei bod yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ystyried a ddylid sefydlu cronfa gyfun pryd bynnag y gwnânt unrhyw beth ar y cyd, ac felly gallai hyn gynnwys cronni cyllidebau mewn perthynas â darparu gwasanaethau i ofalwyr.²⁵⁹

357. Gwnaethom hefyd drafod y problemau a nodwyd gan dystion o ran natur fyrdymor cyllid grant ar gyfer y trydydd sector. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“(...) you understand why they [the third sector] want the core funding, because it does give stability. But, basically, I suppose the purpose of having the third sector is that it is more of an independent body, and they do have their own funds as well (...).”²⁶⁰

358. Aeth swyddog y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi “gosod nod” ar gyfer pob rhanbarth y dylid defnyddio 20 y cant o adnoddau cronfa gofal integredig ar gyfer prosiectau'r trydydd sector, a bod cynnydd tuag at hyn yn cael ei fonitro bob chwarter. Ar adeg cymryd tystiolaeth, dim ond un o'r saith rhanbarth oedd yn bodloni'r prawf hwnnw.²⁶¹

359. O ran monitro'r gwasanaethau a ddarperir o ganlyniad i gyllid Llywodraeth Cymru, dywedodd swyddog y Gweinidog wrthym fod byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn bartneriaid ar y cyd mewn byrddau partneriaeth rhanbarthol, a gyda'i gilydd dylent fod yn asesu ac yn cytuno ar anghenion y bobl yn eu hardaloedd, ac yn comisiynu cynlluniau i ddiwallu'r anghenion hynny.²⁶²

²⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 131

²⁶⁰ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror, paragraff 115

²⁶¹ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraffau 116-128

²⁶² Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 29

360. Gofynnwyd sut roedd Llywodraeth Cymru yn monitro hyn, a dywedodd swyddog y Gweinidog fod hyn yn cael ei wneud drwy fonitro'r gronfa gofal integredig.²⁶³ Aeth ymlaen i ddweud:

“Government isn’t always in the best position to determine what the nature of provision should be on the ground. Regional partnerships boards are those mechanisms that are there to assess needs and commission plans. It’s Government resources that we are accountable for, so we take that role very seriously and we do scrutinise.”²⁶⁴

Ein barn ni

361. Fel yr ydym eisoes wedi nodi, mae'r sector yn amcangyfrif bod gofalwyr di-dâl yn darparu cyfwerth ag £8.1 biliwn o ofal y flwyddyn. Mae'r gwaith a wneir gan ofalwyr di-dâl yn cynrychioli arbedion cost enfawr i'r wladwriaeth, ac o'r herwydd, mae darparu cefnogaeth briodol i ofalwyr di-dâl yn faes sylweddol o wariant ataliol. Y lleiaf o gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl, y mwyaf yw'r galw am wasanaethau a ariennir gan y wladwriaeth.

362. Addawodd y ddeddfwriaeth hawliau a gwasanaethau gwell i ofalwyr ond mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod cwestiynau ynghylch p'un a oes cyllid digonol ar gael i alluogi'r hawliau a'r gwasanaethau hyn yn ymarferol.

363. Roeddem yn bryderus iawn o glywed nad oes gan yr hawl i asesiad, i nifer o ofalwyr, lawer o ystyr oherwydd diffyg adnoddau i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol sy'n deillio o'r asesiad hwnnw. Yn yr un modd, mae'n destun pryder clywed am staff gwasanaethau cymdeithasol sy'n ceisio rheoli disgwyliadau gofalwyr oherwydd nad yw gwasanaethau naill ai ar gael neu fod ganddynt restrau aros hir.

364. Er bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod arian ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau gofalwyr, gan gynnwys seibiant, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cwestiynau o hyd ynghylch a yw'r cyllid cyffredinol yn ddigonol i ddiwallu'r angen cyfredol a rhagamcanol.

365. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynghylch pa wasanaethau cymorth y gellir yn rhesymol eu cynnig a'u darparu i ofalwyr di-dâl gyda'r arian sydd ar gael, gan gofio y gall darparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn arbed

²⁶³ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 31

²⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 14 Chwefror 2019, paragraff 33

arian yn y tymor hwy drwy leihau nifer yr argyfyngau a diffyg trefniadau gofal anffurfiol.

Argymhelliad 24. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwerthusiad annibynnol y Ddeddf yn ystyried a yw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr wedi bod yn ddigonol i gyflawni bwriadau polisi'r Ddeddf. Rhaid iddi hefyd ystyried y cyllid a fydd yn angenrheidiol yn y tymor hwy i ddarparu'r hawliau a'r gwasanaethau a addawyd gan y Ddeddf.

Trefniadau cyllido ar gyfer y trydydd sector

366. Mae'r trefniadau cyllido byrdymor cyfredol yn cyflwyno heriau gwirioneddol i'r trydydd sector, gan ei gwneud hi'n anodd iddynt gynllunio ymlaen llaw ar gyfer darparu gwasanaeth gydag unrhyw sicrwydd gwirioneddol. At hynny, mae'r broses o wneud cais am gyllid yn ddwys o ran adnoddau a gall fod yn hir.

367. Mae'r arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn bennaf drwy gyllid grant 1-2 flynedd a ariannwyd gan y Llywodraeth. Lle mae ymrwymadau cyllido tymor hwy wedi'u rhoi, trosglwyddwyd yr arian hwn i'r Grant Cynnal Refeniw. (Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn nodi ei disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau.)

368. O ystyried rôl hanfodol rhai sefydliadau'r trydydd sector wrth gefnogi gofalwyr di-dâl, mae'r trefniadau cyllido hyn o bosibl yn agor gofalwyr i lefel ddiangen o risg.

Argymhelliad 25. Mae'r sector statudol yn ddibynnol iawn ar y trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr. Mae angen adlewyrchu'r ddibyniaeth honno wrth ddarparu cyllid digonol ar gyfer y trydydd sector, a chynnwys y sector mewn modd ystyrllon wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch y cyllid hwnnw. Credwn y dylai'r Grŵp Cyngori Gweinidogol ystyried y mater hwn. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith hwn o fewn chwe mis.

Argymhelliad 26. Mae angen trefniant cyllido hirdymor, cynaliadwy a symlach ar gyfer sefydliad-au'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr o dan y Ddeddf. Credwn y dylid darparu cyllid bob tair blynedd o leiaf. Rhaid i Lywod-raeth Cymru symud tuag at hyn fel mater o flaenoriaeth.

369. Yn y cyfamser, mae sawl cam y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i liniaru rhai o heriau'r trefniadau presennol.

370. Yn gyntaf, credwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod un rhestr o'r holl ffynonellau cyllid ar gael ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r sefydliadau nodi'r cyfleoedd cyllido sydd ar gael.

371. Yn ail, credwn fod rhinwedd mewn sicrhau bod un llif cyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau gofalwyr. Byddai gan hyn y fantais o fod yn haws ei weinyddu a'i fonitro na'r trefniadau cyfredol.

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr a hygyrch o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i ddarparu cymorth i ofalwyr gan y trydydd sector. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sicrhau bod un llif cyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau gofalwyr. Dylai hyn ddisodli'r system gyfredol o grantiau unigol. Dylai fod mecanwaith monitro ac adrodd ochr yn ochr ag ef i sicrhau ei fod yn sicrhau gwerth am arian.

Casglu data

Themâu allweddol yn y bennod hon

Mae data ar ofalwyr yn cael eu casglu gan amrywiol sefydliadau ond mae angen eu cydgysylltu a'u coladu.

Mae angen gwell data ar nifer y gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) ym mhob awdurdod lleol. Yn ei adroddiad ym mis Mai 2019, argymhellodd Estyn y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu data dibynadwy, a gesglir yn genedlaethol er mwyn helpu i nodi gofalwyr ifanc.

Mae angen data hefyd ar resymau dros wrthod asesiadau, canlyniadau asesiadau, derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i ddadansoddiad yng ngallu gofalwr i barhau i ofalu.

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yw'r isadeiledd cymunedol sy'n ymwneud â gwybodaeth am ofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno WCCIS ar draws ieuchyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Caiff ei darparu drwy ei chyflwyno'n raddol. Ers mis Ebrill 2019, roedd 13 o sefydliadau wedi'i mabwysiadu.

Data annigonol

372. Clywsom gan nifer o ymatebwyr nad oedd y wybodaeth a'r data a gasglwyd mewn perthynas â gofalwyr yn ddigonol. Yn benodol, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn wrthym "ymddengys fod lle i bryderu am ddiffyg gwybodaeth a data cadarn i'n cynorthwyo i lunio casgliadau ynghylch a yw dyletswyddau'r Ddeddf yn cael eu cyflawni".²⁶⁵

373. Rhannwyd y farn hon gan Gofalwyr Cymru, a ddywedodd ei bod yn anodd penderfynu pa mor dda yr oedd y Ddeddf yn cael ei gweithredu, o ystyried diffyg mecanwaith cyffredinol i gasglu gwybodaeth reoli sylfaenol ar nifer y gofalwyr sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol i gael gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy neu i gael gafael ar wasanaethau cymorth²⁶⁶. Dywedodd Gofalwyr Cymru fod casglu data mewn modd gwael iawn am ofalwyr ledled Cymru yn digwydd oherwydd:

²⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

²⁶⁶ Papur Briffio, [Track the Act 3](#)

“(…) different systems being used, different ways of capturing information and also systems not identifying carers when they go to local authorities.”²⁶⁷

374. Gwnaed pwynt tebyg gan y Comisiynydd Pobl Hŷn. Dywedodd wrthym y “byddai gwella’r data’n fodd o ddeall anghenion gofalwyr yn well ac yn helpu i nodi bylchau yn y cymorth a’r gwasanaethau GCC, er enghraifft a yw unigolion eu hunain yn datgan eu bod yn ofalwyr neu a ydynt wedi’u hadnabod gan staff GCC, y math o gymorth y gofynnwyd amdano, a gafodd unigolion eu hatgyfeirio i gael asesiad, neu’r rhesymau dros wrthod asesiad gofalwyr”.²⁶⁸

375. At hynny, roedd hi’n teimlo ei bod yn bwysig bod data’n cael eu casglu ar dderbyniadau i’r ysbyty o ganlyniad i ddadansoddiad yng ngallu gofalwr i barhau i ofalu²⁶⁹.

376. Yn yr un modd, nododd Age Cymru ddiffygion sylweddol yn y data a gasglwyd ar ofalwyr, yn enwedig am asesiadau gofalwyr a’u canlyniadau, gan ddweud bod y data cyfredol am ofalwyr di-dâl yn wan ac y dylent fod yn fwy cynhwysfawr a chywir. Dywedodd Age Cymru y cred fod angen sylweddol heb ei ddiwallu am gymorth i ofalwyr, ond bod bylchau yn y data yn golygu ei bod yn anodd amcangyfrif maint y broblem.²⁷⁰

377. Clywsom gan lywodraeth leol fod angen cydbwysedd rhwng y wybodaeth yr oedd angen i awdurdodau lleol ei chofnodi a’r hyn yr oedd gofalwyr yn gyfforddus yn ei ddarparu.²⁷¹

378. Cyfeiriodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol at nifer o heriau sy’n wynebu awdurdodau lleol wrth gasglu data ar ofalwyr, gan gynnwys yr anawsterau wrth nodi gofalwyr a diffyg diffiniad o “ofalwr” yn y Ddeddf nad yw’n caniatáu cysondeb ymatebion gan bob awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru.

379. Cyfeiriodd hefyd at anawsterau wrth gyflwyno WCCIS (a drafodir mewn adran ddiweddarach o’r bennod hon), a dywedodd wrthym fod y mater ynghylch casglu mwy o ddata yn ystod yr oes hon o galedi a’r capasiti o fewn awdurdodau lleol yn mynd i fod yn her wrth symud ymlaen.²⁷²

²⁶⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 138

²⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C24

²⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraffau 334-335

²⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, C19

²⁷¹ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol – 18 Ionawr 2019

²⁷² Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol – 18 Ionawr 2019

380. Yn olaf, dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol na ddylai'r ffocws fod ar wybodaeth feintiol yn unig ond ar ddata mwy ansoddol i gyd-fynd â'r dull canlyniadau yn y Ddeddf. Awgrymodd y gallai enghreifftiau astudiaeth achos o achosion fod yn fwy priodol i ddangos sut rydym wedi gweithio ar sail canlyniadau, ar y cyd ac yn gydgynhyrchiol na nifer yr asesiadau a gwblhawyd.²⁷³

381. Galwodd Gofalwyr Cymru am gasglu data yn gadarn fel rhan o ofynion Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol gan awdurdodau lleol ac y dylid gwneud hyn mewn cydweithrediad ag eraill, gan gynnwys aelodau o'r Grŵp Cyngori Gweinidogol ar gyfer Gofalwyr i nodi mandad clir a dull diamwys i sicrhau y cesglir data mewn modd effeithiol.²⁷⁴

382. Gwnaeth Canolfan Heneiddio Arloesol Prifysgol Abertawe sylwadau ar sefyllfa'r DU, gan ddweud bod bylchau data sylweddol mewn perthynas â gofalwyr ac absenoldeb data hygyrch a chynhwysfawr yn gyffredinol. Cyfeiriodd at ddiffyg cydgysylltu a bylchau data mawr a nodwyd ar draws pedair gwlad y DU, a galwodd am sefydlu corff cydgysylltu'r DU ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion i gydgysylltu a chrynhai tueddiadau data at ddefnydd polisi ac ymchwil.²⁷⁵

Estyn

383. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd Estyn adroddiad, "*Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru*". Yn yr adroddiad hwnnw, roedd Estyn yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu data dibynadwy, a gesglir yn genedlaethol er mwyn helpu i nodi gofalwyr ifanc.

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

384. Cawsom wybod y bydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), ar ôl ei chyflwyno'n llawn, yn gwella cysondeb y broses casglu data ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn fawr.²⁷⁶ Fodd bynnag, ymddengys fod y cynnydd ar weithredu'r system newydd yn araf.

²⁷³ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol - 18 Ionawr 2019

²⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

²⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C22

²⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C27

385. Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ei bod yn anodd i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth gywir pan nad oedd pob awdurdod lleol wedi symud i'r system newydd.²⁷⁷

Data tymor hwy

386. Cyfeiriodd Age Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn at yr angen am astudiaeth hydredol ar heneiddio yng Nghymru, gan nodi mai Cymru bellach yw'r unig genedl yn y DU sydd heb set ddata gyfatebol i seilio tystiolaeth arni.²⁷⁸ Teimlwyd y byddai astudiaeth o'r fath o reidrydd yn casglu data am ofalwyr.²⁷⁹

387. Mae hwn yn fater y mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi'i ystyried o'r blaen.²⁸⁰ Roedd y Pwyllgor yn argymhell bod "Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried gwaith ymchwil wedi'i thargedu'n well gan adeiladu ar yr astudiaeth iechyd a gweithrediad gwybyddol ym mhrifysgolion Bangor ac Abertawe. Byddai hyn yn sicrhau bod y data mwyaf cywir ar gael ar gyfer amcangyfrif cyfanswm y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn".

388. Roedd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn yr un modd yn bryderus ynghylch y diffyg sylfaen dystiolaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ariannu gwaith ymchwil newydd yng Nghymru ynghylch gofal di-dâl a'r effaith y mae'n ei chael ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas.²⁸¹

Cydgysylltu ar draws gwasanaethau a sectorau

389. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector wrthym, yn ogystal â data a gasglwyd gan asiantaethau statudol, fod cryn dipyn o ddata yn cael eu casglu gan sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau eraill. Yr her, yn ôl Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, yw cydgysylltu ymdrechion o'r fath a choladu'r data:

"In terms of data that is collected on carers, there is an awful lot of data that is actually there before the local authority line, before the statutory services are there. (...) There needs to be a mechanism for how that information is used. It shouldn't just be about what is contained within the local authority remit or the health board remit. It's about what's there already. There is a wealth of knowledge across Wales in terms of

²⁷⁷ Llythyr gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol - 18 Ionawr 2019

²⁷⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig, C19](#)

²⁷⁹ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018. Paragraffau 338-341

²⁸⁰ [Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio](#) - Hydref 2018

²⁸¹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, C23](#)

the information and the support and the IA that is being provided outside of that statutory concern.”²⁸²

390. Clywsom fod rhai awdurdodau lleol yn gweithio gyda’u cymdeithasau o sefydliadau gwirfoddol i annog mwy o gydweithredu rhwng y trydydd sector ac awdurdod lleol.

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

391. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y data cyfredol am ofalwyr yn “amherffraith ond mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y bydd data yn fwy dibynadwy ac yn addas i’w defnyddio yn y dyfodol”.²⁸³

392. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn datblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd a fydd yn “gwella’r ffordd y caiff data eu casglu mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac felly ein dealltwriaeth o effaith y Ddeddf, gan, gan gynnwys ei effaith ar ofalwyr”.²⁸⁴

393. Cadarnhaodd fod y fframwaith yn cael ei ddatblygu “mewn partneriaeth â phenaethiaid gwasanaethau ac arweinwyr data o fewn awdurdodau lleol. Bydd y fframwaith newydd ar waith ym mis Ebrill 2020 gyda’r ffurflenni data cyntaf i’w cyflwyno ym mis Mawrth 2021. Cynhelir ymgynghoriad llawn yng Ngwanwyn 2019”.²⁸⁵

394. O dan y fframwaith, “bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu data ychwanegol ar ofalwyr, gan gynnwys pwyslais cynyddol ar ddata ansoddol, er mwyn i farn a phrofiadau gofalwyr o’r Ddeddf gael eu casglu, yn ogystal â gwybodaeth feintiol”.²⁸⁶

WCCIS

395. Mewn perthynas â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“Bydd WCCIS yn darparu ar gyfer y gwasanaeth di-dor a ragwelir yn ein cynllun ar y cyd. Fel rhaglen genedlaethol eang, mae’n cael ei

²⁸² Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paragraff 144

²⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

²⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

²⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

²⁸⁶ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 4 Ebrill 2019

chyflwyno'n raddol ac mae 13 o sefydliadau eisoes yn ei gweithredu ac mae mwy nag 11,000 o ddefnyddwyr.”²⁸⁷

396. Dywedodd, ar gyfer y sefydliadau hynny sydd wedi llofnodi gorchmynion lleoli, “y dyddiad hwyrach ar gyfer mynd yn fyw yw Ionawr 2021. Byddwn yn parhau i gwrso'r sefydliadau nad ydynt wedi llofnodi gorchmynion adleoli eto”.²⁸⁸

397. Cadarnhaodd, er y bydd yn ofynnol i'r GIG ddefnyddio'r system, “bydd angen i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau unigol eu hunain”, er bod Llywodraeth Cymru “wedi ei gwneud yn eglur iawn mai hon yw'r system y disgwylir ei defnyddio ledled Cymru drwy'r caffael cenedlaethol”.²⁸⁹

Data tymor hwy

398. Yn ei hymateb i argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ynghylch astudiaethau o anghenion gofalu yn y dyfodol, nododd y Dirprwy Weinidog fod “ystod o ffynonellau data yng Nghymru sy'n caniatáu tracio unigolion dros amser mewn dull tebyg i astudiaeth hydredol”.²⁹⁰

399. Aeth ymlaen i nodi y “gellir defnyddio ffynonellau fel Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (Secure Anonymised Information Linkage - SAIL) i fonitro'r modd y mae unigolion yn rhyngweithio â'r gwasanaethau dros amser, tra bod Doeth am Iechyd Cymru yn caniatáu gofyn cyfres o gwestiynau i'r un cyfranogwyr dros gyfnod o amser”.²⁹¹

400. Cadarnhaodd fod swyddogion wrthi'n “archwilio beth fyddai astudiaeth o'r fath yn ei chyflawni yng Nghymru nad yw ar gael drwy'r ffynonellau presennol”.²⁹²

Ein barn ni

401. Mae casglu data o ansawdd da yn hanfodol i ddeall y sefyllfa bresennol a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer nifer cynyddol o ofalwyr yng Nghymru. Fel y cydnabuwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, mae lle i wella'n sylweddol y trefniadau presennol, sy'n anghyson ac yn anghyfartal.

²⁸⁷ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 4 Ebrill 2019

²⁸⁸ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 4 Ebrill 2019

²⁸⁹ Ymateb Llywodraeth Cymru i “cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio” – 2 Ionawr 2019

²⁹⁰ Ymateb Llywodraeth Cymru i “cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio” – 2 Ionawr 2019

²⁹¹ Ymateb Llywodraeth Cymru i “cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio” – 2 Ionawr 2019

²⁹² Ymateb Llywodraeth Cymru i “cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio” – 2 Ionawr 2019

402. Mae'n amlwg bod cryn dipyn o ddata am ofalwyr yn cael eu casglu gan amrywiol sefydliadau, gan gynnwys y trydydd sector, ond mae angen cydgysylltu a choladu hyn er mwyn bod yn effeithiol.

403. Mae angen data o ansawdd gwell mewn sawl maes, gan gynnwys nifer y gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) ym mhob awdurdod lleol; y rhesymau dros wrthod asesiadau; canlyniadau asesiadau; a derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i ddiffyg gofal.

404. Mae rhai enghreifftiau da o draws-weithio gyda'r sector gwirfoddol ond, ar y cyfan, mae angen rhannu arfer da yn well.

405. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain yn gryfach ar y gwaith o gasglu data am ofalwyr er mwyn sicrhau bod data priodol, ystyrlon yn cael eu casglu mewn ffordd gydgysylltiedig a chyson i lywio gwaith cynllunio gwasanaeth a chyllid yn y dyfodol.

406. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog am y Fframwaith Perfformiad a Gwella sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Nodwn y bydd hyn ar waith erbyn mis Ebrill 2020, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu data ychwanegol ar ofalwyr, gan gynnwys pwyslais cynyddol ar ddata ansoddol. Hyd y gwyddom, ni fydd y gwaith hwn yn cynnwys data a gesglir gan y trydydd sector.

Argymhelliad 29. Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain yn gryfach ar ddull cenedlaethol o gasglu data ar ofalwyr, er mwyn sicrhau bod data priodol ac ystyrlon yn cael eu casglu ar draws pob sector mewn ffordd gydgysylltiedig a chyson. Credwn y dylai hyn fod yn swyddogaeth y Grŵp Cyngori Gweinidogol, a ddylai ddatblygu canllawiau cenedlaethol i bennu pa ddata y mae angen eu casglu, sut y dylid eu casglu a sut y byddant yn cael eu defnyddio ar ôl eu casglu. Dylai'r data gael eu cyhoeddi, a dylid eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio gwasanaeth a chyllid yn y dyfodol. Credwn fod y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn rhan bwysig o'r gwaith hwn, a gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd.

Argymhelliad 30. Rydym yn cefnogi argymhelliad Estyn yn ei adroddiad ym mis Mai 2019 y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu data dibynadwy, a gesglir yn genedlaethol er mwyn helpu i nodi gofalwyr ifanc.

WCCIS

407. Cawsom ein siomi gan y cynnydd hyd yma wrth weithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), a chawsom ein siomi hefyd nad

oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi amserlen glir ar gyfer cwblhau'r broses gyflwyno. Credwn fod angen dull mwy brys o gyflwyno WCCIS.

Argymhelliad 31. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru o fewn chwe mis.

Data tymor hwy

408. Mewn perthynas â threfniadau ar gyfer casglu data tymor hwy ar heneiddio, nodwn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i archwilio'r hyn y gellid ei gyflawni drwy astudiaeth hydredol benodol ar gyfer Cymru na fyddai ar gael drwy'r ffynonellau presennol. Byddai gennym ddiddordeb mewn gweld canlyniadau'r gwaith hwnnw, a gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ein diweddarau yn unol â hynny.